

## **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2021/22**

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn gyfres o ddogfennau sy'n dweud wrthy ch am ein sefydliad, y gwasanaethau a'r gofal a ddarparwn a'r hyn a wnawn i gynllunio, darparu a gwella gofal iechyd i chi. Mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad yn 2021/22, yr hyn rydym wedi'i gyflawni, sut rydym yn bwriadu parhau i wella'r flwyddyn nesaf a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn esbonio pa mor bwysig yw hi i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich barn, i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'ch anghenion yn well, mor agos at eich cartref â phosibl.

### **Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn cynnwys:**

1. Ein **Hadroddiad Perfformiad** sy'n manylu ar sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau a'r camau gweithredu a gynlluniwyd i gynnal neu wella ein perfformiad.
2. Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** sy'n manylu ar ein gofynion atebolrwydd allweddol ac yn darparu gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ac yn llywodraethu ein hadnoddau, yn nodi ac yn ymateb i'n risgiau, ac yn cydymffurfio â'n trefniadau llywodraethu ein hunain.
3. Ein **Datganiadau Ariannol a Chyfrifon Blynyddol** sy'n manylu ar sut rydym wedi gwario ein harian ac wedi cyflawni ein rhwymedigaethau.

<b>Adran un – Yr Adroddiad Perfformiad</b>	
• Trosolwg	<b>4</b>
• Gofynion Adrodd	<b>5</b>
• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	<b>6</b>
• Cynllun Blynyddol 2021/22	<b>8</b>
• Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau	<b>12</b>
• Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol	<b>15</b>
• Profi ac Imiwneiddio ar gyfer COVID	<b>26</b>
• Atal a Rheoli Heintiau	<b>34</b>
• Darparu Gwasanaethau Hanfodol	<b>40</b>
• Profiad y Claf: Gwrando a Dysgu o Adborth	<b>51</b>
• Gweithio i Wella	<b>59</b>
• Cyflawni mewn Partneriaeth	<b>61</b>
• Rheoli'r Gweithlu a Llesiant	<b>67</b>
• Cyfathrebu ac Ymgysylltu	<b>74</b>
• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<b>78</b>
• Y Gymraeg	<b>80</b>
• Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth	<b>82</b>
• Cynllunio Parhad Busnes a Brys	<b>83</b>
• Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol	<b>84</b>
• Casgliad a Rhagolwg	<b>85</b>
<b>Adran Dau – Yr Adroddiad Atebolrwydd</b>	
<b>Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol</b>	<b>88</b>
<b>1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr</b>	<b>89</b>
<b>2 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol</b>	<b>92</b>
<b>3 Datganiad Llywodraethu Blynyddol</b>	<b>94</b>
<b>Adroddiad Cyflogau a Staff</b>	<b>157</b>
<b>Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio</b>	<b>172</b>
<b>Adran Tri – Y Datganiadau Ariannol</b>	
<b>Y Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2021-22</b>	<b>187</b>




# **Adroddiad Perfformiad 2021/22**

## Trosolwg

Dros y 12 mis diwethaf mae ein sefydliad wedi wynebu heriau lluosog gyda thonnau olynol o Covid-19 ei hun, ond hefyd yn delio â'r effeithiau ehangach ar ein poblogaeth a'n gwasanaethau yn sgil y camau gweithredu i ymdrin â'r pandemig. Daeth 2021/22 â galw cynyddol ar draws ein gofal brys a'n systemau gofal wedi'i gynllunio, mwy o bwysau ar ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi profi galw uchel ar wasanaethau galw i mewn yn ein hadrannau achosion brys, pwysau sylweddol ym maes gofal cymdeithasol a lefelau uchel o absenoldeb ar draws ein gweithlu. Mae hyn yng nghyd-destun ailgychwyn llawer o wasanaethau arferol er gwaethaf cyfyngiadau parhaus ar gapasiti.

Er gwaethaf yr heriau gweithredol hyn rydym yn falch o'r ffordd y mae ein staff wedi ymateb, gan ddangos gwytnwch, dewrder, deinameg, dyfeisgarwch a sgil gwych dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Hyd yn oed gyda'r heriau hyn, mae ein gweithlu wedi galluogi ein system i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio i gyflawni uchelgeisiau Cynllun Blynyddol 2021/22, a gymeradwywyd gan ein Bwrdd ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2021, yn unol â gofynion [Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru ar gyfer 2021 i 2022](#).

Roedd Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/22 yn nodi ein blaenoriaethau sefydliadol craidd, a oedd yn canolbwyntio ar leihau'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan ein cymunedau, drwy wella iechyd y boblogaeth. Wrth wneud hynny, mabwysiadodd y Cynllun dull cwrs bywyd a oedd yn gwneud y gorau o iechyd a lles ein cymunedau. Rydym yn hyderus y bydd y dull hwn yn darparu enillion uchel ar gyfer iechyd a datblygu cynaliadwy, oherwydd salwch cyfyngedig a thrwy Gronni risg gydol oes i'n dinasyddion. Roedd Cynllun Blynyddol 2021/22 yn uchelgeisiol wrth geisio cefnogi'r sefydliad i gyflawni ar draws ei flaenoriaethau cwrs bywyd ac fe'i cynlluniwyd i ddiwallu'r anghenion i ymateb ond hefyd i gefnogi'r sefydliad i edrych ymlaen a chanolbwyntio ar gynaliadwyedd.



Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol wedi parhau i fod yn wydn ac yn berthnasol ers dros ddegawd. Roedd agor Ysbyty Athrofaol y Grange ym mis Tachwedd 2020, fel rhan o rwydwaith ysbytai newydd, yn garreg filltir sylfaenol wrth gyflawni'r strategaeth ehangach. Mae Dyfodol Clinigol yn ceisio gwella iechyd,

gwytnwch a lles y boblogaeth, darparu'r mwyafrif o ofal yn agos i'r cartref, yn bennaf gwasanaethau sylfaenol a chymunedol trylwyr, i gyd wedi'u cefnogi gan rwydwaith ysbytai.

Flwyddyn ar ôl agor Ysbyty Athrofaol y Grange a symud i fodel ysbyty newydd, chwe mis yn gynnar ac yng nghanol pandemig, rydym yn gweld manteision o ran cynaliadwyedd gwasanaeth, gwydnwch a chapasiti. Yn

ogystal, mae recriwtio wedi gwella ar gyfer staff meddygol arbenigol a nyrsys cofrestredig.

Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cyflawniadau yn 2021/22, ac ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau mae:

- Gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd ym mherfformiad Gofal Brys, tra'n cydnabod yr hinsawdd heriol.
- Crëwyd parthau llawfeddygol diogel i gynnal gwasanaethau brys a hanfodol.
- Erbyn Chwefror 2022, roedd 95% o unigolion dros hanner cant oed wedi cael eu dos cyntaf o'r brechiad Covid, 94% eu hail ddos ac 86% wedi cael eu pigiad atgyfnerthu.
- Sefydlwyd gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys ym mhob un o safleoedd Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell (ELGH).
- Sefydlwyd gwasanaethau triniaeth ddydd newydd.
- Lleihawyd swyddi gweigion nyrsys 85% ar adeg agor Ysbyty Athrofaol y Grange.
- Gweithredu rhaglen Haen Sylfaenol Llesiant Meddyliol, gan gynnwys Connect 5, SPACE (datblygu un pwynt mynediad i blant ac oedolion ifanc) a Melo.
- Wedi cyflawni balans ariannol yn unol â Chynllun Ariannol 2021/22.

Wrth i ni nesáu at 2022/23, byddwn yn parhau i ymgorffori'r modelau gofal newydd na ellid eu gweithredu'n llawn wrth i'n system ymateb i'r pandemig. Er gwaethaf hyn, ein prif ffocws a'n cyfleoedd allweddol ar gyfer cyflawni system gynaliadwy yw cyflawni ein strategaeth ehangach, gan gryfhau rôl ein rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol gwell.

Rydym felly wedi ail-lunio ein Rhaglen Dyfodol Clinigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol y sefydliad a fydd, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'n system, yn sicrhau'r effaith fwyaf ar wella cynaliadwyedd ein system.

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 yn ddilyniant naturiol o Gynllun Blynyddol 2021/22, gan adeiladu ar y dull cwrs bywyd, tra'n cydnabod bod y cyd-destun y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo nawr yn wahanol i'r un a ddeallir yn 2020/21. Mae hyn yn ffocws o'r newydd ar adferiad cynaliadwy, a nodweddir gan newid sylfaenol sy'n cwmpasu rôl ehangach Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, cyflawni'r economi sylfaenol, a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gydag uchelgais Sero Net 2030.

## **Gofynion Adrodd**

Diben adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol 2021/22 hwn, fel y nodir yn y canllawiau a ddarperir yn Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2021/22, yw darparu gwybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ei brif amcanion a'i strategaethau, a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r gofynion yn seiliedig ar y materion y mae angen ymdrin â hwy fel y nodir

ym Mhennod 4A o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006, fel y'i haddaswyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a Llawlyfr Canllawiau GIG Cymru.

Mae prif nodweddion yr adroddiad hwn yn deillio o Fframweithiau Cynllunio, Cyflawni a Pherfformiad y sefydliad ac yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn y rhain.




Dylid nodi bod y ddyletswydd ansawdd yn dod i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023 yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Felly, bydd y gofynion adrodd newydd yn cael eu cynnwys mewn prosesau sydd ar waith ar gyfer 2023/ 24. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y ddyletswydd ansawdd yn cael ei gweithredu'n anstatudol yn hydref 2022. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer profi'r dangosyddion adrodd ansawdd, y mesurau a'r cysyniadau fframwaith naratif sy'n cael eu datblygu yn ystod cam gweithredu'r ddyletswydd ansawdd fel proses adrodd hybrid ar gyfer 2022/23. Yn y cyfamser, mae gofynion adrodd ansawdd wedi'u hymgorffori yn yr Adran Berfformiad hon o Adroddiad Blynyddol 2021/22.

Nid oes gofyniad gorfodol ar y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22. Mae'r Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol (Adran 2), Tudalen 121, yn cynnwys trosolwg lefel uchel o waith y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn. Bydd y Bwrdd yn derbyn ei Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol ym mis Medi 2022, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 a chyflawnodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod ein system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflawni'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethu cadarn, cyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion, ac mewn modd sy'n hybu hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu'r pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae Demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a'r rhan fwyaf dwyreiniol o gymoedd de Cymru.

 <b>Area</b>	The total area of Gwent is 158,500 hectares – approximately 7.6% of the total area of Wales.	<b>Overall population</b>	The overall population in Gwent is projected <b>increase</b> by <b>6.2 %</b> between 2019 and 2043, roughly similar to the Welsh average (5.2%). For Gwent this would mean <b>36,987</b> extra people <sup>3</sup> .
 <b>Population</b>	The estimated population of Gwent is 594,164, approximately 19% of the total population for Wales.	<b>Aged 16-64</b>	The number of people aged 16-64 living in Gwent projected to slightly <b>rise</b> by <b>0.7%</b> by 2043, similar to the Welsh average (-0.5%). For Gwent this would mean <b>2,367</b> extra people in this age range <sup>4</sup> .
<b>Population density</b>	The population density of Gwent is <b>3.75</b> persons per hectare. The population density is 1.52 people per hectare in Wales.	<b>Aged 65 and over</b>	The number of people aged 65 and over living in Gwent is projected to <b>increase</b> by <b>31.2%</b> between 2019 and 2043, roughly similar to the Welsh average (29%). For Gwent this could mean an extra <b>37,2</b> people in this age range <sup>5</sup> .
 <b>Dwellings</b>	The dwelling count in Gwent is <b>275,882</b> approximately <b>18.2%</b> of the total number of dwellings in Wales <sup>2</sup> .	<b>Aged 85 and over</b>	The number of people aged 85 and over living in Gwent is projected to <b>increase</b> by <b>74%</b> between 2019 and 2043, slightly higher to the Welsh average (69.5%). For Gwent this could mean an extra <b>10,6</b> people in this age range <sup>6</sup> .



#### Aneurin Bevan University Health Board population - key data

- In 2014, around 1 in 5 residents were aged over 65 years (19%), 6 in every 10 (62%) were of working age (16 to 64 years) and nearly 1 in 5 (19%) were aged under 16.
- The population aged under 16 has decreased by 2,700 (1%) between 2005 and 2014, from 114,100 to 108,300.
- There has been a significant decrease in the under 75 mortality rate of 17.1% and 17.4% for males and females respectively (a greater improvement than Wales). This demonstrates the positive impacts and significant improvements that a range of services, activities and targeted programmes have made to reduce mortality rates.
- The general fertility rate is broadly similar to that of Wales - but there are differences in the general fertility rates across ABUHB which will impact on the planning of maternity and child services - particularly for Newport and Monmouthshire.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 12,276 cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) sy'n cyfateb i 13,306 o staff a dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Mae ein gweithlu'n heneiddio, yn ogystal â phroffil demograffig ein poblogaeth, ac mae anghydraddoldebau iechyd ein poblogaeth hefyd i'w gweld yn ein gweithlu. Mae 80% o'n staff yn byw yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd a lles staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o'n cynlluniau ataliol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb flynyddol o ychydig o dan £1.6 biliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, ac o'r gyllideb honno rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i boblogaeth Gwent. Mae'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a llesiant yn yr ardal, yn enwedig drwy ein trefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae manylion am sut y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu wedi'i nodi yn yr Adroddiad Atebolrwydd (Adran 2 o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22).

Mae Cynllun Blynyddol 2021/22 yn nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar fabwysiadu dull cwrs bywyd. Mae'r dull hwn yn gwneud y gorau o allu ymarferol unigolion drwy gydol eu hoes, yn galluogi llesiant, gwireddu hawliau, ac yn cydnabod cyd-ddibyniaeth hollbwysig ffactorau unigol, rhwng cenedlaethau, cymdeithasol, amgylcheddol ac amserol. Prif ganlyniad agwedd cwrs bywyd at iechyd yw gallu gweithredol, sef cyfanswm y priodoleddau unigol ac amgylcheddol sy'n galluogi person i fod neu wneud yr hyn y mae ganddo reswm i'w werthfawrogi. Ar gyfer babanod newydd-anedig neu faban, gellid amlygu gallu gweithredol trwy fwydo'n dda a chwarae; ar gyfer oedolion hŷn, trwy'r gallu i weithredu'n annibynnol heb ddibyniaeth ar ofal. Mae'r dull hwn yn gofyn am weithio gyda'n dinasyddion (fel unigolion, teuluoedd a chymunedau) i gyflawni'r newid sydd ei angen ar ein cymunedau.

Mae'r dull hwn yn gofyn am strategaethau polisi a buddsoddi cyfannol, hirdymor sy'n hyrwyddo gwell canlyniadau iechyd i unigolion a mwy o degwch iechyd yn y boblogaeth. Rydym yn hyderus y gall y dull hwn ddarparu enillion uchel ar gyfer iechyd a datblygiad cynaliadwy, trwy gyfyngu ar afiechyd a'r risg o Gronni gydol oes a thrwy gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd.



## Cyflawni Blaenoriaethau'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod 2021/22, a rhoddir penawdau allweddol isod.

<b>Blaenoriaeth 1 – Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd</b> <i>Credwn fod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gael y dechrau gorau oll mewn bywyd</i>				
	<b>IECHYD DA YN YSTOD BEICHOGRWYDD</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Cynnydd yn nifer y genedigaethau i fabanod iach, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y camesgoriadau, babanod â enir yn gynnar a chyfradd genedigaethau isel</li></ul>	<b>GWASANAETHAU BYDWREIGIAETH A NEWYDDENEDIGOL</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Hyrwyddo ac annog genedigaethau normal pan fydd hynny'n ddiogel ac ymarferol a lleihau'r genedigaethau a ysgogir a genedigaethau gesaraidd</li></ul>	<b>RHAGLEN PLANT IACH CYMRU</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Gwell mynediad at gefnogaeth bwydo o'r fron a maetheg</li><li>Sefydlu gweithio integredig llwyr rhwng timau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, nyrssys ysgolion a Dechrau'n Deg</li></ul>	<b>IMIWNEIDDIO PLANT</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Mwy o blant yn cael eu brechu a gwell cydymffurfiaeth â mesurau cenedlaethol er mwyn sicrhau imiwneidd y boblogaeth</li></ul>

Yn 2021/22:

- Rydym wedi gweithredu'r gwaharddiad ar ysmegu yn llwyddiannus ar draws pob safle.
- Lansiwyd platfform ar-lein newydd 'Iachach Gyda'n Gilydd' i gefnogi teuluoedd trwy'r cyfnodau beichiogrwydd, genedigaeth, datblygiad plentyndod cynnar, iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol plant ac oedolion ifanc. Mae'r adnodd hunanofal hwn ar gael i deuluoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.
- Bu cynghorwyr rhoi'r gorau i ysmegu yn gweithio gyda menywod bechiog gan gyflawni cyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu uwchlaw cyfartaledd Cymru. Rydym hefyd wedi cryfhau rôl iechyd cyhoeddus bydwreagedd drwy ehangu'r gwasanaeth rheoli pwysau dan arweiniad bydwreagedd yng Nglynebwy, gan gefnogi menywod i gynnal pwysau iach yn ystod beichiogrwydd.
- Mae cyfuno gwasanaethau obstetreg yn Ysbyty Athrofaol y Grange wedi arwain at fwy o bresenoldeb/cyflenwi gan feddygon ymgynghorol ar gyfer y ward esgor, gan gefnogi tua 300 o esgoriadau obstetreg bob mis.
- Mae rhaglenni imiwneiddio a brechu wedi'u cynnal gyda 92% yn manteisio ar archwiliadau babanod 6-8 wythnos. Mae cysoni cyfraddau derbyn yn fisol yn ymgorffori ciwiau imiwneiddio plentyndod fesul practis gyda chynlluniau gwella a chymorth ychwanegol yn cael ei gynnig i wella'r nifer sy'n cael eu brechu.
- Darparodd ein tîm imiwneiddio dros 50,000 o frechiadau plant, yr unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru i ddarparu'r lefel hon o weithgarwch.
- Derbyniodd 6,574 o blant 2 i 3 oed y brechlyn fflw sef 50.3%, er yn is na'r blynyddoedd blaenorol, roedd ein perfformiad yn uwch na Chyfartaledd Cymru Gyfan o 47.6%

## Blaenoriaeth 2 – Ei wneud yn iawn i Blant ac Oedolion Ifanc

*Mae pobl ifanc yn grŵp pwysig, ac mae meithrin cenedlaethau'r dyfodol yn hanfodol i'n cymunedau*

			
<b>PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD</b>	<b>GWYTNWCH O RAN IECHYD MEDDWL</b>	<b>CEFNOGI PWYSAU IACH</b>	<b>LLWYBR PONTIO AR GYFER POBL IFANC 15-25 OED</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gostyngiad o ran niweidio iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol</li> <li>Gwell gwytnwch o ran lles emosiynol a iechyd meddwl</li> <li>Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau diogelu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell iechyd meddwl, lles emosiynol a gwytnwch ymysg plant a phobl ifanc</li> <li>Cymunedau mwy cydnerth</li> <li>Ymateb amserol gan y Timau Amlddisgyblaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar bwysau iach</li> <li>Mynediad at leoliadau agored lle mae beicio a cherdded yn weithgareddau arferol</li> <li>Mynediad at fwyd iach</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llwybrau effeithiol glinigol sy'n addas ar gyfer yr oedran</li> <li>Ymyrraeth gynnar ar gyfer seicosis, salwch iechyd meddwl difrifol ac anhwylderau bwyta</li> </ul>

Yn 2021/22:

- Rydym wedi croesawu 'Fframwaith ar gyfer Ymgorffori Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol' Llywodraeth Cymru gyda mecanweithiau sefydledig a gweithredol ar waith ar draws 195 o ysgolion cynradd Gwladol a 35 o ysgolion uwchradd Gwladol drwy ein timau nyrsio ysgol a gwasanaethau mewngymorth ysgolion.
- Roedd myfyrwyr yn cael mynediad i, a gallent archebu sesiynau ar wahân gyda nyrsys ysgol, seicolegwyr neu gynghorwyr trwy godau QR mewn ysgolion.
- Fe wnaethom lansio (Ebrill 2021) un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau niwroddatblygiadol (GOFOD Lles) gan hwyluso dyblu mewn cyfraddau atgyfeirio.
- Parhaodd y rhaglen frechu rhag feirws papiloma dynol i gael ei rhoi ar waith ar ôl i ysgolion ailagor ynghyd â phigiad atgyfnerthu Meningococol ACWY.
- Datblygwyd fframwaith i gefnogi llwybr pontio aml-ffactor, aml-asiantaeth ar gyfer pobl ifanc 15-25 oed. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy ein mecanweithiau partneriaeth yn 2022/23 er mwyn darparu llwybrau pontio sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc wrth iddynt drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

## Blaenoriaeth 3 - Mae oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda

*Rydym am i'n dinasyddion fwynhau ansawdd bywyd uchel yn eu henaint, rydym am iddynt gael eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal eu hunain, fel y gallant gadw annibyniaeth*

			
<b>GWNEUD Y GORAU O AMSER UNIGOLION</b>	<b>BYW'N IACH A HENEIDIO'N DDA</b>	<b>TRAWSNEWID GWASANAETHAU IMAD</b>	<b>GWELLA CANLYNIADAU CANSER</b>
<p>Gwneud y gorau o amser dinasyddion a staff</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol</li> <li>Rhaglenni Effeithlonrwydd</li> <li>Llawdriniaethau a Diagnosteg</li> <li>Llwybr Cyhyrsgerbydol</li> </ul>	<p>Lleihau anghydraddoldebau iechyd ac atal afiechydon drwy nodi'r risgiau o ran iechyd a chefnogi newid i ymddygiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhwydweithiau Llesiant Integredig</li> <li>Rhaglen Deddf Gofal Gwrthgyfartal: Gwneud i bob Cyswllt Gytrif</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogaeth person cyfan, system gyfan i oedolion mewn argyfwng</li> <li>Trawsnewid Anghenion Cymhleth</li> </ul>	<p>Cynyddu'r nifer sy'n cael diagnosis o ganser yn gynnar ac optimeiddio triniaethau canser</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaeth Diagnosteg Cyflym ar gyfer Symptomau Amhendant</li> <li>Ailgyllunio Gwasanaethau Therapi Canser Systemaidd; Uned Radiotherapi Lloeren</li> </ul>





Yn 2021/22:

- Roedd Covid-19 yn sbardun ar gyfer mabwysiadu newid yn gyflymach gan gynnwys datrysiadau digidol fel apwyntiadau rhithiol i gleifion allanol a mabwysiadu cyfathrebiadau electronig yn eang. Yn ystod 2021/22, fe

wnaethom barhau i wreiddio'r dulliau hyn yn ogystal ag optimeiddio Sylw yn ôl Symptomau (SoS) ac Apwyntiad Dilydol ar Gais y Claf (PIFU). Roedd capasiti cleifion allanol yn dal i fod yn gyfyngedig oherwydd mesurau Covid-19, er gwaethaf hyn mae ein system wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at lefelau gweithgarwch cyn-Covid. Mae'r bwlch ar gyfer cleifion allanol newydd wedi'i leihau o ddiffyg o 30% i 11%, a'r bwlch ar gyfer apwyntiadau dilydol o 31% i 14%.

- Bu ffocws allweddol ar ddiogelu'r cyhoedd yng nghyd-destun y pandemig. Cynhaliwyd dros filiwn o brofion PCR ar ein preswylwyr yn ystod 2021/22, ac mae olrhain cyswllt ar raddfa boblogaeth o dros 175,000 o achosion cadarnhaol wedi diogelu ein preswylwyr trwy dorri'r tebygolrwydd o drosglwyddo. Rhoddwyd 1,312,335 o frechlynnau gan y Bwrdd Iechyd, gyda chyfraddau derbyn uchel. Darparodd y rhaglen atgyfnerthu carlam 100,285 o frechlynnau mewn 14 diwrnod.
- Gwnaethom gynnal cangen anghydraddoldebau gref i'r rhaglen gan lwyddo i leihau anghydraddoldebau; brechu yn y mosg cyntaf yng Nghymru, cysylltiadau cymunedol â GDAS, a gefnogir gan y Wallich gan ddefnyddio bysiau symudol a neuaddau cymunedol ar gyfer grwpiau â lefel isel yn manteisio.
- Cyflwynwyd Ymarferwyr Llesiant Seicolegol yn seiliedig ar Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth fel gweithlu newydd i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl yn y gymuned ac maent bellach yn darparu 1,400 o asesiadau bob mis.
- Mae'r Clinig Diagnostig Cyflym Amlddisgyblaethol, a ddyluniwyd ar gyfer cleifion â symptomau annelwig neu amhenodol a allai fod yn ganser, wedi lleihau'r llwybr diagnostig i 12 diwrnod, a chafodd 478 o bobl fudd o'r gwasanaeth newydd hwn yn 2021/22.
- Er gwaethaf llawer o heriau sylweddol wrth gyflawni'r llwybr canser sengl, rydym wedi trin mwy o gleifion canser yn 2021/22 nag unrhyw flwyddyn flaenorol, 4% yn uwch na gweithgarwch cyn-bandemig.

**Blaenoriaeth 4 – Cefnogir Oedolion Hŷn i fyw yn dda ac yn annibynnol**  
*Credwn fod hon yn egwyddor sylfaenol o gyfiawnder cymdeithasol ac yn nodwedd bwysig o gymuned ofalgar a thosturiol*

			
<p><b>ATAL A RHAG-GYNLLUNIO GOFAL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol</li> <li>Gwella diagnosis cynnar o ddemtia</li> <li>Cynllunio rhag-gynllunio gofal</li> <li>Un Pwynt Mynediad</li> </ul>	<p><b>GOFAL RHAGWEITHIOL A CHYMORTH YN Y CARTREF</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofal Cartref ymatebol, hyblyg a hunangyfeiriedig</li> <li>Rheolaeth integredig o ran gofal/achosion</li> <li>Sefydlu 'llecedd'</li> <li>Sefydlu nyrsio cymunedol</li> </ul>	<p><b>GOFAL EFFEITHIOL WRTH BONTIO</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Galluogi ac adsefydlu</li> <li>Cyngor clinigol arbenigol i dimau cymunedol</li> <li>Mynediad i Gynlluniau Gofal o Flaen Llaw yn ystod a thu allan i oriau gwaith</li> <li>Cynllunio Gofal o Flaen Llaw</li> <li>Pennu lefel risg</li> </ul>	<p><b>YSBYTAI A CHARTREFI GOFAL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Brysennu brys i adnabod oedolion hŷn bregus</li> <li>Llwybrau sy'n cael eu gyrru gan feini prawf sy'n lleihau'r amser yn yr ysbyty a sicrhau rhyddhad prydol</li> <li>Gofal Graddedig</li> </ul>

Yn 2021/22:

- Gan weithio gyda phartneriaid data, fe wnaethom nodi carfannau o bobl risg uchel a fyddai'n elwa o ymyrraeth ragweithiol â ffocws gan wasanaethau cymunedol i gynnal eu hiechyd a'u lles er mwyn rhagweld, cefnogi a rheoli argyfyngau a fyddai fel arfer yn arwain at dderbyniad i ysbyty. Mae'r data hwn wedi cael ei ddefnyddio'n weithredol mewn dwy ardal, gyda Sir Fynwy ar fin mabwysiadu'r dull hwn o atal codymau yn 2022/23.
- Roedd llwybrau derbyn uniongyrchol i osgoi derbyniadau i'r system aciwt yn galluogi 63 o gleifion (dros gyfnod o 6 mis) i gael eu derbyn yn uniongyrchol i ysbyty cymunedol.

**Blaenoriaeth 5 – Marw'n dda fel rhan o fywyd**

*Mae marwolaeth a marw yn anochel. Bydd ansawdd a hygyrchedd gofal diwedd oes yn effeithio ar bob un ohonom a rhaid ei wella'n gyson. Rydym wedi croesawu egwyddorion 'Gwlad Dosturiol – Siarter i Gymru' ac wedi ymrwymo i wella'n barhaus yr hyn a wnawn i sicrhau bod*

			
<p><b>CYNLLUNIO GOFAL YMLAEN LLAW</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell gofal ar gyfer pobl sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes a gwell cynllunio a darparu gofal gan gynnwys datblygu cynlluniau uchafu triniaeth gyda chleifion a helpu cleifion i fyw a marw'n well mewn lleoliad a ffordd o'u dewis.</li> </ul>	<p><b>RHAGLEN ADDYSG</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gweithwyr profesiynol sy'n gofalu am bobl sydd ag anghenion o ran gofal diwedd oes wedi eu gymuso ym mhob lleoliad gofal i gefnogi gwybodaeth penderfyniadau ar y cyd â chleifion a'u teuluoedd.</li> </ul>	<p><b>GWASANAETHAU PROFEDIGAETH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaeth profedigaeth yn ei le ar gyfer pobl sy'n cael eu effeithio a marwolaeth. Bydd yn gwneud cyswilt sensitif ac yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ysbrydol mewn profedigaeth.</li> </ul>	<p><b>MESUR CANLYNIADAU YN SEILIEDIG AR WERTH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu 'Amcanion Gofal' er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth yw 'da' yn llygaid cleifion a gofalwyr a chefnogi datblygu mesurau sy'n mesur canlyniadau o safon y mae cleifion yn adrodd arnynt er mwyn dylanwadu ar gynlluniau gwasanaeth a fyrrd o gyflawni.</li> </ul>

*anghenion pobl o bob oed sy'n byw gyda marw, marwolaeth a phrofedigaeth, eu teuluoedd, eu gofalwyr a chymunedau yn cael sylw, gan ystyried eu blaenoriaethau, eu dewisiadau a'u dymuniadau*

Yn 2021/22:


- Cofrestrwyd 2,022 o farwolaethau gyda Covid-19 ar y dystysgrif farwolaeth yn ystod y pandemig, tua hanner ohonynt mewn ysbytai aciwt. Yn ystod 2020 cododd marwolaethau gormodol 12%, ac yn 2021/22 roeddent 8% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd flaenorol (ffynhonnell ONS)
- Roedd ein timau gofal lliniarol arbenigol mewn ysbytai yn cefnogi timau clinigol gyda chanllawiau rheoli symptomau ac algorithmau rheoli ar gyfer Covid-19 a Diwedd Oes Lliniarol mewn gofal eilaidd (Awst 21) a gwasanaeth penwythnos a thu allan i oriau ar gyfer pob safle ysbyty aciwt.

- Sefydlwyd y tîm Gofal ar ôl Marwolaeth (CAD) a'i ehangu i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb ar bob safle ysbyty aciwt. Yn ogystal â hyfforddi dros 100 o feddygon Haen Sylfaenol 1 yn y broses gofal ar ôl marwolaeth, mae'r tîm wedi sicrhau 1,000 o becynnau argraffu a 200 o flychau cof ac mae defnyddio'r rhain wedi cefnogi dros 50 o deuluoedd mewn profedigaeth yn ystod y 6 mis diwethaf.

## Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau

Gwelodd y don gyntaf o COVID-19 ostyngiadau sylweddol i ddechrau yn y galw am ofal brys ar draws y GIG gyda chynnydd graddol trwy gydol 2020 wrth i'r sefyllfa setlo. Ar ôl yr ail don, cododd y galw am ofal brys yn sydyn yn hanner cyntaf 2021 wrth i gyfyngiadau symud leddfu ac effaith tymor hwy cyfyngiadau gyflwyno pwysau newydd ar y GIG. Newidiodd patrymau galw hefyd ar gyfer nifer y cleifion Covid-positif, a amheuir ac sy'n gwella y bu'n rhaid ac y mae angen eu cynnwys o hyd yn y llwybrau Covid cymhleth sy'n ofynnol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau.

Mae'r graff a'r penawdau a ganlyn yn crynhoi sut mae'r galw wedi effeithio ar y system dros y 12 mis diwethaf.



Mae penawdau allweddol yn cynnwys:

- Lefelau presenoldeb ar draws y system ac yn enwedig yn Ysbyty Athrofaol y Grange (YAG) yn cynyddu'n sydyn yn ystod chwe mis cyntaf 2021 gan godi i lefelau uwch na'r lefelau cyn-bandemig gyda Mehefin 2021 yn gweld y nifer uchaf erioed o ymweliadau â'r Adran Achosion Brys/Uned Mân Anafiadau (MIU) ar gofnod i'r Bwrdd Iechyd.
- Mae cynnydd yn y galw am gleifion "galw i mewn" yn enwedig yn YAG y tu hwnt i'r rhai a gynlluniwyd wedi creu pwysau sylweddol ar yr Adran Argyfwng.
- Mae'r cynnydd mewn ymweliadau pediatrig ac atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig. Mae Gwasanaethau Pediatrig hefyd wedi cyflwyno Iachach Gyda'n Gilydd, gwefan wedi'i

theilwra i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i ddeall llwybrau a mynediad priodol.

- Cynnydd yn y galw ar ôl y cloi am nifer o arbenigeddau allweddol megis Cardioleg a Llawfeddygaeth Frys.
- Mae pob un o'r 3 Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell wedi gweld cynnydd mawr yng ngweithgaredd yr Uned Asesu Meddygol (MAU) ers mis Ebrill 2021, gyda gostyngiad cyfatebol yng ngweithgaredd MAU YAG. Mae hyn yn dangos bod y system yn symud yn agosach yn unol â'r hyn a ddyluniwyd yn wreiddiol fel gwasanaeth asesu meddygol a derbyniadau datganoledig i ffwrdd o'r brif adran achosion brys.
- Mae gwelyau a ddefnyddir gan gleifion dros 21 diwrnod ar draws y Bwrdd Iechyd wedi bod yn cynyddu'n raddol ers mis Mawrth 2021 ac mae Hyd Arhosiad Cyfartalog (AVLOS) ar ei lefel uchaf ers mis Mehefin 2016.

Fel y gwelir ledled y DU, mae'r cyfraddau presenoldeb uchaf erioed hyn, ynghyd ag effaith barhaus Covid a mesurau lliniaru, wedi creu straen ar draws y system sy'n gofyn am reolaeth weithredol barhaus i gynnal gwasanaethau diogel ar bob safle.

Yn ystod 2021/22, mewn ymateb i'r pwysau hyn, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ailgynllunio gwasanaethau ar draws y system iechyd a gofal, gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg, i sicrhau bod gofal Covid a gofal ar wahân i Covid yn cael ei ddarparu lle bynnag y bo modd. Rhai o'r mesurau a gyflwynwyd yw:

- Lleihau gweithgarwch orthopedig dewisol dros dro yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Ystrad Fawr. Roedd hyn yn caniatáu i staff gael eu rhyddhau i gefnogi ardaloedd eraill ac i ward Rhymni yn Ysbyty Ystrad Fawr gael ei throsi i lwybr 'ambr' ar gyfer cleifion nad oeddynt yn gleifion Covid.
- Adleoli dros dro rhai unigolion cofrestredig a'r rhai nad ydynt wedi cofrestru o'r tîm Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol i gefnogi'r meysydd cleifion mewnol iechyd meddwl a'r timau argyfwng sy'n wynebu prinder staff sylweddol. Mae nifer o gamau eraill wedi'u rhoi ar waith ym maes Gofal Sylfaenol i liniaru rhai o'r risgiau canlyniadol.
- Canoli gweithlu bydwreigiaeth dros dro yn Ysbyty Athrofaol y Grange a chau'r Unedau Geni dan arweiniad Bydwagedd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Aneurin Bevan ac Ysbyty Ystrad Fawr.
- Mabwysiadu brysbennu clinigol cyflym ac ymgynghori o bell mewn gwasanaethau gofal sylfaenol.
- Sefydlu canolfannau diagnostig Sbirometreg oherwydd anallu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i barhau â'r gweithgaredd hwn oherwydd cyfyngiadau Atal a Rheoli Heintiau.
- Gohiriodd y gwasanaethau deintyddol archwiliadau deintyddol arferol ar gyfer cleifion risg isel a blaenoriaethu gofal ar gyfer gofal brys a lle mae triniaeth wedi'i ohirio yn dilyn effaith cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r Weithdrefn Cynhyrchu Aerosol (AGP) mewn deintyddiaeth.
- Dyblu'r capasiti o fewn Gwasanaethau Deintyddol Brys i adlewyrchu'r cynnydd yn y galw.

- Gweithredwyd 'Timau Cymunedol Cyfunol' lle cyfunwyd Nyrsio Ardal, Timau Datrys Argyfwng a Gwasanaethau Gofal Lliniarol yn ystod cyfnodau o uwchgyfeirio/staffio sifftiau a llwyth gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn seiliedig ar frys clinigol.
- Llifoedd wedi'u hailgynllunio drwy ysbytai cymunedol i fodloni llwybrau COVID yn y ffordd orau, gan gynnwys defnyddio amgylcheddau ystafell sengl lle'r oedd mwy o risg o haint.
- Mabwysiadu model cymorth Gofal Lliniarol Arbenigol a arweinir gan nyrsys i Ysbyty Brenhinol Gwent a chomisiynu gwasanaeth meddygol rhithwir trwy Supportive Care UK – wedi'i ysgogi'n rhannol gan alwadau cynyddol COVID, diffygion staffio na ellir eu datrys a'r angen i rannu gofal ar draws 4 safle oherwydd Ysbyty Athrofaol y Grange.
- Gofal wedi'i ail-flaenoriaethu ar draws y sector gofal sylfaenol cyfan gydag adleoli staff ar raddfa fawr i Ganolfannau Brechu Torfol ac i ddarparu brechiadau i rai sy'n gaeth i'w cartrefi – roedd hyn yn golygu lleihau'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Byw'n Dda Byw'n Hirach, Nyrsio Diabetes Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Rheoli Meddyginiaethau, Nyrsio Ardal a gwasanaethau cymorth rheolaethol.
- Hyrwyddwyd gwasanaethau hunangymorth o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gefnogi cleifion, e.e. gwefan SilverCloud.

## Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol

Mae tua 90% o'r holl gysylltiadau Gofal Iechyd yn digwydd yn y lleoliad gofal sylfaenol ac rydym yn cydnabod yr heriau parhaus o ran mynediad at Ofal Sylfaenol trwy gydol y pandemig ac wrth i wasanaethau ailddechrau.

Mae pandemig Covid-19 wedi golygu bod angen ffyrdd newydd o weithio, gyda darparwyr Gofal Sylfaenol yn addasu'r ffordd y maent yn ei gynig ac yn darparu gwasanaethau clinigol gyda mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cleifion a gwasanaethau, ac yn awr wrth i wasanaethau ailddechrau, mae llawer o'r newidiadau hyn yn cael eu datblygu lle maent yn dal yn briodol. Mae'r angen i gynnal amgylchedd diogel ar gyfer staff a chleifion yn hollbwysig o hyd.

Er bod Cymru wedi dychwelyd i lefel 0, mae sawl mesur yn dal i fod ar waith o fewn lleoliadau Gofal Iechyd er mwyn amddiffyn staff a chleifion ac mae'n bwysig cydnabod bod hyn yn dal i gael effaith ar lwybr cleifion.

Mae heriau parhaus i'r gweithlu yn parhau gyda thimau wedi blino'n lân o'u hymdrechion parhaus yn ystod y pandemig a hefyd nifer uchel o absenoldebau staff oherwydd profi'n bositif wrth i COVID-19 barhau i gylchredeg yn y gymuned a chyfyngiadau leddfu.

## Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Fel Bwrdd Iechyd rydym yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) i'n preswylwyr. Rydym yn comisiynu gwasanaethau gan gontractwyr annibynnol ac rydym hefyd yn rheoli darpariaeth gwasanaethau yn uniongyrchol mewn pedwar practis lle nad ydym wedi gallu sicrhau contractwr annibynnol.

Y tu allan i "oriau craidd", darperir mynediad at ofal meddygol gan ein Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau, sy'n gweithredu rhwng 6.30pm ac 8.00am bob nos yn ystod yr wythnos a thrwy gydol penwythnosau a Gwyliau Banc.

Mae'n hysbys iawn bod Ymarfer Cyffredinol wedi addasu'n gyflym iawn i ffyrdd newydd o weithio mewn ymateb i'r pandemig. Gyda chanllawiau cenedlaethol yn parhau i eirioli dros y *ffôn yn gyntaf*, mae practisiau bellach wedi mabwysiadu ymagwedd gyfunol at ymgynghoriadau cleifion, gan gynig wyneb yn wyneb ac o bell, fel y bo'n briodol. Mae nifer yr apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cynyddu, ond mae heriau gyda hyn, yn enwedig mewn perthynas â rheoli pellter cymdeithasol a thrwybwn cleifion a, thra bod y pandemig yn parhau, bydd lefel ymgynghoriadau o bell yn parhau i fod ar waith ar gyfer y cleifion hynny fyddai'n elwa o wasanaeth o'r fath. Yn ogystal, bydd ymagwedd gyfunol at ymgynghoriadau yn y dyfodol yn sicrhau bod pob claf yn cael mynediad at eu gwasanaethau meddyg teulu lleol mewn ffordd sy'n iawn iddynt hwy.

Mae'r system Gofal Iechyd yn ei chyfanrwydd yn parhau i fod dan bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen, ac mae'n parhau i fod yn hanfodol ein bod yn gallu mesur yn glir, mynegi, deall a dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau meddygon teulu a'r effaith ar y system ehangach ac i'r gwrthwyneb.

Ym mis Mehefin 2021, buom yn gweithio'n agos gyda phractisiau a phartneriaid eraill gan gynnwys Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent (LMC) a Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (CICAB) i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau mynediad mewn Meddygfeydd. Edrychodd yr adolygiad hwn ar nifer y sesiynau clinigol, nifer y llinellau ffôn a chanran yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, fesul claf cofrestredig.

Cynhaliwyd adolygiad a dadansoddiad manwl o'r holl ddata a gasglwyd ar lefel practis, ochr yn ochr â'r safonau mynediad a data arall sydd ar gael gan gynnwys presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, Gofal Sylfaenol Brys, Mân Anafiadau a gweithgarwch y Tu Allan i Oriau, gydag adroddiadau unigol a baratoir ar gyfer pob practis a hefyd. ar lefel Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN), i lywio sgysiau cyfeiriedig gyda phractisiau a darparu gwybodaeth feincnodi ar gyfer trafodaethau yn seiliedig ar y Rhwydwaith.

Yn dilyn yr Adolygiad Mynediad bu newidiadau ar unwaith, megis datgloi drysau, newidiadau i systemau apwyntiadau a rotâu staffio a datblygiad cynlluniau yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi practisiau i geisio ateb y galw a sicrhau mynediad i wasanaethau i gleifion, mewn a modd diogel ac amserol. Mae'n amlwg bod ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn cynyddu a phractisiau a chleifion yn addasu i'r ymagwedd gyfunol newydd at ymgynghoriadau.

Mae'r adolygiad wedi dangos bod practisiau, mewn llawer o achosion, yn bodloni'r meincnod 1:200 ar gyfer sesiynau clinigol ac eto'n methu â bodloni'r galw am nifer o resymau. Fel rhan o'r Rhaglen Ailgychwyn ac Adfer, mae nifer o gynlluniau wedi'u datblygu a'u dylunio i gefnogi practisiau gyda chapasiti/adnoddau ychwanegol i gwrdd â rhai o'r pwysau hwn ac i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cynllun Sesiynau Clinigol Ychwanegol** i ddarparu cymorth i bractisiau drwy ariannu sesiynau Clinigol ychwanegol o fis Rhagfyr 2021 i fis Mawrth 2022. Mae hyn ar gael i'r practisiau hynny sy'n bodloni'r gofyniad lleiaf o un sesiwn glinigol fesul 200 o gleifion cofrestredig. Mae 61 practis yn cymryd rhan yn y cynllun hwn ar hyn o bryd.
- **Cynllun Oriau Derbynfya Ychwanegol** i ddarparu cymorth i bractisau drwy ariannu oriau derbynfya ychwanegol o fis Rhagfyr 2021 i fis Mawrth 2022. Rhaid i bractisau gael o leiaf 1 llinell ffôn fesul 1000 o gleifion i wneud cais i gymryd rhan yn y cynllun hwn. Cymerodd 25 o bractisau ran, gan ddarparu 917.50 awr ychwanegol yr wythnos (24 WTE).
- Fe wnaethom gomisiynu **clinigau sgrinio serfigol ychwanegol ar benwythnosau** drwy'r tîm Iechyd Rhywiol, er mwyn cefnogi'r ôl-

groniad mewn Gofal Sylfaenol. Llinell archebu benodol i gleifion ei ffonio a threfnu apwyntiad. Mae 611 o apwyntiadau ychwanegol wedi'u darparu hyd yma.

- Fel rhan o strategaeth Covid-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Wasanaeth Estynedig Cenedlaethol ar gyfer darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol hanfodol, y tu allan i oriau craidd**. Pwrpas y Gwasanaeth Estynedig hwn yw ymdrin â darparu GMS hanfodol i gleifion sy'n gofyn am gyngor, ymgynghoriad neu wasanaeth hanfodol arall, y tu allan i oriau craidd GMS. Cymerodd 9 practis ran yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr, gydag 8 ym mis Chwefror 2022. Mae hyn wedi darparu 113 o sesiynau cyfatebol i feddyg teulu (tua 1,600 o apwyntiadau).
- Datblygu **Cynllun Rowndiau Ward Cartrefi Gofal** i ariannu practisau i ddarparu rowndiau Ward ar benwythnosau a/neu Wyl y Banc dros fisoedd y gaeaf. Bydd hyn yn sicrhau parhad gofal ac mae ganddo'r potensial i leihau'r galw ar Wasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu a gostyngiad mewn atgyfeiriadau ymlaen y tu allan i oriau craidd. Cymerodd 3 practis ran a darparwyd 46 rownd ward hyd yma.
  1. Mae £2m ar gael yn ystod y flwyddyn hon i gefnogi **capasiti ychwanegol o fewn GMS**, gyda phwyslais arbennig ar bwysau'r gaeaf. Mae'r cynllun yn cynnig ad-daliad o 100% o gyfanswm cost naill ai swyddi ychwanegol adeg penodi neu oriau ychwanegol a weithir gan ddeiliaid presennol y swydd. Cymerodd 26 practis ran a darparwyd 80 o sesiynau ychwanegol cyfwerth ag ymweld â'r meddyg o ganlyniad (tua 1,200 o apwyntiadau yr wythnos)
  2. Comisiynu **Gwasanaeth Estynedig Lleol (LES) newydd i ariannu sesiynau clinigol ychwanegol**. Mae hyn yn cefnogi sesiwn glinigol ychwanegol yr wythnos, fesul practis ac mae ar gael i bractisiau sy'n bodloni'r gofyniad lleiaf o un sesiwn glinigol fesul 200 o gleifion cofrestredig. Cymerodd 19 o bractisiau ran a darparwyd 27 o sesiynau wythnosol ychwanegol cyfwerth ag ymweld â'r meddyg (tua 405 o apwyntiadau'r wythnos).

## Ailddechrau gwasanaethau craidd

Fe wnaethom adfer gwasanaethau Estynedig Cenedlaethol a Lleol o 1 Ebrill 2021 ac ailddechreuodd yr holl wasanaethau o 1 Hydref 2021. Cynhaliwyd ymarfer cysoni gyda phob practis i sicrhau parhad gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol.

## Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Mae practisau deintyddol y GIG ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu gofal deintyddol yn unol â chanllawiau Deintyddol penodol Llywodraeth Cymru. Mae practisau deintyddol ar hyn o bryd yn gweithredu yn y "Cyfnod Oren" o'r cynllun adfer deintyddol a gofynnwyd i bractisiau ailsefydlu gwasanaethau deintyddol fesul cam, yn seiliedig ar risg, i

ddiwallu anghenion y boblogaeth ac i flaenoriaethu gofal deintyddol ar gyfer grwpiau risg a phobl ag anghenion deintyddol brys/hanfodol.

Gofynnwyd i bractisiau deintyddol ohirio archwiliadau deintyddol arferol ar gyfer cleifion risg isel, fel bod ganddynt slotiau apwyntiad ar gael i'r rhai sydd angen triniaeth frys neu driniaeth sydd wedi'i gohirio. Bydd practisiau'n dechrau darparu gwasanaeth galw'n ôl deintyddol unwaith yr eir i'r afael ag anghenion brys a hanfodol cleifion. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar allu'r practis ac anghenion cleifion.

Mae rhai mathau o driniaeth ddeintyddol yn gofyn am ddefnyddio offer deintyddol sy'n cynhyrchu niwl dŵr mân, a gelwir y gweithdrefnau hyn yn Weithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol (AGPs). Er mwyn darparu AGP, mae trefn bendant y mae'n rhaid i bractisiau deintyddol eu dilyn, ac mae'n ofynnol iddynt gael yr unedau awyru priodol wedi'u gosod yn y ddeintyddfa i wella ansawdd yr aer yn dilyn AGP.

Rhaid i'r ddeintyddfa cael ei glanhau'n llwyr yn dilyn AGP a chaiff gofod y ddeintyddfa ei adael yn segur er mwyn i'r gronynnau aer setlo, a elwir yn 'amser braenar'. Yr uned awyru sy'n pennu hyd yr amser na ellir defnyddio'r ddeintyddfa. Mae hyn er mwyn sicrhau bod aelodau'r tîm deintyddol a chleifion yn aros yn ddiogel wrth gael mynediad at ofal deintyddol.

Gyda'r mesurau hyn yn eu lle, mae trwygyrch cleifion wedi'i leihau'n sylweddol.

Gan gydnabod yr heriau a achosir gan Covid-19, rydym wedi parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Deintyddol Lleol Gwent a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu, rheoli a chefnogi practisiau i roi canllawiau wedi'u diweddarau ar waith ac er bod mynediad cleifion yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, mae diogelwch ein cleifion a thimau deintyddol hefyd yn parhau i fod yn hollbwysig.

Y mesur arferol ar gyfer gweithgaredd deintyddol yw Unedau Gweithgarwch Deintyddol (UDAs), fodd bynnag mae'r mesur hwn wedi'i atal a gofynnwyd i bractisiau gyflawni eu Contract GDS GIG yn erbyn meini prawf diwygiedig.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae mynediad at ddarpariaeth gwasanaeth dros y 12-18 mis diwethaf wedi cynyddu. Disgwylir i bractisiau dderbyn a thrin nifer o gleifion newydd (diffinnir claf newydd fel claf sy'n oedolyn nad yw wedi cael cwrs o driniaeth wedi'i fandio yn ystod y 24 mis blaenorol a chlaf sy'n blentyn nad yw wedi cael cwrs o driniaeth wedi ei fandio yn y 12 mis blaenorol) yn seiliedig ar werth eu contract blynyddol (ACV).

Darperir gweithgaredd Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2021/22 (ar ddiwedd Chwefror 2022) yn y tabl isod:

Cyfanswm yr oedolion a welwyd	99,214
Cyfanswm y plant a welwyd	37,960
Cyfanswm y cleifion brys a welwyd (oedolion a phlant ar y cyd)	35,954
Cyfanswm nifer yr hawliadau orthodontig wedi'u prosesu	1,445 o achosion wedi cychwyn

## Ailgychwyn ac Adfer

Fel rhan o'r Rhaglen Ailgychwyn ac Adfer, rydym wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ofal deintyddol. Mae'r tabl isod yn amlygu'r meysydd lle mae buddsoddiad wedi'i wneud ers mis Mehefin 2021.

<b>Buddsoddiad</b>	<b>Disgrifiad o'r Gwasanaeth</b>	<b>Gweithgarwch Arfaethedig</b>
£46k	Tawelyddu: Sesiynau wythnosol ychwanegol wedi'u comisiynu	Hyd at 120 o gleifion
£27k	OOH: Sesiwn wythnosol ychwanegol wedi'i gomisiynu	Tua 7 claf ychwanegol i'w gweld/wythnos
£198k	Llawfeddygaeth y Geg: Sesiynau ychwanegol wedi'u comisiynu	Tua 850 o gleifion ychwanegol i'w hasesu/trin
£17k	Deintyddiaeth Carchardai: Sesiynau ychwanegol wedi'u comisiynu	Tua 169 o gleifion ychwanegol i'w gweld
£163k	Mynediad: Sesiynau ychwanegol wedi'u comisiynu i gynyddu mynediad o fewn oriau a mynediad y tu allan i oriau dros gyfnodau Gŵyl y Banc	Tua 1188 o gleifion ychwanegol i'w hasesu/trin
£403k	Orthodonteg: Sesiynau ychwanegol wedi'u comisiynu i gynyddu nifer yr asesiadau cleifion a dechrau achosion	Tua 850 o gleifion ychwanegol i'w hasesu a 247 i ddechrau triniaeth
£10k	Ceiswyr Lloches: Sesiwn ychwanegol bob pythefnos wedi'i chomisiynu	Tua 5 claf ychwanegol i'w gweld/wythnos
<b>£864k</b>		

## Gweithlu Gofal Deintyddol

Cydnabyddir yn eang bod recriwtio a chadw o fewn gwasanaethau deintyddol, ynghyd â darpariaeth gwasanaeth arall, wedi bod yn heriol dros y 2 flynedd ddiwethaf. Er nad ydym yn cyflogi Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol (GDP) nac aelodau eu tîm yn uniongyrchol, mae Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn gweithio ar y cyd i gwmpasu a datblygu cynlluniau hyfforddi amrywiol i gefnogi deintyddion a nyrsys deintyddol dan hyfforddiant.

Yn ogystal, mae 11 practis deintyddol yn ein hardal sydd wedi'u hachredu fel rhan o'r Cynllun Hyfforddai Sylfaenol Deintyddol. Mae'r practisau hyn yn darparu lleoliadau i ddeintyddion dan hyfforddiant, gan gynnig arweiniad, cymorth, mentoriaeth a phrofiad clinigol ymarferol iddynt er mwyn i'r hyfforddeion gwblhau eu portffolio iechyd y geg a dod yn ddeintyddion achrededig.

## **Mynediad Brys**

Cyn Covid-19 roeddem wedi comisiynu 157 o apwyntiadau deintyddol brys yr wythnos, mae hyn bellach wedi cynyddu i 300.

Ar gyfartaledd, mae'r Llinell Gymorth Ddeintyddol yn ateb tua 400 o alwadau'r wythnos gan gleifion sy'n byw yn ein hardal. Mae cleifion yn cysylltu â'r Llinell Gymorth Ddeintyddol i geisio gofal deintyddol brys ac i ofyn am fanylion cyswllt practisau deintyddol. Roedd hyn yr un peth cyn-Covid.

Er bod y Llinell Gymorth Ddeintyddol bob amser yn ceisio cyfeirio cleifion at bractisiau sy'n agos at eu cartrefi, nid yw hyn bob amser yn bosibl a chan nad oes unrhyw gyfyngiadau o ran ffiniau o fewn gwasanaethau deintyddol, ar adegau efallai y gofynnir i gleifion deithio i bractis deintyddol y tu allan i'r fwrdeistref y maent yn byw ynddi.

Dylid nodi bod y gwasanaeth deintyddol brys penodedig a gomisiynir yn ychwanegol at bractisau sy'n darparu eu gwasanaeth brys eu hunain. Fel rhan o'r trefniadau gwaith presennol, rhaid i bractisau ddarparu gofal deintyddol brys i gleifion presennol.

## **Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol**

Mae practisau optometreg wedi parhau i fod ar agor ar gyfer apwyntiadau brys a hanfodol a gallant hefyd ddarparu profion golwg arferol i gleifion.

Bydd practisau optometreg yn blaenoriaethu ac yn trefnu apwyntiadau cleifion yn seiliedig ar angen clinigol ac yn cyflwyno symptomau sy'n berthnasol i'r risg o golli golwg a niwed.

Os oes angen apwyntiad llygaid brys ar gleifion neu os ydynt mewn mwy o berygl o gael clefyd y llygaid, gallant gael mynediad i Gynllun Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) am ddim. Yn ogystal, gall Meddyg Teulu neu Fferyllydd hefyd eu cyfeirio at optegydd sydd wedi'i achredu gan EHEW.

## **Ailgychwyn ac Adfer**

Fel rhan o'r rhaglen ailgychwyn ac adfer bu buddsoddiad ychwanegol o tua £67k.

Rydym wedi datblygu nifer o lwybrau i fynd i'r afael â'r rhestrau aros sylweddol mewn Gofal Eilaidd. Atgyfeiriwyd cleifion addas, fel y pennir gan Offthalmoleg, o dan y llwybrau canlynol hyd at 31 Mawrth 2022:

1. Glawcoma Ongl Agored – Bydd cleifion â glawcoma ongl agored sy'n risg uchel ac sydd wedi bod yn aros am amser sylweddol yn cael eu hasesu mewn lleoliad Gofal Sylfaenol
2. Glawcoma Ongl Gul – Bydd cleifion ag amheuaeth o siambr flaen gul yn cael eu hasesu mewn lleoliad Gofal Sylfaenol
3. Retina Meddygol – Bydd cleifion â phroblem retina meddygol yn cael adolygiad retina meddygol mewn lleoliad Gofal Sylfaenol
4. Pediatreg – Bydd cleifion sydd angen plygiant seiclopolate (a rhagnodi sbectol yn ôl yr angen) yn cael y plygiant interim hwn mewn lleoliad Gofal Sylfaenol.

### **Gwasanaethau Fferylliaeth Cymunedol**

Yn ystod 2021-22, profodd Fferylliaeth Gymunedol heriau critigol yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 gan gynnwys salwch/llesiant staff, prinder staff proffesiynol, ynysu staff a chadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, cafodd gwasanaethau hanfodol eu cynnal i raddau helaeth, gyda thystiolaeth o gynnydd mewn gweithgaredd mewn rhai achosion:

- Cynyddodd cyfraddau dosbarthu 1.8% gyda dros 12.3m o eitemau yn cael eu dosbarthu hyd at fis Rhagfyr 2021.
- Mae'r Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys, a gynlluniwyd i wella mynediad cleifion i feddyginiaethau a ragnodir yn rheolaidd, wedi cynyddu 131% gyda dros 15,000 o gyflenwadau (Ebrill 20-Ionawr 21)
- Cynyddodd y cyflenwad o frechlynnau ffliw 77% gyda dros 29,000 o frechlynnau yn cael eu darparu mewn fferyllfeydd cymunedol yn ystod tymor y ffliw 2020/21.
- Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin wedi gweithredu drwy'r pandemig gan ddefnyddio ymgynghoriadau ffôn a fideo, er bod cyfraddau'n is ar ddechrau'r pandemig, gwelwyd cynnydd ac ar hyn o bryd mae cynnydd o 43% mewn gweithgaredd gyda 15,874 o ymgynghoriadau (Ebrill 20-Ionawr 2021)
- Mae'r ddarpariaeth o weithgarwch Atal Cenhedlu Hormonaidd Brys wedi cynyddu 11% gyda 3612 o ymgynghoriadau (Ebrill 20-Ionawr 2021)

Mae gwasanaethau eraill, megis rhoi'r gorau i ysmegu, defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth, cyfnewid nodwyddau, ymhlith eraill, yn gwella'n dda ac maent bellach yn agosáu at lefelau cyn y pandemig. Roedd pedair fferyllfa gymunedol yn ymwneud â darparu brechiadau Covid-19 i wella mynediad i gleifion a phractisau cymorth.

Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Fferylliaeth Gymunedol a ddatblygwyd yn 2021, mae ein tîm fferylliaeth wedi llwyddo i

gyflwyno 15 o fferyllwyr sy'n darparu gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin estynedig wedi'i arwain gan bresgripsiynwyr gan gynnwys triniaethau ar gyfer heintiad y Llwybr Troethol is, Impetigo ac Otitis Media. Rhwng Ebrill 2020 a Rhagfyr 2021, mae 2597 o ymgynghoriadau wedi'u cynnal sy'n negyddu'r angen am apwyntiad meddyg teulu. Er bod hwn yn wasanaeth newydd, mae tystiolaethau cleifion wedi bod yn gadarnhaol:

*"Mae hwn yn wasanaeth rhagorol, yn ogystal â bod yn arloesol, yn drylwyr ac yn amserol; cynigiwyd apwyntiad i F..... o fewn yr awr a rhoddodd J..... y feddyginiaeth yr oedd F..... angen. Roeddwn i eisiau rhannu fy myfyrdodau byr gyda chi yn ogystal â fy niolch i J.....- rwy'n teimlo bod hwn yn bendant yn wasanaeth sy'n cyfiawnhau ei ehangu ar draws ein bwrdeistrefi."*

Roedd mynediad i fferyllfeydd yn cael ei gynnal er gwaethaf pellter cymdeithasol, gyda modelau gweithredu yn cael eu haddasu mewn fferyllfeydd unigol. Mae 27 o fferyllfeydd wedi ymgymryd â menter Llywodraeth Cymru i lacio oriau agor fferyllfeydd er mwyn dal i fyny â'r gwaith sy'n cael ei wneud a gwella lles staff.

Yn 2020/21, cyhoeddwyd ein [Hasesiad Anghenion Fferyllol](#) cyntaf, sy'n ddogfen gyfreithiol ofynnol a ddefnyddir i gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd hwn yn ddarn mawr o waith gan gynnwys ymgynghori â'r holl randdeiliaid a nodwyd.

## **Gofal Sylfaenol Brys**

Mae ein Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys (UPC) yn parhau i reoli'r holl weithgarwch Gofal Sylfaenol Brys pan fydd Practisau Meddygol Cyffredinol ar gau, rhwng 6.30pm ac 8am o ddydd Llun i ddydd Iau a 24/7 ar benwythnosau a Gwyliau Banc. Mae'r Gwasanaeth UPC yn cael ei staffio gan dîm amlddisgyblaethol o Feddygon Teulu, Ymarferwyr Nyrsio a staff anghlinigol. Gweithio'n agos gyda Hyb 111 y De-ddwyrain, gan ehangu'r Tîm Amlddisgyblaethol i gynnwys fferyllwyr ac ymarferwyr iechyd meddwl.

Bu cynnydd yn nifer y meddygon teulu cyflogedig o fewn y gwasanaeth ac mae recriwtio yn mynd rhagddo, er mwyn gwella'r sefyllfa hon a darparu sefydlogrwydd pellach i'r gwasanaeth.

Yn ogystal â gwasanaethau craidd, mae tîm UPC hefyd wedi cyflwyno canolfan UPC 24/7 yn YBG ac eLGHS YNH. Mae'r canolfannau hyn yn darparu asesiad wyneb yn wyneb i gleifion sydd wedi mynychu Adran Achosion Brys neu MIU yn anghywir, neu sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth trwy 111 a llwybr Meddyliwch 111 Yn Gyntaf, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau'r dydd.

Mae'r gwasanaeth UPC craidd wedi rheoli **86,746** o gleifion yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau, gyda **7,944** o gleifion ychwanegol yn cael eu rheoli drwy ailgyfeirio UPC a **6,497** o gleifion drwy'r llwybr Meddyliwch 111 Yn Gyntaf.

Bu'r tîm yn ymwneud yn helaeth â'r digwyddiad Dysgu Cenedlaethol cyntaf ar gyfer y chwe nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, gan ddangos y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys.

## Gwasanaethau Cymunedol

Gan gydnabod y materion cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag oedi i gleifion sy'n aros i adael yr ysbyty gyda chymorth gofal cartref, cytunwyd i benodi 25 o **Weithwyr Cymorth Ailalluogi** WTE i gynyddu capasiti cymunedol. Roedd hyn yn cyfateb i gynyddu capasiti gofal tua 800 awr yr wythnos. Byddai hyn yn ceisio cyflwyno mwy o gyfrifoldeb wrth ryddhau cleifion i wella ac asesu, cael mynediad i Ailalluogi yn y lle cyntaf ac asesu annibyniaeth dinasyddion yn eu cartrefi eu hunain ar ôl cyfnod o adferiad cyn pennu anghenion hirdymor. O ystyried ymrwymiad y rhanbarth i'r dull hwn, ymrwymwyd i ariannu'r swyddi hyn yn barhaol yn hytrach na thrwy arian grant tymor byr.

Hyd yn hyn, mae 17 o'r 25 o swyddi parhaol wedi'u penodi ac mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r swyddi gwag sy'n weddill trwy ddigwyddiadau recriwtio a chyfathrebu â'r cyhoedd i annog brwdfrydedd am rolau mewn gofal cartref.

O fis Awst 2021 sefydlwyd **llwybr derbyn uniongyrchol** o'r lleoliad cymunedol i ysbytai cymunedol i gefnogi cleifion nad oedd angen ymyriad aciwt arnynt i osgoi'r system aciwt. Hyd yn hyn, mae 72 o gleifion wedi cael mynediad at wasanaethau drwy'r llwybr hwn, gan felly leihau'r galw diangen ar safleoedd aciwt, a rhagwelir y bydd yn lleihau nifer y diwrnodau gwely y mae'r garfan hon o'r boblogaeth yn mynd iddynt.

Mae **Uned Cam Nes at Adref** (SC2HU) wedi'i sefydlu yn Ysbyty St Woolos i gefnogi rhyddhau cleifion sydd angen arhosiad estynedig yn yr ysbyty ar gyfer ail-alluogi er mwyn cael eu rhyddhau'n ddiogel gyda llai o ddibyniaeth ar becyn gofal. Mae'r uned yn cael ei harwain gan Therapyddion/Nyrsys gyda Rheolaeth Glinigol yn cael ei chynnal gan Feddygon Teulu Gofal Sylfaenol Brys. Derbynnir atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sy'n feddygol ffit i'w rhyddhau adref o safleoedd Ysbyty, Tîm Rhyddhau o'r Ysbyty a'r holl Dimau Adnoddau Cymunedol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r uned yn agored i holl gleifion mewnol ysbyty BIPAB presennol sy'n bodloni meini prawf yr uned waeth ym mha Fwrdeistref y maent yn byw.

Agorodd yr Uned ar 24 Ionawr 2022 ac mae wedi derbyn 53 o dderbyniadau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Yn y cyfnod hwnnw mae'r gwasanaeth yn asesu eu bod wedi lleihau'r galw am becynnau gofal mewn 86% o achosion, gyda 21 o bobl wedi'u derbyn eisoes yn derbyn gofal cymunedol ond bod eu hanghenion parhaus wedi lleihau mewn 18 achos yn dilyn mewnbyn therapi.

## Llwybr y Ganolfan Llif

Mae llwybrau mynediad at Wasanaethau Ymateb Cyflym wedi'u hadolygu ac mae cynllun peilot sy'n caniatáu i Ganolfan Llif y Bwrdd Iechyd ailgyfeirio

atgyfeiriadau priodol gan feddygon teulu i dimau meddygol yng Nghaerffili wedi'i roi ar waith. Yn ystod y ddau fis cyntaf, atgyfeiriwyd 33 o gleifion at dîm Caerffili, gan ddangos y potensial i ailgyfeirio angen nas diwallwyd. Mae'r cynllun peilot wedi'i ymestyn i Flaenau Gwent a bydd yn cael ei adolygu yn ystod 2022/23 i bennu goblygiadau ehangach o ran cyflwyno ac adnoddau.

## Brechiadau COVID-19 ar gyfer Pobl sy'n Gaeth i'r Tŷ

Yn ogystal â chynnal gwasanaethau craidd yn y gymuned, cyfunodd timau nyrso cymunedol adnoddau i gynnal rhaglen frechu sylweddol yn y cartref ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r tŷ yng Ngwent. Amcangyfrifir bod cyfanswm o 11,773 o frechiadau COVID-19 wedi'u rhoi hyd yma mewn lleoliad cartref, gan gyfrannu at lwyddiant cyffredinol y rhaglen a chanolbwyntio'n benodol ar rai o aelodau mwyaf agored i niwed y boblogaeth.

## Gwasanaethau Therapi

Roedd gwasanaethau therapi yn gweithredu'n hyblyg; gan leoli gwasanaethau i gynnal pobl yn eu cartrefi eu hunain, atal derbyniadau i'r ysbyty trwy glinigau cymunedol, gofal cartref a chymunedol (rhyngweithio wyneb yn wyneb a rhithiol) ac i wneud y mwyaf o'r ymateb yn yr ysbyty i reoli'r cynnydd yn y galw am achosion derbyniadau cysylltiedig â Covid a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â Covid.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r ymateb Therapiau a'r gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld isod ac maent yn dangos hyblygrwydd, amrywiaeth ac arloesedd gwyb wrth ddarparu gwasanaethau ac yn ein staff.

- Dechreuwyd datblygu swyddi cwmpasu 6 mis i **gefnogi ymateb Therapi Galwedigaethol mewn Iechyd Galwedigaethol i COVID Hir** ar gyfer ein staff. Mae gwybodaeth gynnar yn dangos bod ymyrraeth therapi galwedigaethol yn amlwg wedi cynyddu cyfranogiad yng ngweithgarwch aelodau staff ac wedi dangos cynnydd yn hyder aelodau staff i ddychwelyd i'r gwaith, gan ddangos bod ymyrraeth therapi galwedigaethol yn gost-efeithiol ac yn hanfodol o fewn Iechyd Galwedigaethol.
- Ymgwymerwyd â phrosiect cwmpasu i sefydlu'r angen am **swyddi Therapi Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol**, gyda dwy swydd cyfnod penodol 2 flynedd wedi'u sefydlu o ganlyniad.
- Trosglwyddodd modiwlau Coleg Adferiad Niwrolegol Niwrostiwt i opsiynau cyflwyno rhithwir. Mae'r Niwrostiwt yn ddull hunanreoli a gefnogir gan gleifion sy'n cefnogi dysgu ehangach trwy ddefnyddio'r profiadau a rennir i gefnogi'r gymuned ehangach. Mae'r Niwrostiwt yn rhan o fodel Coleg Adfer hynod lwyddiannus o fewn y **Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol**. Mae'r cynnig Rhithwir hwn (sy'n cael ei redeg ochr yn ochr â gwasanaethau wyneb yn wyneb hanfodol)

wedi bod yn llwyddiannus gyda phobl sydd wedi cael anaf i'r ymennydd a strôc yn dangos presenoldeb gwell a chyfraddau DNA is. 217 derbyniad yn ystod Chwarter 1.

- Datblygu **gwasanaeth uwchsain Therapiau MSK (Cyhyrysgerbydol)** ymhellach gyda Phodiatriyddion a Ffisiotherapyddion cymwys yn sganio'n annibynnol ac yn darparu ymyriadau dan arweiniad uwchsain. Mae podiatryddion a ffisiotherapyddion yn cyfrannu at y gweithlu clinigol yn y dull therapiau cyfan hwn. Cynhaliwyd 607 o sganiau yn 2021-22. Ymhlith y buddion allweddol mae llai o atgyfeirio i ddiagnosis ac amseroedd atgyfeirio i driniaeth, diagnosis mwy cywir a rheoli cleifion yn y gymuned.
- Gwasanaethau trawsnewidiol ar draws **Seicoleg Plant** yn arwain y cyfeiriad Cenedlaethol tuag at weithredu'r Fframwaith NYTH ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs). Wedi'i sefydlu bellach fel Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gyda disgwyliadau clir ar gyfer cyflawni yn eistedd gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae hon yn esblygiad o Drawsnewid CAMHS ICEBERG. Mae'r buddion allweddol yn cynnwys alinio gwasanaethau a ddatblygwyd fel rhan o Drawsnewid Iceberg gyda NYTH:
  - Gwasanaeth Ymlyniad Gwent
  - Help Llaw
  - Seicoleg Gymunedol C & F
  - Tîm Ymyrraeth Teuluol
  - Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol Dwys (IPBS)
  - MYST (Fy Nhîm Cymorth)
- Wedi dechrau rhagnodi annibynnol o fewn **Podiatreg Cymunedol Gwasanaeth Aelodau Mewn Perygl**, cynllun peilot gyda chymorth gofal sylfaenol ar gyfer rhagnodi ar draws 12 practis NCN. Mae'r manteision yn cynnwys ymyrraeth amserol, gwell profiad i gleifion a gofal cleifion a gwell mynediad at ofal iechyd.
- **Un pwynt atgyfeirio Porth Clwyfau Aelodau Isaf a gynhelir gan Bodiaterg:** Mae hwn yn broses pwynt atgyfeirio sengl sy'n anelu at:
  - symleiddio a rhesymoli'r llwybrau atgyfeirio i ddileu amrywiadau er mwyn sicrhau mynediad amserol at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol ac arbenigedd i gleifion â chlwyfau aelodau isaf a briwiau traed.
  - lleihau dyblygu
  - gweithio ar draws y system, gofal sylfaenol a Chymunedol, Gofal wedi'i Drefnu ac Heb ei Drefnu a Theulu a Therapiau
  - gweithio ar draws Arbenigeddau h.y. Diabetes, Fasgwlaidd, Orthopaedeg.
  - Datblygu Porth Sengl ar gyfer meddygon teulu, gweithwyr gofal cymunedol a sylfaenol ac eilaidd ar gyfer atgyfeirio a rhyddhau
- Datblygu **Bot SGWRSIO ar gyfer pryder am driniaeth.** Mae pob plentyn a pherson ifanc (PPI) yn cael brechiadau lluosog fel rhan o raglen

Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae effaith Covid wedi arwain at roi mwy o frechiadau i blant a phobl ifanc. Mae pryder gweithdrefnol, yn benodol, ynghylch profion gwaed a phigiadau, yn effeithio ar les a gall arwain at rwygiadau yn y driniaeth a thynnu'n ôl o raglenni brechu. Mae'r Bot SGWRSIO yn galluogi PPI a'u teuluoedd i ymgysylltu â gwybodaeth a strategaethau ymdopi sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion i'w cefnogi wrth gael profion gwaed a brechiadau. Mae'r Bot SGWRSIO hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan Oedolion â phryder am Driniaeth.

- Datblygu **llwybr gwella aml-ddisgyblaethol ar ôl salwch (ar ôl Covid) i blant**. Llwybr clinigol a Gwasanaeth MDT arbenigol integredig wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion cymhleth plant a phobl ifanc sy'n ymdopi ag effaith COVID Hir. Mae'r llwybr yn darparu gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol mewn cydweithrediad ag iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae cwmpas i'r llwybr lenwi bylchau gwasanaeth hirsefydlog ar gyfer plant a phobl ifanc ag ME/Syndrom Blinder Cronig, Ffibromyalgia a Phoen Cronig. Mae llwybr y Bwrdd Iechyd wedi'i fabwysiadu fel Dull Cymru Gyfan.
- Addasu a datblygu **tudalennau gwe Ffisiotherapi** ar draws yr holl arbenigeddau i gynnig cyngor iechyd y cyhoedd ac egwyddor hunanreoli, gan ddarparu gwell mynediad at wybodaeth i alluogi'r cyhoedd i gael mynediad at offer ac adnoddau i reoli eu cyflwr eu hunain a bod yn ymwybodol o weithgareddau hybu iechyd ac atal.
- Cynllun peilot o **weithiwr cymorth maeth** ar y ward ar gyfer ward orthogeriatrig yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae hyn yn darparu gwelliannau ym mhob metrig allweddol sy'n gysylltiedig â sgrinio maeth a chynlluniau gofal, hanfodion gofal a chanlyniadau clinigol, ynghyd â gwell profiad i gleifion a staff.
- Disodli'r addysg grŵp a ddarperir i rieni ar gyfer plentyn sydd wedi cael diagnosis o alergedd protein llaeth Buwch gyda sesiwn wedi'i recordio sydd ar gael trwy ddolen YouTube caeedig a chanllawiau ysgrifenedig cynhwysfawr, er mwyn caniatáu mynediad ar unwaith at adnodd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Therapiau Lleferydd ac Iaith yn defnyddio clinigau Rhithwir (fel rhan o'r cynnig Hybrid – Wyneb yn Wyneb a rhithwir) i gynnig ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws llwybrau clinigol.

## Profi ac Imiwneiddio ar gyfer COVID

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r pum Awdurdod Lleol yng Ngwent ar raddfa a chyflymder ac i lefel newydd o integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i gwrdd â heriau rhanbarthol y pandemig COVID-19 byd-eang.

Fel rhan o Wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Gwent, rydym wedi amddiffyn ein trigolion drwy dorri cadwyni trosglwyddo yn ein cymunedau a'n

gweithleoedd ac rydym wedi cyflawni llwyddiannau newydd, wrth i ni wynebu Tonnau Delta ac Omicron yn ystod 2021-22 yn:

- *Olrhain Cyswllt ar Raddfa'r Boblogaeth:* rydym wedi olrhain dros 175,000 o achosion positif ers i'r gwasanaeth ddechrau. Ac rydym wedi ceisio cyrraedd mwy na 50% o'n 600,000 o drigolion tra'n cysylltu a darparu cefnogaeth i chwarter miliwn ohonynt.
- *Arloesedd Digidol:* mae ein dulliau wedi dod yn sail i bolisi cenedlaethol yng Nghymru. Defnyddiwyd tua 37,500 o ffurflenni olrhain electronig gyda chyfradd ymateb o 62% yn ystod ton Omicron yng nghyfnod y gaeaf. Parhau i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed tra'n bod, yn weithredol, dan y pwysau mwyaf.
- *Integreiddio Gweithlu Arbenigol:* gan gydweithio ar draws Atal a Rheoli Heintiau Byrddau Iechyd, Clinigwyr, Arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Arbenigwyr Diogelu Iechyd a Swyddogion Gorfodi, rydym wedi gallu rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn gyflym i gefnogi diogelu iechyd.

Rydym yn cynnal gweithlu ar gyfer y dyfodol a fydd yn ein galluogi i barhau i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed gan ganolbwyntio ar leoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn hefyd yn barod i gynyddu ein gweithlu a lefel ein hymateb yn ôl yr angen, pe bai yna ddirywiad o senario 'sefydlog' i senario 'brys'.


Mae profi yn rhan annatod o allu rhanbarth Gwent i gyflawni ei gyfrifoldebau a nodir yng Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r Profion PCR COVID-19 a gynhaliwyd ar ein preswylwyr yn 2021/22.

Cyfanswm y Profion	1,090,006
Profion a gyflawnwyd gan PHW	263,267
Cyfanswm profion cartrefi gofal	247,820
Profion cartrefi gofal a gyflawnwyd gan PHW	52,761
Cyfanswm y ceisiadau cyn llawdriniaeth	30,542
Ceisiadau cyn llawdriniaeth (perfformiwyd gan y Gwasanaeth Profi COVID-19 cymunedol)	22,307
Profion cleifion preswyl	18,403
Profion COVID-19 a gynhaliwyd yng nghartref y claf ei hun gan dîm profi BIPAB	11,796
Cyfanswm y profion LFD staff a gofnodwyd drwy BIPAB	381,402

### Profion LFD staff


Mae profion asymptomatig arferol ar gyfer staff sy'n defnyddio Dyfeisiau Llif Unffordd (LFD) wedi chwarae rhan hanfodol yn y flwyddyn ddiwethaf i leihau'r risg o drosglwyddo ymhlith staff. Yng ngoleuni'r amrywiad Omicron,

penderfynom gynyddu'r profion, felly cynghorwyd yr holl staff i brofi cyn pob shift. Mae'r graff isod yn amlygu'r newid yn y protocol a arweiniodd at gydymffurfiaeth yn aros dros 80 y cant yn ystod uchafbwynt Omicron ym mis Ionawr 2022.



Cyfanswm nifer yr LFDs a adroddwyd gan staff rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yw 381,402 gyda 3,063 o ganlyniadau cadarnhaol wedi'u cofnodi.

Sylwch ar y cynnydd mewn positifrwydd ar y graff isod, mae hyn yn adlewyrchu'r newid mewn canllawiau cenedlaethol lle codwyd cyfyngiadau a lle parhaodd nifer yr achosion o Covid yn uchel.



Mae **Profion Pwynt Gofal** (POCT) yn chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo llif cleifion tra'n cael eu derbyn i'r ysbyty.


Mae deall statws COVID-19 ein cleifion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty yn hanfodol. Mae'n ein galluogi i amddiffyn staff, cleifion a gwasanaethau. Mae profion Covid cyflym POCT yn caniatáu asesu cyflym a symud cleifion yn ddiogel drwy'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym ni 7 dyfais Roche Liat a 14 o beiriannau Abbott ID Now i brosesu'r profion hyn. Defnyddir y dyfeisiau hyn yn helaeth yn yr adran achosion brys ac ardaloedd eraill ar draws pob safle eLGH. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y profion Covid a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r ddau lwyfan profi pwynt gofal hyn.

	<b>Nifer y profion a gyflawnwyd</b>	<b>Cyfanswm nifer y positifau</b>
<b>Abbott ID nawr</b>	10,752	531
<b>Roche Liat</b>	11,851	488

### Crynodeb o brofion trigolion Gwent rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

Mae'r graff isod yn dangos nifer y profion COVID-19 a gynhaliwyd ar drigolion Gwent dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r canran positifrwydd. Pan ddechreuodd profion COVID-19 am y tro cyntaf, roedd capasiti labordy'n gyfyngedig a thargedwyd profion i sicrhau y gallai staff byrddau iechyd a sefydliadau partner ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel.

Wrth i gapasiti labordai gynyddu, roeddem yn gallu lleoli nifer o unedau profi symudol ar draws ardal Gwent i ddarparu mynediad hygyrch at brofion. Cyrhaeddodd y profion uchafbwynt i drigolion Gwent ar 29 Rhagfyr 2021 yn ystod uchafbwynt Omicron. Y gyfradd positif bryd hynny oedd 35.2% gyda 2,977 yn profi'n positif allan o 8,458.



## Amseroedd cwblhau samplau BIPAB

Mae'r tabl isod yn dangos yr amser a gymerir i brosesu samplau COVID-19, o gyrraedd y labordy i gael canlyniad. Bydd cyfran fawr o bobl a brofwyd yng Ngwent nawr yn cael y canlyniad fel mater o drefn o fewn 24 awr i'w prawf. Mae hyn yn sail i'n gallu i ymateb yn gyflym i glystyrau achosion a rheoli trosglwyddiad cymunedol yn ddiogel, yn enwedig o ran yr amrywiadau sy'n peri pryder. Gan ddefnyddio ein gwasanaeth trafndiaeth adweithiol mewnol ein hunain gallwn sicrhau bod samplau'n cael eu prosesu'n gyflymach nawr nag ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig.

<b>Samplau COVID-19 BIPAB wedi'u prosesu o fewn labordai PHW</b>			
<b>O'u derbyn i'w hawdurdodi</b>	<b>30/03/2020</b>	<b>30/03/2021</b>	<b>30/03/2022</b>
Profi o fewn 12 awr	16%	57%	57%
Profi o fewn 24 awr	39%	92%	98%
Profi o fewn 48 awr	81%	100%	100%

<b>Samplau COVID-19 wedi'u prosesu o fewn labordai BIPAB</b>			
<b>O'u derbyn i'w hawdurdodi</b>	<b>23/11/20</b>	<b>29/03/21</b>	<b>31/03/22</b>
Profi o fewn 12 awr	20%	51%	28 %
Profi o fewn 24 awr	32%	95%	74%
Profi o fewn 48 awr	92%	100%	100 %

Mae'r amseroedd gweithredu o fewn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng dros y misoedd diwethaf oherwydd amser segur sylweddol ar un o'r llwyfannau profi. Mae microbioleg wedi dilysu platfform newydd yn ddiweddar a fydd yn darparu capasiti profi ychwanegol yn fewnol ac yn gwella amseroedd gweithredu.

Mae Microbiolog yn y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi profion Covid ar gyfer trigolion Gwent.

## Profion asymptomatig i gleifion preswyl ddwywaith yr wythnos

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Tîm Profi wedi darparu dau wasanaeth yn ein hysbytai - swabio arferol a chymorth adweithiol. Fe wnaethom ddarparu gwasanaeth profi cleifion mewnol COVID-19 cyflawn ddwywaith yr wythnos ar bedwar safle ysbyty. Roedd y system hon yn dileu'r pwysau ar staff rheng flaen, yn lleihau trosglwyddiad nosocomiaidd ac yn cefnogi llif cleifion/rhyddhau cleifion. Roedd y gwasanaeth arddull fflebotomi gwell hwn yn sicrhau bod pawb yn cael cynnig prawf.


Mewn ymateb i leihad yn y galw symudodd Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) i brofion unwaith yr wythnos ar ddiwedd mis Chwefror fel cynllun peilot i fonitro trosglwyddo achosion cyn rhoi newidiadau ar waith ar draws pob safle.

Mae newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol ym mis Mawrth 2022 bellach wedi cael gwared ar brofion asymptomatig arferol ar gyfer pob claf preswyl oni bai eu bod yn dod yn symptomatig neu'n dod yn rhan o reoli achosion brigiad.


## Cynnydd yn erbyn y Rhaglen Brechu Torfol

Mae'r Rhaglen Brechu Torfol wedi darparu brechiadau i'r boblogaeth yn unol â chanllawiau JCVI a LIC, gan ddechrau gyda cham 1 y rhaglen ar 8 Rhagfyr 2020, gan gynnig brechiadau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y boblogaeth i ddechrau. Dilynwyd hyn gan gynnig y dos cyntaf, yr ail a'r dos atgyfnerthu i drigolion 12 oed a hŷn sy'n byw yn ein hardal. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig brechiad i blant 5-11 oed yn unol â chyngor LIC.

O 6 Mawrth ymlaen, mae'r rhaglen hynod lwyddiannus wedi darparu 1,312,335 o frechlynnau, gyda 100,285 o'r rhain yn cael eu darparu o fewn 14 diwrnod yn ystod y rhaglen atgyfnerthu carlam yn ystod canol/diwedd Rhagfyr.



Mae gan ein rhaglen strategaeth gref i beidio â gadael neb ar ôl i leihau anghydraddoldebau yn y niferoedd sy'n manteisio ar y rhaglen ac mae'n parhau i gyflawni cyfraddau cwrmpas uchel gyda phedwar o'r pum ardal awdurdod lleol yn ein hardal â'r chwe chyfradd uchaf o ran derbyn dosau atgyfnerthu ar gyfer y rheini sy'n 50 oed a hŷn, fel a welir yn y graff isod.



### Rhaglen Brechu rhag y Ffliw i Staff

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru 2021-19 yn nodi uchelgais i sicrhau bod o leiaf 80% o staff yn cael eu brechu rhag y fflw a chynnig brechiad o 100% ar gyfer 2021-22.

Yn 2020-21, y targed imiwneiddio staff rhag y fflw oedd 75%. Yn ein Bwrdd Iechyd, nifer y staff a gafodd eu brechu ar ddiwedd y tymor oedd 9190, sef 66.4% o'r holl staff a chynnydd o 5.4% o gymharu â'r nifer a gafodd eu brechu yn ystod tymor 2019-20 (61%).

Er mwyn cyrraedd y targed uchelgeisiol o 80% yn manteisio, datblygwyd ein cynllun brechu rhag y fflw i staff 2021-22 gyda llawer o ffocws ar ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff i'w hysgogi a'u hannog i fanteisio ar y brechlyn fflw. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y model darparu drwy imiwneiddwyr cymheiriaid, gan ychwanegu'r cynnig o frechlyn fflw i staff pan fyddant yn mynychu canolfan frechu torfol ar gyfer eu brechlyn atgyfnerthu COVID.

Yn nhymor 2021-22, roedd gennym tua 500 o hyrwyddwyr y fflw. Maent yn frechwyr cymheiriaid gwirfoddol, sy'n ymgysylltu â'u cydweithwyr i gynnig brechlyn fflw mewn meysydd clinigol ac anghlinigol. Roedd gennym gynllun cymhelliant ar gyfer 'Hyrwyddwyr y Fflw' i gydnabod eu hymdrechion i hyrwyddo a gweinyddu'r brechiad. Enwebodd pob adran Hyrwyddwr y Fflw o'u hadran i dderbyn Taleb Fflw.

Mae gennym wyth Arweinydd Fflw Rhanbarthol (DFL), un ar gyfer pob rhanbarth. Maent yn cymryd perchnogaeth dros gynllunio, cydlynu a monitro sut y bydd yr adran yn cyrraedd ei tharged fflw.

Fel yn y tymhorau blaenorol, roedd Iechyd Galwedigaethol yn bwriadu cynnig apwyntiadau brechu rhag y fflw i staff drwy gydol y tymor a threfnu

clinigau mewn ardaloedd nad oeddent yn cael eu cefnogi gan hyrwyddwyr fflw.

Fodd bynnag, eleni oherwydd pwysau ar staff, yn enwedig yn ystod ymddangosiad yr amrywiad Omicron, roedd staff yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser i frechu. Gwaethygyd hyn gan adleoli, lefelau salwch uchel a symudiad cyfyngedig o amgylch safleoedd. Ar ôl y Nadolig cafodd y rhaglen ei hail-lansio i bob pwrpas i geisio gwneud iawn am dir a gollwyd. Er gwaethaf ymdrechion gorau, yn gyffredinol, nid oedd gweithwyr yn ymateb i bob ymgais i geisio rhoi'r brechlyn. Y teimlad cyffredinol oedd nad oedd gweithwyr eisiau brechlyn "arall" ac roedd yr amseriad yn cael ei ystyried yn hwyr ac nad oedd yn werth ei gael.

Er gwaethaf y ffactorau gwanychol hyn mae'r Rhaglen Fflw Staff wedi cyflawni cyfradd brechu o 58% (8216 o weithwyr). Mae hyn yn gosod y Bwrdd Iechyd yn 4<sup>ydd</sup> yn gyffredinol o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

### Rhaglen Fflw Cymunedol

Rhodddwyd cynlluniau gweithredu fflw tymhorol ar waith mewn gofal sylfaenol (gan gynnwys cartrefi gofal), ysgolion cynradd ac uwchradd ac ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd. Darparodd yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol oruchwyliaeth a chymorth drwy Grŵp Fflw Cymunedol. Lansiwyd ymgyrch i gynyddu nifer y staff sy'n manteisio ar y rhaglen ganol mis Medi yn cynnwys hyrwyddwyr y Fflw. Cyflawnodd y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth nifer o fentrau clwstwr i gynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt. Ar ôl rhaglen atgyfnerthu mis Rhagfyr ymgwymerwyd ag ymyriadau ymwelwyr iechyd wedi'u targedu i gynyddu nifer y plant 2 a 3 oed sy'n cael eu derbyn yn dilyn llythyr y Prif Swyddog Meddygol yn amlygu pryderon ynghylch cyd-gylchrediad y fflw a Covid-19. Ar 29 Mawrth 2022 roedd y nifer a gafodd y brechiad fflw yn ardal y bwrdd iechyd ymhlith y rhai 65 oed a hŷn ac mewn grwpiau risg clinigol rhwng 6 mis a 64 oed yr uchaf yng Nghymru ar 80% a 53.6% yn y drefn honno. Roedd 50.3% ymhlith plant 2 a 3 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan o 47.6% (gweler y tabl isod).

### Crynodeb fesul Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol (29 Maw 2022)

		Plant 2 i 3 oed			Risg glinigol 6m i 64 oed			65 oed a hŷn		
		Enwadur	Wedi imiwneiddio	Nifer sy'n derbyn (%)	Enwadur	Wedi imiwneiddio	Nifer sy'n derbyn (%)	Enwadur	Wedi imiwneiddio	Nifer sy'n derbyn (%)
BIP	Blaenau Gwent	1,528	833	54.5%	11,515	6,044	52.5%	14,432	11,041	76.5%
Aneurin	Caerffili	3,824	1,894	49.5%	27,300	13,938	51.1%	37,334	29,232	78.3%
Bevan	Sir Fynwy	1,760	1,191	67.7%	13,171	8,314	63.1%	25,864	22,111	85.5%
	Casnewydd	3,909	1,810	46.3%	22,138	11,597	52.4%	27,295	21,536	78.9%
	Torfaen	2,036	846	41.6%	14,769	7,767	52.6%	19,924	15,926	79.9%
	Cyfanswm AB	13,057	6,574	50.3%	88,893	47,660	53.6%	124,849	99,846	80.0%
<b>Cymru</b>	<b>Cymru</b>	<b>64,714</b>	<b>30,847</b>	<b>47.7%</b>	<b>444,742</b>	<b>214,271</b>	<b>48.2%</b>	<b>687,337</b>	<b>536,106</b>	<b>78.0%</b>

## Atal a Rheoli Heintiau

Mae sawl sbardun polisi a strategol yn dylanwadu ar yr agenda atal a rheoli heintiau ar draws GIG Cymru, ond fframwaith nodedig yw'r 'Cod Ymarfer'. Mae'r Cod yn nodi'r trefniadau atal a rheoli heintiau gofynnol (IPC) ar gyfer darparwyr gofal iechyd y GIG yng Nghymru. Mae naw elfen y disgwylir i sefydliadau eu bodloni'n llawn ar draws yr ystod o wasanaethau gofal iechyd. Mae'r Cod yn cyfeirio at stiwardiaeth gwrthficrobaidd a dadheintio dyfeisiau meddygol, sydd ill dau wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, sy'n cael ei ategu gan Safon Iechyd a Gofal 2.4 Gofal Diogel: mae angen i atal a rheoli heintiau'n effeithiol fod yn fusnes i bawb a rhaid iddo fod yn rhan o arfer gofal iechyd bob dydd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag heintiau gofal iechyd y gellir eu hatal.

Yn genedlaethol, mae caffael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI) yn parhau i fod yn brif achos niwed i gleifion y gellir ei osgoi a dangoswyd ei fod yn peri risg difrifol i gleifion, staff a'r cyhoedd. Mae HCAI yn effeithio'n negyddol ar gleifion mewn sawl ffordd, er enghraifft salwch difrifol neu gronig, poen, pryder, iselder, ansawdd bywyd is a cholli enillion neu yn fwy difrifol, marwolaeth. Maent hefyd yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd o ran cyfnodau estynedig o arhosiad cleifion yn yr ysbyty ac amser oddi cartref, costau diagnosis a thrin yr heintiau a'u cymhlethdodau, a chostau mesurau rheoli heintiau penodol, ac felly mae atal a rheoli heintiau yn flaenoriaeth genedlaethol a sefydliadol.

Mae ymddangosiad tuedd gynyddol o ymwrthedd gwrthficrobaidd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth fyd-eang ac yn un lle mae atal haint yn hollbwysig er mwyn helpu lleihau'r galw am wrthfotigau. Mae'n hanfodol felly bod mesurau clinigol effeithiol yn cael eu mabwysiadu ym mhob lleoliad gofal iechyd i leihau'r risg o drosglwyddo unrhyw organeb sydd â'r potensial i achosi niwed.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod atal heintiau yn hanfodol i ansawdd y gofal a ddarperir ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod safon gyson uchel o arferion atal a rheoli heintiau yn cael ei hystyried yn ofyniad hanfodol er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal (HCAIs) ac mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran lleihau'r heintiau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys heintiau llif gwaed Staffylococws Awrëws sy'n Gwrthsefyll Methisilin (MRSA) a heintiau a achosir gan *Clostridium difficile* (Cdiff). Mae cynnydd yn erbyn yr agenda gwrthficrobaidd wedi'i lesteirio rhywfaint gan Covid-19 gyda thargedau Llywodraeth Cymru wedi'u gohirio yn ystod y Pandemig ond mae gwaith wedi parhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, i fynd i'r afael â gweithredu'r rhaglen genedlaethol i leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd. O ran Dadheintio, derbyniodd y Bwrdd Iechyd sgôr 'Sicrwydd Rhesymol' gan y Peiriannydd Awdurdodi ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o Strategaeth Ddiheintio Cymru Gyfan, gan wneud cynnydd da yn y maes hwn wrth agor uned sterileiddio a diheintio newydd sbon o'r radd flaenaf ar safle Ysbyty Athrofaol y Grange.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi targedau HCAI blynyddol ond mewn ymateb i'r pandemig ni osodwyd unrhyw dargedau rhifol. Serch hynny, roedd disgwyl y byddai Byrddau Iechyd yn parhau i leihau nifer yr heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn seiliedig ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Mae'n bleser nodi bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ar gyfer 2021/22, sy'n werth ei nodi wrth ystyried effaith Pandemig Covid-19.

Er gwaethaf tra-arglwyddiaeth barhaus Covid-19 yn ystod cyfnod adrodd 2021/22, mae stori bwysig i'w hadrodd o ran yr agenda atal a rheoli heintiau a pherfformiad ar draws y Bwrdd Iechyd. Amlinellir rhaglen waith yr IPC ar gyfer 2021/22 yn y tabl canlynol, gyda sgôr RAG o ran perfformiad.

<b>Blaenoriaeth 1</b>	Systemau i reoli a monitro atal a rheoli heintiau. Mae'r systemau hyn yn defnyddio asesiadau risg ac yn ystyried tueddiad defnyddwyr gwasanaeth ac unrhyw risgiau y gall yr amgylchedd a defnyddwyr eraill eu hachosi, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o ICNet.	
<b>Blaenoriaeth 2</b>	Darparu a chynnal amgylchedd glân a phriodol mewn adeiladau a reolir sy'n hwyluso cydymffurfiaid cadarn ag atal a rheoli heintiau, gan gynnwys HPV systematig.	
<b>Blaenoriaeth 3</b>	Sicrhau defnydd priodol o gyffuriau gwrthficrobaidd i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion a lleihau'r risg o ddigwyddiadau andwyol ac ymwrthedd gwrthficrobaidd.	
<b>Blaenoriaeth 4</b>	Darparu gwybodaeth addas a chywir am heintiau i ddefnyddwyr gwasanaeth.	
<b>Blaenoriaeth 5</b>	Sicrhau bod pobl sydd â haint neu sydd mewn perygl o ddatblygu haint yn cael ei nodi'n brydlon fel eu bod yn cael triniaeth amserol a phriodol, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo haint i bobl eraill.	
<b>Blaenoriaeth 6</b>	Sicrhau bod yr holl staff a'r rhai a gyflogir i ddarparu gofal ym mhob lleoliad yn cymryd rhan lawn yn y broses o atal a rheoli heintiau. Systemau i sicrhau bod pob gweithiwr gofal (gan gynnwys contractwyr a gwirfoddolwyr) yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni trwy addysg a hyfforddiant.	
<b>Blaenoriaeth 7</b>	Sicrhau bod holl bolisiau'r IPC yn gyfredol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.	
<b>Blaenoriaeth 8</b>	Cynnal adolygiadau o achosion o ymchwydd Covid 1 a 2, ynghyd ag adolygiadau marwolaethau unigol sy'n gysylltiedig â phob achos a sicrhau dysgu sefydliadol a pharodrwydd ar gyfer ymchwyddiadau yn y dyfodol.	


<b>Blaenoriaeth 9</b>	Cyfrannu'n weithredol at yr agenda hawliadau Covid.	
<b>Blaenoriaeth 10</b>	Gweithredu cynllun lleihau staff awrëws.	
<b>Blaenoriaeth 11</b>	Paratoi achos busnes ar gyfer cryfhau'r tîm IPC a'r seilwaith a buddsoddi ynddynt.	


Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael eu monitro'n gadarn i adnabod yn gyflym gyfnod o gynnydd sy'n dod i'r amlwg (2 achos newydd neu fwy mewn cyfnod o 28 diwrnod). O dan yr amgylchiadau hyn, mae cyfarfod Digwyddiad Difrifol (SI) yn cael ei gynnull i archwilio set safonol o gamau gweithredu yn dibynnu ar yr organeb. Mae'r dull ymchwiliol yn dilyn fformat rhagnodedig i bennu'r achos sylfaenol.

Mae nifer o wardiau wedi'u heffeithio gan gynnydd yn nifer yr achosion o haint *C difficile* yn ystod 2021/'22.

Adroddwyd am 205 o achosion o *C difficile* rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Mae hyn 40% yn fwy na'r cyfnod cyfatebol 2020/21 sy'n cyfateb i gyfradd o 34.27 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae *C difficile* yn parhau i fod uwchlaw'r taflwybr ac yn parhau i fod yn bryder er bod gwelliant yn cael ei weld ac yn ddarlun a welir yn genedlaethol.

Mae cyfarfodydd Digwyddiad Difrifol wedi'u cynnal, mae cynlluniau gweithredu wardiau wedi'u datblygu a'u monitro. Mae gwersi a dysgu wedi'u trafod mewn cyfarfodydd Llywodraethu Cyfarwyddiaeth/Is-adran a Diogelwch Cleifion. Mae camau gweithredu cyffredin yn cynnwys diheintio amgylcheddol gan ddefnyddio Anwedd Hydrogen Perocsid (HPV), archwiliadau o'r amgylchedd ac arferion ar y ward ac asesiadau hylendid dwylo.





Mae'r hyn a ddysgwyd o gyfarfodydd Digwyddiad Difrifol C *difficile* yn cynnwys:

- Cydymffurfiaeth gwrthficrobaidd
- Nifer y cleifion unigol a drosglwyddwyd rhwng ysbytai a wardiau
- Cydymffurfio ag archwiliadau hylendid dwylo (5 eiliad WHO)
- Safonau glanhau
- Adnabod a chiwbio'n brydlon

## Brigiadau Covid-19

Mae brigiad, fel y'i diffinnir gan y Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn 2 achos neu fwy yn digwydd yn yr un amgylchedd ward, o fewn cyfnod penodol o amser ac mae'n ddigwyddiad hysbysadwy. Mae cysylltiad annatod rhwng y trosglwyddiad cymunedol parhaus ac achosion a gafwyd yn yr ysbyty.

Ar ei bwynt uchaf ym mis Chwefror 2022, effeithiwyd ar 16 o wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd ac fe'i caewyd oherwydd achosion o Covid-19 gan roi pwysau sylweddol ar gapasiti gwelyau, y gweithlu, a llesiant staff yn ogystal ag, wrth gwrs, effeithio ar gleifion a'u teuluoedd.

Yn ddiamau, roedd nifer y wardiau wedi effeithio ar lif cleifion gyda nifer amrywiol o welyau yn cael eu colli oherwydd cau wardiau. Mae tîm yr IPC, ynghyd â microbioleg, yn rhoi cyngor ac arweiniad ar reoli, gan ystyried risg system gyfan. Mewn rhai achosion, effeithiwyd ar brofiad cleifion gan drosglwyddiadau lluosog rhwng wardiau ac ysbytai i sicrhau eu bod yn derbyn gofal ar y llwybr Covid priodol a arweiniodd at gleifion yn derbyn gofal mewn arbenigedd gwahanol i'w cyflwyniad clinigol cychwynol.

Mae nifer yr achosion wedi lleihau'n sylweddol, fel y dangosir yn y graff canlynol, yn ddiamau wedi'i effeithio gan y newidiadau i brofion.

Mae prosesau gwneud penderfyniadau pragmatig wedi'u rhoi ar waith ar gyfer wardiau Iechyd Meddwl a gwasanaethau aciwt i liniaru risgiau i brofiad y claf a chapasiti cleifion mewnol. Mae'r rhain wedi cynnwys lleihau'r amser cau ward o ddyddiad yr achos diwethaf a nodwyd o 14 i 10 diwrnod, er enghraifft.

Mae ymchwiliadau i achosion wedi nodi bod yr achos mynegai yn y mwyafrif wedi bod yn unigolyn asymptomatig. Er mwyn lliniaru'r risg hon, roedd pob claf preswyl yn cael prawf PCR bob 5 diwrnod a gofynnwyd i'r holl staff gael prawf LFD cyn shifft bob dydd. Roedd y strategaeth hon yn golygu bod mwy o gleifion a staff asymptomatig yn cael eu hadnabod ac felly mae wedi arwain at fwy o adrodd am frigiadau. Fodd bynnag, roedd nodi'r achosion hyn yn gynnar yn golygu bod mesurau achosion, gan gynnwys profion LFD dyddiol, wedi dechrau'n gynt gan leihau trosglwyddiadau pellach a chaniatáu ailagor wardiau yn gynharach.


Mae defnydd parhaus o PPE, salwch ac absenoldeb ynghyd â chanllawiau newidiol ynghylch ynysu a gofynion profi wedi effeithio ar les y sefydliad a staff. Er mwyn cynnal llif cleifion, mae wardiau wedi newid llwybrau'n gyflym neu wedi symud i greu capasiti ychwanegol a rheoli risgiau system gyfan. Croesawodd staff yr her yn erbyn cefndir o reoli absenoldebau salwch eithafol a diffygion staffio.

O fis Mai 2021, dechreuodd nifer y cleifion â Covid yn yr ysbyty leihau tan fis Medi 2021, pan ddechreuodd achosion godi eto gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Ionawr 2022. Ar ddiwedd Ionawr 2022, roedd yn ofynnol sefydlu capasiti coch (Covid) ychwanegol ar safle Ysbyty Brenhinol Gwent i ymdopi â galw cleifion preswyl. Ym mis Mawrth 2022, roedd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa llawer gwell a dychwelodd llwybrau coch i safleoedd ysbyty ystafell sengl yn unig (Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan).

Mae nifer y cleifion sydd angen gofal critigol a gofal anadlol lefel uchel wedi bod yn sylweddol is yn ystod yr ymchwydd Omicron nag yn yr ymchwyddiadau blaenorol.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cleifion mewnol positif hyd at 24 Ebrill 2022. Ar y pwynt hwn, dangosodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyfradd dderbyn o 9% ar gyfer cleifion Covid-19 positif, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 11%.

Mae'r graff a ganlyn yn dangos nifer y cleifion mewnol â Covid-19 o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru.



Mae dileu heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i GIG Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bu'n flwyddyn heriol arall i dîm yr IPC gyda'r rhan fwyaf o'u gwaith yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig Covid, gyda'r IPC yn chwarae rhan ganolog a sylfaenol. Mae'r Is-adrannau, ynghyd â thimau eraill ac yn arbennig Iechyd a Diogelwch a Chyfleusterau, wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni agenda'r IPC.

Mae cyflawniad y mwyafrif o dargedau lleihau Llywodraeth Cymru yn ystod 2021/22 wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig yn erbyn cefndir Covid-19 a'r pwysau a gyflwynwyd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ac eithrio *C difficile*, mae gan BIPAB y cyfraddau isaf ar gyfer yr holl fesurau eraill ledled Cymru, fel y gwelir yn y tabl canlynol.

	Uwch na'r un cyfnod yn y Flwyddyn Ariannol flaenorol		Is na'r un cyfnod yn y Flwyddyn Ariannol flaenorol		Yr un fath â'r un cyfnod yn y Flwyddyn Ariannol flaenorol											
	<i>C. difficile</i>		MRSA bacteraemia		MSSA bacteraemia		<i>S. aureus</i> bacteraemia		<i>E. coli</i> bacteraemia		Klebsiella sp bacteraemia		<i>P. aeruginosa</i> bacteraemia		Gram negative bacteraemia	
	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno	Nifer y sbesimenau	Cyfradd Blwyddyn Ariannol Cyno
BIP Aneurin Bevan	205	34.27	4	0.67	130	21.73	134	22.40	344	57.51	93	15.55	31	5.18	468	78.24
BIP Betsi Cadwaladr	215	30.57	10	1.42	169	24.03	179	25.45	436	61.99	138	19.62	37	5.26	611	86.87
BIP Caerdydd a'r Fro	156	30.92	11	2.18	131	25.97	142	28.15	311	61.65	120	23.79	35	6.94	466	92.37
BIP Cwm Taf Morgannwg	155	34.46	2	0.44	118	26.23	120	26.68	390	86.70	81	18.01	29	6.45	500	111.15
BIP Hywel Dda	152	39.00	16	4.11	105	26.94	120	30.79	356	91.35	87	22.32	31	7.95	474	121.63
BIA Powys	11	8.27	0	0.00	0	0.00	0	0.00	3	2.26	0	0.00	0	0.00	3	2.26
BIP Abertawe	196	50.13	10	2.56	129	33.00	139	35.55	288	73.67	94	24.04	24	6.14	406	103.85
YGIG Felindre	5		0	0.00	3		3		5		4		1		10	
<b>Cymru</b>	<b>1,095</b>	<b>34.55</b>	<b>53</b>	<b>1.67</b>	<b>785</b>	<b>24.77</b>	<b>837</b>	<b>26.41</b>	<b>2,133</b>	<b>67.30</b>	<b>617</b>	<b>19.47</b>	<b>188</b>	<b>5.93</b>	<b>2,938</b>	<b>92.69</b>

Wrth i'r sefydliad sefydlogi, yn dilyn ail ymchwydd Covid, mae'n bwysig ailffocysu ar egwyddorion sylfaenol IPC, cryfhau glanhau a'r rhaglen HPV ac ail-ymwreiddio agenda'r IPC fel un sy'n eiddo i bawb.

## Ailgynllunio'r ystâd leol i ddarparu gwasanaethau diogel yn ystod COVID

Cafodd yr holl gyfleusterau cleifion allanol eu hasesu gan dimau Iechyd a Diogelwch, rheoli heintiau a nyrsio, i sefydlu'r llwybrau cywir i gleifion sy'n mynychu clinigau wyneb yn wyneb (fel y gellir gwerthfawrogi, daeth llawer o glinigau wyneb yn wyneb i ben i gychwyn, a rhoddwyd mwy o brosesau nad oeddynt wyneb yn wyneb yn eu lle).

Sicrhaodd yr asesiad hwn fod yr ardaloedd clinig yn cydymffurfio â'r rheolau cadw pellter cymdeithasol dau fetr, a bod mannau aros yn cael eu marcio'n unol â hynny, a bod cadeiriau'n cael eu tynnu a/neu eu marcio fel na ellid eu defnyddio, gan roi'r gallu i'r Bwrdd Iechyd reoli'r gweithgaredd o'r ystafelloedd aros ac ymlaen i'r ystafelloedd clinig. Yn ogystal, yn dibynnu ar gynllun a maint mannau aros mewn clinigau, gosodwyd ffyrdd cyflenwi ychwanegol y tu allan i rai o leoliadau'r clinigau, i helpu cadw pobl yn ddiogel wrth aros.

Ar ôl y don gychwynol o Covid 19, gostyngwyd y rheol dau fetr i un metr mewn nifer o ardaloedd clinig – gan ddechrau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Mehefin 2021. Gosodwyd sgriniau mewn ystafelloedd aros i roi amddiffyniad ychwanegol gyda rheolau glanhau ar waith. Byddai hyn wedi dyblu'r gweithgaredd i'r ardaloedd clinig hynny. Ni fyddai pob man wedi bod yn addas oherwydd cynllun y clinigau a'r gofod cyffredinol.

### Darparu Gwasanaethau Hanfodol

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad y fframwaith blaenoriaethu yn agos. Diffinnir gweithgaredd dewisol a wneir gan flaenoriaeth glinigol y claf, yn hytrach na dull seiliedig ar amser, sy'n galluogi gofal amserol i'r cleifion mwyaf brys a gwneud penderfyniadau dan arweiniad clinigol. Bydd hyn yn cael effaith ar amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) mewn rhai gwasanaethau.

### Gwasanaethau Cleifion Allanol

Mae gwasanaethau wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio oherwydd COVID-19, yn enwedig o fewn gwasanaethau cleifion allanol, lle mae'r ffocws wedi bod ar glinigau rhithwir ac adolygiadau a phenderfyniadau yn y swyddfa. Nod allweddol ein Rhaglen Trawsnewid Cleifion Allanol yw gwella profiad y claf a sicrhau bod y claf yn ganolog i'r gwaith trawsnewidiol.

#### "Fy Nghofnod Meddygol"

Mae'r Gwasanaeth Wroleg yn arwain prosiect i ddefnyddio llwyfan cleifion i'w ddefnyddio gyda chleifion sydd mewn cyflwr sefydlog, lle gall y claf a'r tîm clinigol adolygu eu canlyniadau antigen prostad penodol (PSA). Mae hyn yn golygu nad oes angen i gleifion fynychu clinig oni bai bod angen. Bydd y math hwn o broses hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer cyflyrau cleifion eraill yn y dyfodol.

Mae proses "cyngor yn unig" a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2020-21 wedi golygu, yn dilyn atgyfeiriad lle mae cyngor ysgrifenedig priodol wedi'i ddarparu'n gyflym i'r meddyg teulu, nad yw'n ofynnol i'r claf gael ei weld mewn clinig neu mewn clinig nad yw ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Mae'r ffigurau isod:

Canol 2020 i 2021	4,882 o gleifion
2021 i 2022	8,767 o gleifion
2022/23 hyd yma	336 o gleifion
CYFANSWM	13,985 o

Mae meysydd ffocws eraill wedi ymwneud â nodi ffyrdd eraill o reoli cleifion yn briodol, e.e. SoS (Sylw yn ôl Symptomau) a PIFU (Apwyntiadau Dilydol ar Gais y Claf), ymgynghoriadau nad ydynt yn wyneb yn wyneb. Mae'r statws presennol fel a ganlyn:

Maes Ffocws a Tharged	Teulu a Therapiau	Meddyginiaeth	Gofal a Drefnwyd	Iechyd Meddwl	CYFANSWM
<b>Gweithgaredd Rhithwir (35%)</b>	27.39% Newydd 20.22 % Dilydol	44.86% Newydd 50.50% Dilydol	17.91% Newydd 26.80% Dilydol	65.41% Newydd 33.76% Dilydol	<b>25.45% Newydd</b> <b>32.08% Dilydol</b>
<b>SoS a PIFU (targed 20%)</b>	22.8%	9.6%	5.5%	0	<b>9.2%</b>

Mae Cynlluniau Cyflenwi Cleifion Allanol Arbenigeddau wedi canolbwyntio ar foderneiddio a thrawsnewid llwybrau o fewn eu gwasanaethau, yn ogystal â sicrhau bod capasiti cleifion allanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cleifion hynny sydd fwyaf mewn perygl. Mae gwaith manwl pellach ar y gweill gan weithio gyda thimau clinigol i gysylltu'r cynlluniau galw a chapasiti ar gyfer 2022/23 â'r cyflyrau cleifion hynny sydd fwyaf mewn perygl, gan helpu i leihau niwed i gleifion. Ar hyn o bryd rydym yn blaenoriaethu cleifion fel a ganlyn:

- Canser, amau canser, a brys, ar gyfer cleifion allanol newydd (R1 ar gyfer offthalmoleg) ar gyfer pob arbenigedd llawfeddygol ac anlawfeddygol gan gynnwys therapiau;
- Amau canser, brys ac arferol ar gyfer diagnosteg (oherwydd nifer yr achosion o ganser sy'n deillio o brofion arferol);
- Cleifion allanol brys ac arferol newydd dros 52 wythnos;
- Cleifion sy'n aros am apwyntiad claf allanol newydd dros 104 wythnos i gael eu hadolygu;
- 100% o oedi o ran apwyntiadau dilydol cleifion allanol.

Rydym hefyd yn haenu risg cleifion mewn nifer o arbenigeddau, er enghraifft:

- PROMS mewn Niwroleg, COTE, Anadlol
- Gastroenteroleg – PROMS ar gyfer Hepatoleg a Chyswllt Alcohol.
- Brysbennu cleifion o fewn Pediatreg (cleifion yn cael eu hailddosbarthu lle bo'n briodol), Dieteg, Ffisiotherapi a rhai orthopedig.
- Adolygu cleifion orthopedig pediatrig.

Yn ogystal, rydym wedi cysylltu â chleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd i sefydlu a oes angen yr apwyntiad arnynt o hyd, er enghraifft efallai bod eu cyflwr wedi gwella neu eu bod wedi cael eu gweld yn rhywle arall. Mae cleifion sy'n dymuno aros ar y rhestr hefyd yn cwblhau cwestiynau mewn perthynas â'u cyflwr, ac mae adolygiadau clinigol yn cael eu cynllunio i adolygu eu canlyniadau (bydd rhan olaf y

broses hon yn gynllun parhaus). Mae'r broses hefyd wedi'i chynnal ar gyfer cleifion sy'n aros 36-52 wythnos ac mae proses hefyd wedi dechrau gyda rhestrau aros dethol ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol, gyda'r nod o benderfynu a oes angen yr apwyntiad o hyd. Mae'r prosesau hyn yn ein galluogi i lanhau ein rhestrau aros a defnyddio ein capasiti ar gyfer cleifion sydd angen yr apwyntiad.


## Gwasanaethau Canser

Parhaodd gwasanaethau cancer i wynebu heriau sylweddol yn 2021/22 o ganlyniad i amrywiadau mewn capasiti gweithredol o ganlyniad i'r newid yn y pandemig COVID-19. Er gwaethaf yr heriau hyn, parhaodd y llwybrau diagnostig a thriniaeth i gael eu darparu gydag arloesedd a datblygiad mewn llawer o arbenigeddau i helpu gwella mynediad a phrofiad i gleifion cancer.

Mae gweithredu'r Llwybr Canser Sengl yn 2020 yn parhau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad teg at wasanaethau ac mae'n ysgogiad ar gyfer gwelliant parhaus o ran profiad a mynediad at wasanaethau diagnostig a thriniaeth.

Yn dilyn blwyddyn o alw gostyngol, gwelodd Mawrth 2021 gynnydd cyflym mewn atgyfeiriadau, gan ddychwelyd y cyfraddau atgyfeirio i'r ystodau disgwylidig a thu hwnt. Parhaodd y galw hwn drwy gydol y flwyddyn, er gwaethaf newidiadau yn yr amgylchedd COVID sy'n galonogol iawn. Ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau, sefydlodd 2021 record newydd ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Mae rheoli'r lefel hon o alw o fewn y pandemig parhaus wedi bod yn her a bu angen arloesi i sicrhau bod cleifion yn cael profion diagnostig yn y modd cyflymaf posibl.

Mae cyflawni'r targed 62 diwrnod o amheuaeth i driniaeth cancer yn parhau i fod yn brif ffocws ar gyfer gwasanaethau cancer. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ni lwyddwyd i gyrraedd y trothwy pasio o 75%, er gwaethaf arwyddion addawol ym mis Mai a mis Awst. Effeithiwyd yn arbennig ar berfformiad yn rhan olaf y flwyddyn gan gynnydd mawr yn y galw, ynghyd â



chyfnodau o absenoldeb staff uchel o ganlyniad i COVID-19. Mae gwasanaethau'n gweithio i fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth capasiti tra hefyd yn cydbwysu adferiad neu wasanaethau arferol.

Mae adferiad y rhestrau aros cancer yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2022/23. Cyflawnir hyn gyda ffocws ar wella amseroedd mynediad i apwyntiadau cyntaf ac amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig. Bydd hyn yn ei dro yn chwarae rhan hanfodol wrth wella'r cyfraddau cydymffurfio i'r trothwy pasio o 75%. Mae'r gwaith gwella hwn yn cael ei gefnogi gan ddatblygiadau newydd mewn meddalwedd atgyfeirio ac offer cynllunio Deallusrwydd Artiffisial, a fydd yn cefnogi gwasanaethau i gynnal capasiti digonol.

Mae Gwasanaethau Cancer yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gyflawni a'r Bwrdd Cancer i ddarparu'r seilwaith gweithredol angenrheidiol i gefnogi cynaliadwyedd capasiti diagnostig. Bydd agor yr Uned Cancer y Fron newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr yn chwarae rhan bwysig wrth wella mynediad a phrofiad cleifion ar gyfer pob atgyfeiriad cancer y fron, gyda chynlluniau recriwtio arloesol yn cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r heriau staffio presennol.

Mae cynlluniau datblygu ar gyfer Canolfan Ganser Nevill Hall yn mynd rhagddynt yn gyflym gyda phwyslais ar y cyd ar wella profiad cleifion a mynediad i'n cymuned. Yn dilyn cymeradwyaeth ym mis Hydref ar gyfer cyllid sylweddol ar gyfer y Gwasanaeth Cancer Diagnostig Cyflym, mae cynlluniau ehangu ar y gweill a fydd yn gweld y gwasanaeth yn rhedeg o Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent.

## **Llawfeddygaeth Gyffredinol**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol wedi parhau i flaenoriaethu gofal a thriniaeth ar gyfer y rhai yr amheuir bod cancer arnynt neu sy'n profi cancer. Mae darparu gwasanaeth cadarn yn parhau i fod yn heriol a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael diagnosis a thriniaeth mewn modd amserol.

Roedd targed triniaeth llwybr Lle'r Amheuir Cancer Gastroberfeddol Uchaf o 62 diwrnod ar gyfartaledd yn 58% dros y flwyddyn flaenorol gyda chanserau wedi'u cadarnhau yn cael eu trin gan ein partner Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Ar gyfartaledd, mae ein cleifion yn aros dim ond 14 diwrnod o atgyfeiriad i'r gwasanaeth i apwyntiad claf allanol ymgynghorydd.

Roedd cydymffurfiaeth colorefrol ar gyfartaledd yn 42.4% ar gyfer y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau. Ym mis Gorffennaf 2021 gwelwyd y nifer uchaf o atgyfeiriadau a gofnodwyd gyda chynnydd o 46% ar gyfartaleddau cyn pandemig.

Mae'r galw parhaus hwn wedi herio'r gwasanaeth i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, o gynyddu apwyntiadau rhithwir, ehangu'r Gwasanaeth Syth i Brawf ac ailstrwythuro'r Tîm Aml-ddisgyblaethol. Mae diagnosis a thriniaeth yn dal i fod yn rhwystr i welliant, fodd bynnag dylai allanoli endosgopi a gwaith parhaus y Gyfarwyddiaeth i wneud y mwyaf o gapasiti theatrau drosi i fynediad cyflymach at wasanaethau i gleifion yn y flwyddyn i ddod.

Cydymffurfiwyd 60% ar gyfartaledd gan Wasanaeth y Fron yn 2021/22, eto cyrhaeddodd cyfraddau atgyfeirio lefel heb ei hail gydag atgyfeiriadau 47% yn uwch ym mis Medi 2021 na chyn pandemig. Ar y cyd â galw uchel, effeithiwyd ar y gwasanaeth hefyd gan leihad mewn gweithgarwch oherwydd absenoldeb staff a'r heriau o ran recriwtio radiolegwyr â chymwysterau a phrofiad addas.

Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2022, penodwyd dau Lawfeddyg y Fron Ymgynghorol newydd i'r tîm, gan ychwanegu capasiti mawr ei angen at y gwasanaeth. Mae addasiadau diweddar hefyd wedi'u gwneud i gynlluniau swyddi Radiolegwyr y Fron a ddylai helpu gofalu'n amserol am gleifion ac mae rhagor o recriwtio Radiolegwyr ar y gweill. Bydd agoriad arfaethedig Uned Gofal Bronnau Unedig yn Ysbyty Ystrad Fawr yn gynnar yn Haf 2023 yn cynnig canolfan ragoriaeth canser y fron a fydd yn gwella gofal, profiad a chanlyniadau cleifion ymhellach.

## Wroleg

Mae pob atgyfeiriad yn cael ei frysbennu'n glinigol yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu mynediad i apwyntiadau Haematwria 1 stop o 30 yr wythnos i 50, oherwydd cynnydd yn y galw, o'r wythnos yn dechrau 6 Mehefin 2022. Roedd amseroedd aros yn fwy na 25 diwrnod. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau hyd aros i lai nag 1 wythnos.

Yn unol â'r llwybrau gorau posibl, bydd y gwasanaeth syth i MpMRI ar gyfer amheuaeth o ganser y brostad yn cael ei weithredu ar ôl recriwtio Nyrs Glinigol Arbenigol ychwanegol. Bydd hyn yn lleihau'n sylweddol yr amser i ddiagnosis ar gyfer cleifion y brostad sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu fwyaf at doriadau. Bwriedir rhoi'r gwaith hwn ar waith ym mis Gorffennaf 2022.

Drwy symleiddio pen blaen y llwybrau hyn a chyda'r gwelliannau hyn mae'n debygol y bydd cydymffurfiaeth perfformiad yn cynyddu i 70%-75%.

## Pen a Gwddf

Yn dilyn cyfnod o alw wedi'i atal trwy gydol 2020, cynyddodd atgyfeiriadau'n sylweddol ym mis Mawrth 2021 a chynhaliwyd y cynnydd hwn trwy gydol y flwyddyn. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae cyfraddau atgyfeirio yn parhau i fod tua 10% yn is na chyfraddau cyn-bandemig sy'n destun pryder. Ni chyflawnodd y gwasanaeth y trothwy pasio o 75% yn ystod y flwyddyn, ond gwelwyd gwelliannau sylweddol ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Mae'r pwysau a welwyd ar wasanaethau gofal brys wedi cael

effaith sylweddol ar y Gwasanaeth Canser y Pen a'r Gwddf oherwydd yr angen am welyau yn Ysbyty Athrofaol y Grange. Mae'r flwyddyn i ddod yn cynnwys cynlluniau i adleoli gwasanaethau diagnostig o YAG a fydd yn gwella capasiti gwelyau a mynediad i gleifion yr amheuir bod canser arnynt. Mae mwy o gapasiti cleifion allanol hefyd yn cael ei ryddhau ar gyfer canserau a amheuir a fydd yn gwella mynediad cynnar i gleifion.

## **Gofal Llygaid**

Datblygwyd mesurau gofal llygaid i sicrhau bod cleifion dilynol yn cael blaenoriaeth briodol ochr yn ochr â chleifion newydd. Mae'r mesurau yn ei gwneud yn ofynnol i bob claf offthalmig gael dyddiad targed wedi'i bennu'n glinigol ar gyfer y digwyddiad clinigol nesaf a chategori o flaenoriaeth glinigol yn seiliedig ar y risg o ganlyniad anffafriol anwrthdroadwy sy'n gysylltiedig â'u cyflwr(au) clinigol. Y categorïau risg/blaenoriaeth hyn yw:

- R1: Risg o niwed di-droi'n-ôl/canlyniad anffafriol sylweddol i'r claf os methir â chyrraedd dyddiad targed claf.
- R2: Risg o niwed cildroadwy/canlyniad andwyol os methir dyddiad targed claf.
- R3: Dim risg o niwed arwyddocaol.

Yn ystod y Pandemig dim ond cleifion R1 a welwyd wyneb yn wyneb yn y clinig. Lleihawyd y niferoedd yn y clinig oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol ac absenoldeb nifer o staff ymgynghorol oherwydd cysgodi. Cymeradwywyd cyllid wedi hynny i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y gwasanaeth AMD Gwlyb h.y. apwyntiadau dilynol gohiriedig sy'n arwain at ddigwyddiadau difrifol oherwydd bod cleifion yn colli eu golwg yn barhaol, sydd wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i roi ffyrdd newydd o weithio ar waith drwy recriwtio a hyfforddi nyrsys sy'n chwistrellu a chynyddu capasiti trwy glinigau ychwanegol mewn ysbytai ymylol. Mae gan y gyfarwyddiaeth hefyd gynlluniau i gynyddu nifer y chwistrellwyr trwy hyfforddi optometryddion.

## **Gweithredu Haenid Risg Coleg Brenhinol y Llawfeddygon**


Cyflwynodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) ganllawiau ar sut a pha lwybrau y dylid eu blaenoriaethu. Mae newidiadau i ymgorffori'r flaenoriaeth risg RCS y cytunwyd arni ar System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) genedlaethol wedi galluogi gwasanaethau i gymhwyso cod risg o P2, P3 neu P4 i'r cleifion hynny sy'n aros am driniaeth ar restr aros cleifion mewnol neu achosion dydd gyda P2 risg uchaf.

Roedd rhestrau aros ar gyfer pob arbenigedd llawfeddygol yn cael eu hadolygu gan feddygon ymgynghorol yn unol â meini prawf RCS a dyrannwyd y flaenoriaeth briodol i bob claf. Mae prosesau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl gleifion sy'n cael eu hychwanegu at y rhestr aros am driniaeth yn cael eu blaenoriaethu wrth eu hychwanegu. Yn ogystal, mae prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer diwygio unrhyw geisiadau gan feddygon teulu am adolygiadau blaenoriaeth lle bo'n briodol.

Mae capasiti wedi'i gynllunio ac yn canolbwyntio ar drin y cleifion hynny y maent wedi'u blaenoriaethu fel y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed. Fel rhan o'r broses haenu risg, rhaid i gleifion gael eu hailasesu pan fyddant yn cyrraedd y dyddiad targed â blaenoriaeth.

93% yw'r gydymffurfiaeth gyffredinol gyfredol â blaenoriaeth risg a gymhwysir i restrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd, gyda 9% yn cael ei blaenoriaethu fel P2.

## Amseroedd o Atgyfeirio i Driniaeth – Gofal Dewisol



O'r 32,202 o gleifion a fu'n aros dros 36 wythnos ar ddiwedd mis Mawrth 2022, mae'r tabl isod yn dangos bod tua 18,000 o'r rheini ar y cam rhestr aros cleifion allanol newydd. Mae yna hefyd 18,759 yn aros dros 52 wythnos gyda 8,390 o'r rheiny yn y cam rhestr aros cleifion allanol newydd. O'r 18,759 o gleifion a fu'n aros dros 52 wythnos, mae 6,989 o'r cleifion hynny wedi bod yn aros dros 104 wythnos gyda 1,606 o'r rheini ar y cam rhestr aros cleifion allanol newydd.

Bandiau wythnos	1 RhA Cleifion Allanol	2 Diagnostig	2 Therapi	3 Dilyniant	4 RhA Achos Dydd	4 RhA Cleifion Preswyl
	47,538	2,589	190	4,512	8,437	2,405
	9,585	713	37	761	1,907	648
	9,556	575	33	486	1,672	1,111
	6,762	450	51	612	2,055	1,840
	1,606	393	42	260	2,547	2,141
<b>Cyfanswm</b>	<b>75,047</b>	<b>4,720</b>	<b>353</b>	<b>6,631</b>	<b>16,618</b>	<b>8,145</b>

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gomisiynu triniaethau dewisol a chleifion allanol gydag Ysbyty St. Joseph a thriniaethau offthalmoleg gyda Care UK. Mae cyfleoedd yn parhau i gael eu harchwilio ar gyfer capasiti ychwanegol, ynghyd â chyfleoedd eraill i gyflenwi'n allan/mewnol a gweithio rhanbarthol. Bydd hyn yn allweddol i sicrhau y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu ymateb i'r rhaglen o Flaenoriaethau Gweinidogol diwygiedig sydd wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ar gyfer 2022/23 a'r tymor hwy.

Er bod y sefyllfa hon yn cyflwyno heriau digynsail o ran adferiad a bydd angen ffyrdd newydd o weithio, mae system newydd y Bwrdd Iechyd a'r capasiti corfforol ychwanegol sydd ar gael yn darparu rhai cyfleoedd ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

Mae isadrannau gweithredol a thimau cymorth wedi gweithio ar y cyd i ailgychwyn gwasanaethau lle bynnag y bo modd, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio i gynyddu capasiti a thrin y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae'r cynlluniau triniaeth Ddewisol yn esblygu gyda chapasiti yn gwella'n

raddol wrth i'r gofyniad i staff Theatrau gefnogi wardiau a Gofal Critigol leihau. Yn ogystal, mae'r Is-adran Gofal wedi'i Drefnu wedi cyflwyno nifer o fesurau i gefnogi'r gwaith o reoli llwybr "gwyrdd" ar draws ein hysbytai. Mae'r mesurau hyn yn diogelu rhywfaint o gapasiti triniaeth, ond wrth i gyfyngiadau cenedlaethol newid dros y misoedd nesaf, mae'r rhain yn debygol o gael eu hadolygu i gynnal yr amddiffyniad hwn.

Rydym wedi bod yn greadigol yn ein hagwedd at ofal wedi'i gynllunio gyda hyblygrwydd yn seiliedig ar alw cleifion.

Mae'r POCU (Uned Gofal Ôl-lawdriniaethol) yn Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) wedi'i sefydlu i alluogi lefelau uwch o lawdriniaethau cynlluniedig risg uwch i ddigwydd yn yr eLGH, gyda chleifion yn cael eu trin yn ddiogel ar y safle. Mae model Ymarferydd Trosglwyddo (sy'n rhedeg am 12 awr y dydd ar hyn o bryd) wedi'i gymeradwyo i'w ehangu i gwmpasu 24 awr 7 diwrnod yr wythnos, a fydd yn arwain at ymateb system gyfan i glaf sydd angen gofal brys uwch neu ofal brys annisgwyl dilynol yn cael ei atgyfnerthu.

Mae llawer o systemau cynlluniedig yn dychwelyd ar-lein ac yn blaenoriaethu lleihau rhestrau aros.


Mae gwelliannau mewn gweithgarwch diweddar yn dechrau dangos yn y data, ac ymdrinnir â'r cleifion hynny sydd wedi mynd dros 36 wythnos, gyda chyfanswm y niferoedd hyn yn gostwng bron i 4500 rhwng Awst 2021 a Rhagfyr 2021, sef gwelliant o 12% yng nghyd-destun yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru yn cynnal eu sefyllfa.

## **Gwasanaethau Diagnostig**

Mae capasiti'r gwasanaeth yn cynyddu'n raddol ar gyfer yr holl gleifion, er bod yr ôl-groniad o gleifion sydd angen eu gweld ac sydd angen diagnosteg o ganlyniad yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau. Gostyngodd y sefyllfa dros 8 wythnos ym mis Mawrth 2022.

Gydag agoriad cynnar Ysbyty Athrofaol y Grange ym mis Tachwedd 2020, enillodd y Gyfarwyddiaeth Radioleg gapasiti sganio dewisol a gyda chymorth pellach gan ddarparwr preifat rydym wedi gallu mynd i'r afael i raddau helaeth ag ôl-groniad ac mewn gwirionedd wedi gwella mynediad/gweddnewid ar gyfer ymchwiliadau diagnostig arferol.

## Cleifion yn aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnosis penodedig



### Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau Iechyd Meddwl yn cynyddu o ganlyniad i'r pandemig a thros y cyfnod bu cynnydd yn y galw am ofal sylfaenol. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ystod o adnoddau cymunedol rhagorol i gefnogi unigolion i helpu eu hunain heb fod angen atgyfeiriad trwy ein Haen Sylfaenol a thrwy ddatblygu gwefan MELO.

Yn ystod 2021/22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu gweithlu newydd sbon yn llwyddiannus i alluogi gofal sylfaenol i fodloni'r galw am iechyd meddwl yn well gyda datblygiad Ymarferwyr Lles Seicolegol (PWP) yn seiliedig ar Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i gyflwyno'r gwasanaeth PWP er mwyn cefnogi practisau meddygon teulu gyda chapasiti ac arbenigedd priodol ar gyfer y cleifion hynny y gallai darparwyr gofal iechyd perthynol ddiwallu eu hanghenion iechyd meddwl yn fwy darbodus. Ystyriwyd bod cysylltu'r gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyn yn uniongyrchol â phractisau, fel rhan o'r tîm gofal sylfaenol, yn bwysig er mwyn gwreiddio'r rolau hyn yn llawn a'i gwneud yn haws i bobl gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt, pryd a ble y mae arnynt ei angen. Er bod atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol wedi dychwelyd i lefelau cyn-bandemig, mae Ymarferwyr Lles Seicolegol bellach yn cynnal tua 1400 o asesiadau'r mis sy'n awgrymu bod y gwasanaeth hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at helpu i ateb y galw cynyddol.

Parhaodd yr holl wasanaethau iechyd meddwl i gael eu darparu ar draws yr ystod lawn o wasanaethau iechyd meddwl oedolion ac oedolion hŷn trwy gydol y pandemig gyda mwyafrif y gwasanaethau yn parhau i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mabwysiadodd nifer o wasanaethau fodel hybrid o wasanaethau wyneb yn wyneb a rhithwir, gan roi mwy o ddewis i gleifion o ran sut y gellir eu gweld.

O fewn ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol (PCMHSS) mae tua 70% o'r holl weithgarwch yn dal i gael ei ddarparu'n rhithwir. Mae ystod o ymyriadau grŵp hefyd wedi'u datblygu a'u darparu'n rhithwir yn PCMHSS a Seicoleg. Mae'n debygol y bydd y cynnig rhithwir wrth symud ymlaen yn

dod yn rhan o fodel hybrid o ddarparu gwasanaethau ar gyfer llawer o wasanaethau, yn dibynnu ar anghenion cleifion a gwasanaethau.

Mae'r pandemig wedi darparu heriau o ran y gweithlu a darparu gwasanaethau sydd wedi arwain at amseroedd aros cynyddol mewn nifer o arbenigeddau ac mae Ymyriadau Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol wedi'u heffeithio'n arbennig. Datblygwyd cynlluniau i gomisiynu capasiti cwnsela ychwanegol ond mae'r darparwyr a gomisiynwyd hefyd wedi wynebu'r un heriau gweithlu ac mae'r gostyngiad yn y rhestr aros wedi bod yn llawer llai na'r hyn a gynlluniwyd. Mae cynlluniau pellach yn cael eu datblygu ar gyfer 2022/23 i leihau amseroedd aros er mwyn galluogi targedau cenedlaethol i gael eu cyflawni dros y flwyddyn nesaf.

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r llwybr argyfwng er mwyn darparu ystod o ddewisiadau amgen i dderbyniadau, gan gynnwys datblygu gwasanaeth Noddfa, agor tŷ cymorth mewn argyfwng ac ymestyn Cysylltu Bywydau ar draws yr holl wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae pob un o'r gwasanaethau hyn wedi gwneud cyfraniad pwysig at reoli'r galw am welyau cleifion mewnol yn ystod yr amrywiad Omicron brig a'r pwysau cysylltiedig ar ein gwasanaethau cleifion mewnol a'n gweithlu.

Amlinellir rhai o uchafbwyntiau gwasanaethau Iechyd Meddwl yn fanylach isod.

Lansiwyd **gwasanaeth 'Noddfa yn yr Adran Achosion Brys'** MHLDD ym mis Rhagfyr 2021, gyda chyllid ar gael tan ddechrau haf 2022. Mae Gweithwyr Cymorth Cyfoedion yn mynychu'r Adran Achosion Brys yn YAG, o ddydd Iau i ddydd Sul, rhwng 4pm a hanner nos. Maent yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i unigolion sy'n cyrraedd mewn trallod emosiynol. Rhagwelir y bydd y canlyniadau'n lleihau nifer y cleifion sy'n gadael cyn asesiad oherwydd amseroedd aros hir ac yn gwella ansawdd y wybodaeth a'r cymorth a dderbynnir gan gleifion sy'n gwneud cais am gymorth iechyd meddwl neu sydd angen cymorth iechyd meddwl arnynt. **Mae 92 o gleifion wedi cael eu cefnogi drwy'r gwasanaeth hwn hyd yn hyn ac mae adborth gan gleifion, staff adrannau brys a mentoriaid cymheiriaid wedi bod yn gadarnhaol iawn.**

Agorodd **Tŷ Cynnal**, ein **Tŷ Cymorth Argyfwng** ar gyfer Gwent, ei ddrysau i ddefnyddwyr gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2021. Mae Gwesteion mewn Argyfwng Iechyd Meddwl, y nodir bod yr opsiwn hwn yn ddiogel ac yn briodol ar eu cyfer, yn aros am hyd at 14 diwrnod, fel dewis amgen i arhosiad claf mewnol ar ward aciwt. Darperir cymorth ymarferol ychwanegol yn ystod yr arhosiad, gyda'n Tîm Tai Rhanbarthol a Phartneriaid eraill megis Cyngor ar Bopeth.

**Mae'r tŷ wedi croesawu 13 o bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yn ystod Rhagfyr a Ionawr.** Cafwyd adborth adeiladol a chadarnhaol. Dywedodd aelod o deulu un gwestai *"Ni allaf ddiolch digon i chi am eich cefnogaeth - teimlaf fod arhosiad yn y tŷ wedi achub eu bywyd."*

Mae ein gwasanaeth **Cysylltu Bywydau** yn parhau i ehangu. Gwasanaeth cydweithredol gydag Awdurdodau Lleol, lle mae Defnyddwyr Gwasanaeth, yr asesiwr eu bod yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer yr opsiwn hwn, yn aros gyda theuluoedd lletyol, yng nghartref y teulu. **Hyd yma mae 86 o unigolion wedi aros gyda theuluoedd lletyol**, ac mae eu harhosiad yn ddewis amgen i ward aciwt cleifion mewnol.

Hyd arhosiad cyfartalog gyda theuluoedd ar hyn o bryd yw 13 diwrnod. Mae 81% o ddefnyddwyr yn nodi gwelliant dibynadwy yn eu hadferiad parhaus ar ôl arosiadau. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cydnabyddiaeth broffesiynol a chyffredinol yn y cyfryngau. Roedd gan y WHO (Sefydliad Iechyd y Byd) erthygl yn ddiweddar, a'r sylw diweddaraf yn lleol oedd Stacey Dooley, a

ymwelodd â chartref lletywr gyda Gwesteion tymor hwy. Mae hwn ar gael o hyd i'w [lawrlwytho o BBC Sounds](#)

## **Dathlu Proffesiynau: Diwrnod Nyrsys Iechyd Meddwl – 21/02/2022**

Cafodd hyn ei gydnabod a'i ddathlu'n rhagweithiol. Rhoddodd Nyrsio Corfforaethol gerdd hyfryd, i'n Nyrsys Iechyd Meddwl, a ysgrifennwyd gan Tanya Strange. Cynhaliwyd gweithgareddau Covid ddiogel yn rhithwir ac ar wardiau o fewn canllawiau pandemig. Cynhaliodd y Wardiau weithgareddau cydweithredol gyda chleifion, megis coffi a chacen ac **roedd Elvis yn yr adeilad** yn bersonol 'ddwywaith' yn rhannu ychydig o gerddoriaeth a llawenydd ar Wardiau Sant Cadog i ddathlu.

### **Cydweithrediad Llesiant – ar gyfer Cydweithwyr a Defnyddwyr Gwasanaeth**

Mae'r 'Prosiect Ffenestr ar y Byd' ar y gweill. Yn gydweithrediad 'Celfyddyd Mewn Iechyd' rhwng MHLD a GARTH, cyflwynir y prosiect gydag artistiaid o Ganolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar les cleifion a staff, trwy wella amgylcheddau coridor Ysbyty Sant Cadog gyda phrintiau mawr wedi'u hatgynhyrchu o waith celf gwreiddiol a wnaed gan gleifion a staff mewn sesiynau ymlaen a sesiynau galw heibio y gwanwyn hwn. Anogir yr holl staff a defnyddwyr y safle i gymryd rhan, a bydd y 'fffenestri lluniau' a grëir yn cael eu hargraffu ar fwrdd ewyn gwrth-ficrobaidd cynaliadwy ar gyfer ardaloedd coridor Ysbyty St Cadog. Mae'n agored i bob cydweithiwr a defnyddiwr gwasanaeth sy'n ymweld â'r wefan i gyfrannu ato.

Mae sesiynau i greu gwaith celf wedi'u cynnal ar wardiau a sesiynau galw heibio i staff (dan arweiniad diogel) a byddant yn parhau trwy fis Mawrth ac Ebrill. Mae yna rai ffenestri hyfryd iawn hyd yn hyn. Mae canlyniad allweddol o hyn hefyd yn ymwneud â'r Llesiant a brofir wrth gymryd rhan. Mae adborth hyd yn hyn yn dangos bod pobl wedi mwynhau'r gweithgaredd hwn, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr gyda'i gilydd. Hyd yn hyn mae cyfranogwyr wedi dweud ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n 'ymlaciadedig' 'hapus', maent yn ei ddisgrifio fel 'hwyl' 'ddim yn frawychus' 'ystyriol' 'braf i dreulio amser yn gwneud rhywbeth gwahanol gydag eraill' mae ymatebwyr hyd yma wedi graddio ei fod yn brofiad 5 seren.

Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu hefyd wedi cefnogi lles cydweithwyr.

Wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r galw i baratoi ac amddiffyn gweithlu'r GIG yn seicolegol yn ystod y pandemig COVID-19, mae'r dull **Psych PPE©** yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles staff gan ganiatáu i unigolion lunio eu cynllun hunanofal personol a'u harferion i amddiffyn eu lles. Mae'r fenter wedi'i hariannu drwy arian Adferiad Covid i'w symud ymlaen yn yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi dau weithdy 'PsychPPE© - Hyfforddi'r Hyfforddwr' i gael eu cynnal gyda 25 o gydweithwyr yn bresennol. Mae'r rhaglen bellach wedi sefydlu carfan o Gydlynwyr Lles hyfforddedig a bydd y rhain yn hwyluso cyfres o weithdai gyda staff i raeadru'r ymagwedd hon at hunangymorth a lles ar draws yr Is-adran Iechyd Meddwl ac AD.

Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid ar gyfer **Bws Llesiant Prosiect Wingman** ac mae criwiau hedfan yn bwriadu mynychu safleoedd yn gynnar yn yr haf.

Ymwelodd criwiau Prosiect Wingman ag MHLD yng nghyfnod cychwynnol y pandemig. Maent yn elusen sy'n cefnogi lles yng Ngweithlu'r GIG. Yn grŵp o wirfoddolwyr criw awyr presennol a blaenorol o bob cornel o hedfanaeth, maen nhw'n cynnig triniaeth caban dosbarth cyntaf cwmni hedfan i staff y GIG mewn gofod moethus lle gallant orffwys ac ailwefru.

Mae gennym rai heriau o ran ein hystâd, ac rydym wrth ein bodd bod gan y criw hwn bellach lolfa symudol ar gael i'w defnyddio. Mae'n fws deulawr wedi'i drawsnewid yn arbennig ac wedi'i frandio'n llawn, gyda gardd dros dro. Mae'n darparu gofod hamddenol, anffurfiol ac amlbwrpas i gynnyg y gwasanaeth.

Mae'r bysiau'n gyfyngedig ac mae galw mawr amdanynt ledled y DU. Ni yw'r cyntaf i sicrhau ymweliad yng Nghymru. Bydd MHLD yn arwain y gweithgaredd ac yn alinio cyfleoedd lles eraill gyda'r ymweliadau. Rhagwelir y bydd yr ymweliad yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, a bydd y bws yn aros ar safleoedd ein Bwrdd Iechyd i'w ddefnyddio dros 2 wythnos.

### Profiad y Claf: Gwrando a Dysgu o Adborth

Mae profiad pobl yn ystod COVID-19 wedi cael ei effeithio gan y pandemig, yn yr ysbyty ac ar draws y gymuned. Elfen hanfodol o ofal diogel a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw gwrando ar brofiadau pobl ac ymateb iddynt. Ers dechrau'r pandemig mae nifer o arolygon profiad cleifion wedi'u cynnal i ddeall profiad cleifion yn well ar draws y Bwrdd Iechyd. Ymgwymerwyd â'r rhain trwy ymweliadau uniongyrchol (lle roedd cyfyngiadau ymweld yn caniatáu), trwy 'gyfeillio' rhithwir gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned (lle cysylltwyd cleifion ag Aelod CIC trwy iPads) ac arolygon post. Darparodd 782 o bobl adborth drwy'r dulliau hyn.

Ion 2021	Gofal yn y Cartref – Gofal Cymhleth	Ymgysylltu Rhithwir	15
Ion 2021	Clefyd Huntington Cymunedol	Arolwg Post	12
Ionawr 2021	Nyrsys Ardal	Arolwg Post	158
Mawrth 2021	Wardiau YAG	Ymgysylltu Rhithwir	32
Mai/Mehefin 2021	Cipolwg Presenoldeb yr Adran Achosion Brys dros 3 diwrnod	Presenoldeb Corfforol	56
Mehefin 2021	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu mewn Cleifion	Ymgysylltu Rhithwir	42
Hyd 2021	Canser y Pen a'r Gwddf - YAG	Arolwg Post	27

Darparodd pob un o'r arolygon hyn adborth hynod gadarnhaol yn ymwneud ag agwedd staff a gofal tosturiol, gyda llawer o ymatebwyr yn nodi bod staff yn mynd 'tu hwnt i'r galw' yn ystod cyfnod heriol iawn.

Y prif themâu a nodwyd trwy adborth cleifion yw:

**A. Cyfathrebu a gwybodaeth**, yn benodol gallu perthnasau i gysylltu â wardiau

Yn ogystal â chyflogi mwy o glercod ward, cyflwynwyd Swyddogion Cyswllt Cleifion ar gyfer pob safle ysbyty, gyda rôl benodol yn cefnogi cyfathrebu rhwng wardiau a pherthnasau, ac maent wedi'u hystrebu i fis Mehefin 2022. Mae pob ward wedi cael i-wardiau i gefnogi cysylltiad digidol cyfathrebu cleifion.

**B. Unigrwydd ac arwahanrwydd** – wedi'i waethygu gan ymweliadau cyfyngedig ac absenoldeb gwirfoddoli ar wardiau

Yn dilyn asesiadau risg COVID Cymru Gyfan, mae gwirfoddolwyr wedi cael eu hailgyflwyno i wardiau. Mae ymweliadau â phwrpas wedi'u rhoi ar waith.

### **Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS)**

Mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi cefnogi wardiau drwy siarad â chleifion i gasglu Arolygon Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS). Codir unrhyw faterion brys gyda'r staff ar adeg yr ymweliad yn ogystal ag adborth cychwynnol. Yna caiff adroddiad llawn ei gynhyrchu a'i rannu â staff y ward. Mae hyn yn galluogi staff i ddarganfod beth sy'n bwysig i gleifion a beth ellir ei wneud i wneud gwelliannau. Mae hefyd yn rhoi adborth cadarnhaol i staff sydd o fudd i forâl staff. Mae dadansoddi'r PREMs yn caniatáu i themâu gael eu nodi. Mae'r tîm wedi cefnogi Uned Holly yn Ysbyty St Woolos a B3 yn YBG. Mae cynlluniau i gefnogi wardiau yn y Sir gyda PREMS ym mis Ebrill.

### **Prawf o Gysyniad yn Ysbyty Aneurin Bevan (YAB)**

Mewn ymateb i'r effaith arsylladwy a goddrychol a gafodd y Pandemig Covid ar ofal cleifion yn wardiau'r ysbyty cyffredinol, cychwynnodd Prawf Cysyniad (PoC) a Gwerthusiad Gwasanaeth yn Ysbyty Aneurin Bevan (YAB) ar 1 Gorffennaf 2021. Drwy fesurau canlyniadau y cytunwyd arnynt yn lleol, nod y PoC a'r Gwerthusiad Gwasanaeth oedd cyflwyno amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi gofal dementia. Y nod yw gwerthuso a fyddai cyflwyno gweithgaredd ystyrlon, dysgu a hyfforddiant dementia i staff a chreu Gwirfoddolwyr Cydymaith Dementia gyda'i gilydd yn gwella ansawdd cyffredinol gofal, diogelwch cleifion, profiad y claf a chymorth i drosglwyddo'r cynllun hwn i wardiau ac adrannau eraill yn y Bwrdd Iechyd.

Gan gefnogi 'ymweld â phwrpas', mae Ymgyrch Johns wedi'i lansio ar draws y 3 ward yn YAB. Mae tystiolaeth glir bod staff wardiau yn ymgysylltu'n rhagweithiol â pherthnasau ac yn hwyluso ymweliadau. Yn dilyn derbyn

hyfforddiant, mae posteri yn nodi bod pob ward bellach yn 'Gyfeillgar i Dementia' a dynodi Hyrwyddwyr Dementia ar wardiau bellach i'w gweld. Anogir staff y ward i ofyn i berthnasau gwblhau'r ddogfennaeth *Dyma Fi* i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r angen i hyrwyddo cwblhau *Dyma Fi* yn gynharach yn llwybr gofal yr unigolyn wedi'i nodi drwy'r gwerthusiad ac mae bellach yn gam gweithredu o fewn y Gwasanaeth Asesu'r Cof a'r Grŵp Llwybr Dementia.

## **Cymdeithion Diwedd Oes (EoLC)**

Bydd gan gleifion ar ddiwedd eu hoes gynllun gofal i fynd i'r afael â'u hanghenion clinigol. Gall fod yn anoddach sicrhau bod anghenion llesiant person yn cael eu diwallu. Mae pryder bod rhai cleifion mewn perygl o farw ar eu pen eu hunain oherwydd nad oes ganddynt deulu neu ffrindiau neu nad yw eu hanwyliaid yn gallu bod gyda nhw. Mae'r EoLCs yn wirfoddolwyr sydd wedi'u recriwtio a'u hyfforddi'n benodol i ddarparu cwmniâeth ar yr adeg sensitif hon. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn darparu cymorth i berthnasau y gallai fod angen iddynt gael seibiant ond nad ydynt am i'w hanwyliaid fod ar eu pen eu hunain. Mae 40 o gymdeithion wedi'u recriwtio. Mae'r EoLCs wedi parhau i fod yn weithgar, gan gefnogi cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae cyflwyniadau ar y fenter wedi'u rhoi mewn grwpiau Diwedd Oes Cenedlaethol.

## **Gwirfoddoli**

Er gwaethaf y pandemig mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi parhau i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae Asesiad Risg Covid Gweithlu Cymru Gyfan, Map Ffordd Prifysgol Glasgow ac asesiad risg meddygol ALAMA wedi galluogi gwirfoddolwyr risg isel i ddychwelyd yn ddiogel i gefnogi cleifion. Mae 60 o wirfoddolwyr gweithgar ar y wardiau (gan gynnwys cyfeillion, EoLC a Chymdeithion Dementia) a 100 o gyfeillion ffôn. Pan fydd risgiau'n lleihau gall y gwirfoddolwyr a warchodir gan yr asesiadau risg ddychwelyd i'w rolau a bydd y cyfeillion cymunedol yn gallu dychwelyd i gefnogi pobl sydd angen cwmni yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r recriwtio, gyda chefnogaeth GAVO a TVA, yn parhau.

Dangosodd y pandemig anghenion a buddion gwirfoddolwyr ar y wardiau i gleifion ac mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i ddatblygu rolau newydd i wirfoddolwyr fel 'Cydymaith Dementia', 'Gwirfoddolwr Cysylltu' a 'Gwirfoddolwr Llywio'.

## **Eiriolwyr Dementia**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo rhaglen Eiriolwyr Dementia. Mae'r rhain i gyd yn raddau a disgyblaethau staff sy'n gwirfoddoli i ymgymryd â'r rôl i gefnogi a gwella gofal dementia yn eu ward neu adran. Mae Eiriolwyr Dementia wedi cynyddu o 89 i 119 o aelodau rhwng 2021 a Mawrth 2022. Mae rhestr ddsbarthu e-bost wedi'i datblygu i alluogi rhannu gwybodaeth, adnoddau a diweddariadau i ac o'r wardiau a rhwng y Tîm Gofal sy'n






Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Bydd y gweithdai hyrwyddo a gynllunnir yn adeiladu ar y rhaglen ddysgu, yn codi proffil Eiriolwyr Dementia ac yn cefnogi rhwydweithio. Mae bathodynau pin Eiriolwyr Dementia wedi'u dylunio/prynu a byddant yn cael eu rhoi yn dilyn hyfforddiant eiriolwyr dementia.

## Cydnabod Cleifion â Dementia ar Wardiau Ysbytai (Byrddau Ochr y Gwely)

Ar ôl ymgynghori cwmpasu ac amlddisgyblaethol sylweddol, mae Bwrdd Erchwyn Gwely Cleifion wedi'i ddylunio a'i brisio a chynllun ar gyfer archebu a chodi wrth ochr y gwelyau ym mhob rhan o'r sefydliad. Bydd y cynllun hwn yn cychwyn fesul cam ym mis Ebrill 2022, gan ddechrau gyda ward Gofal yr Henoed, Trawma ac Orthopedig, gyda'r nod o gyrraedd o leiaf 27 ward yn y Cam 1af.

Ar yr olwg gyntaf, bydd y byrddau hyn yn hyrwyddo hoffterau, dewis, risgiau a gofal unigol cleifion. Byddant yn cefnogi cyfathrebu gofalmwyr, cleifion a staff heb beryglu cynllunio gofal clinigol, urddas na pharch ond yn gwella PCC tra ar y ward.



FY NYRS HEDDIW YW:		FY ENW DEWISOL YW:	
IAITH		Saesneg Cymraeg Iaith Arwyddion Prydain	Arall:
CYFATHREBU		Annibynnol Teclynnau clyw Darllen gwefusau Sbectol Angen dehonglydd	Arall:
DIET		Dewislen: Byrbrydau egni uchel Dim diet geneuol Allergedau bwyd:	Annibynnol Angen cymorth Cymorth llawn Dannedd gosod
HYLIFAU		Lefel 1 Lefel 2 Lefel 3 Lefel 4 Cyfyngiad hylif ___ ml Dim hylifau geneuol	Diod dewisol: Te Coffi Siwgr Melysdyd Sgwash
MUDOLEDD		Annibynnol Goruchwyliaeth Arall:	Cymorth Risg o Gwmpo
YSTYRIAETHAU CLINIGOL ERAILL: Cynhyrsach symbolau PSAG perthnasol yma			
BETH SY'N BWYSIG I MI:			
NEGSEUON:			

## Gweithgareddau Ystyrion

Roedd adborth gan gleifion yn ystod y pandemig yn dangos cynnydd mewn diflastod oherwydd cyfyngiadau ymweld a diffyg gweithgareddau ystyrion. Sicrhawyd cyllid i brynu cyfres o weithgareddau ystyrion a oedd yn cefnogi pob claf yn yr ysbyty, yn enwedig y rhai â nam gwybyddol a nam ar y synhwyrau.


Mae adnoddau sy'n cefnogi gweithgaredd ward sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bellach ar gael. Mae adnoddau ar-lein fel croeseiriau print bras, gweithgaredd hel atgofion, Datrys Diflastod ac ati i gyd ar gael i staff trwy dudalennau gwe Ffrind i Mi. Mae hyfforddiant ynghylch pwrpas a gwerth therapiwtig gweithgaredd ystyrion yn hybu'r ddamcaniaeth a sut i ddefnyddio'r adnoddau yn ymarferol. Mae'r gwerthusiad PoC wedi nodi defnydd cynyddol o weithgareddau/technoleg ystyrion i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Mae basgedi gweithgaredd ystyrion yn cynnwys ystod o adnoddau, yn ogystal â doliau empathi, cwtsh, cathod electronig a chŵn. Bydd cam cyntaf

40 basged yn dechrau ym mis Ebrill 2022. Bydd y datblygiad hwn yn cael ei fesur a'i werthuso i nodi profiad cleifion a staff.

## Cynhwysiant Digidol a Thechnoleg Gynorthwyol i Gefnogi Gweithgarwch Ystyrlon



Mae RITAs (Cymorth Technoleg Rhyngweithiol Atgofion) bellach ar gael ar draws holl wardiau BIPAB ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i ymgysylltu â chleifion a lleihau diflastod. Mae hyfforddiant i gefnogi staff/gwirfoddolwyr ychwanegol i'w defnyddio yn parhau. Bellach mae gan bob ward iPads i gefnogi cyfathrebu â chleifion/perthnasau. Mae'r is-grŵp ar gyfer technoleg gynorthwyol yn cefnogi'r agenda cynhwysiant digidol.

### Cynllun Gweithredu Dementia Ysbytai

Mae Grŵp Llywio Dementia Ysbytai ar gyfer Cleifion Mewnol BIPAB bellach wedi'i hen sefydlu ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r arbenigeddau a'r adrannau o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae egwyddorion gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u hymgorffori yn yr agenda ac yn y blaenoriaethau o ran camau gweithredu y mae'r grŵp yn eu llywio ar draws pob ward. Bydd y grŵp hwn yn cefnogi Llwybrau Dementia Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan yn benodol Ffrwd Gwaith 4. Mae hyn yn cynnwys y "Siarter Cyfeillgar i Ysbytai Cymru Gyfan" a gynlluniwyd ar gyfer 6 Ebrill. Gan gefnogi'r Siarter Ysbytai a ragwelir, mae Ysbyty Athrofaol y Grange (YAG) eisoes wedi sefydlu 'Is-grŵp Dementia YAG'. Mae 4 ward wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o Gynllun Peilot Cenedlaethol offeryn gwella wardiau VIP.

### Fframiau Cerdded Lliw

Ym mis Tachwedd 2021, cytunodd y tîm Ffisiotherapi yn Ysbyty Aneurin Bevan i dreialu cyflwyniad y fframiau cerdded lliw i nodi a oedd y fenter hon wedi cael effaith ar brofiad y claf a chwympiadau cleifion. Mae gwerthusiad o'r adroddiad hwn yn mynd rhagddo.

### Storïau Cleifion a Digwyddiadau Dysgu

Mae nifer o straeon digidol cleifion a pherthnasau wedi'u datblygu ac wedi'u defnyddio i hybu ymwybyddiaeth o faterion penodol a wynebier gan gleifion a hefyd wedi'u defnyddio i gefnogi digwyddiadau gwranddo a dysgu. Mae'r straeon hyn wedi bod yn bwerus iawn ac wedi ysgogi'r agenda wella.

### Cysylltiadau Digidol

Ni fu'r angen am gysylltiad erioed yn fwy, yn enwedig i gleifion a'u perthnasau a'u ffrindiau ar adeg pan fo ymweliadau wedi bod mor gyfyngedig. Mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi annog gwirfoddolwyr i hyfforddi fel Cydymaith Digidol i gefnogi cleifion naill ai i ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain neu ddyfeisiau ysbyty i gysylltu ag anwyliaid. Bydd y gofyniad am hyn yn barhaus gan y bydd adegau bob

amser pan na all perthnasau/ffrindiau ymweld megis y rhai sy'n byw i ffwrdd neu'n methu ag ymweld am resymau iechyd.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mis Mawrth 2022. Mae hyn wedi cynnwys ymwybyddiaeth o'r angen am bobl fyddar, pobl â nam ar eu clyw, pobl â nam ar eu golwg, anghenion pobl o'r gymuned LHDTTC+ leol a chymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â sesiynau yn edrych ar niwroamrywiaeth a derbyniad i awtistiaeth.

Dechreuodd y Bwrdd Iechyd hefyd gynnal ei sesiwn hyfforddi Gwylwyr Gweithredol, gan roi'r wybodaeth a'r hyder i staff herio ymddygiad annerbyniol a chreu diwylliant mwy cynhwysol yn y gweithle yn ogystal â chyflawni nod Llywodraeth Cymru i fod yn wlad Wrth-hiliol erbyn 2030.

## Swyddogion Cyswllt cleifion (PLOs)

Mae'r Gwasanaeth PLO bellach wedi'i sefydlu'n llawn o fewn y Gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys gyda Swyddogion Cyswllt yn gweithio rhwng dydd Llun a dydd Sul 8am – 8pm yn ateb ymholiadau perthnasau cleifion drwy gydol y cyfnod hwn. Tu Allan i Oriau arferol, mae staff y Switsfwrdd wedi cyflwyno dull cofnodi galwadau i helpu gyda galwyr a all ffonio sawl gwaith am wybodaeth yn ystod y nos. Trosglwyddir y manylion i'r tîm PLO ar ddechrau eu shift yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys y bore wedyn a fydd wedyn yn cysylltu â'r galwr. Mae'r galwyr yn gwerthfawrogi eu bod yn cael arwydd y byddant yn cael galwad yn ôl ac mae'n lleihau'r cylch parhaus o alwadau heb eu hateb sydd yn ei dro yn cynyddu pryder a thrallod gan achosi mwy o gwynion.

Galwadau a Gymerwyd gan PLO's:

Ion 432

Chwe 527

Mawrth 379 (hyd yma)

Adborth gan wraig claf:

*Nid wyf yn siŵr pwy oedd y PLO ddydd Sul 13eg Mawrth, ond roeddwn am ffonio i ddweud pa mor anhygoel oeddent. Roedd fy ngŵr wedi cael ei ddwyn i mewn i'r Grange yn ddifrifol wael a doeddwn i ddim yn gwybod a fyddai'n goroesi'r nos, ni allaf ddiolch digon i'r PLO am yr holl help a roddodd ddoe.*

*Ar nodyn cadarnhaol, fe oroesodd fy ngŵr drwy'r nos ac er nad yw allan o berygl eto, maent yn gobeithio ei symud i ward.*


## Hyfforddiant Dementia

Oherwydd mwy o hyfforddiant, o linell sylfaen o 60%, mae cydymffurfiaeth staff ag **ymwybyddiaeth orfodol o ddementia Cymru Gyfan** ar-lein wedi cynyddu i **83.26%**.

Mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu gyda Dementia a Gweithgareddau Ystyrion ac Ymgysylltu ar gyfer staff Ysbyty. gyda 268 o

staff wedi mynychu'r sesiynau hyd yn hyn, ac 11 o Wirfoddolwyr Eiriolwyr Dementia.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddementia, gweithgareddau ystyrllon, ymddygiadau heriol, y 3D (Dementia, Iselder, Deliriwm). Darparodd y GURT (siwt efelychu oedran) ddysgu drwy brofiad i staff. Mae staff a gwirfoddolwyr wedi gwerthuso bod yr hyfforddiant yn ardderchog, gan gynyddu eu hyder i ofalu am berson â dementia.



Comisiynwyd cyfres o sesiynau dysgu gan Cruse ar Ragweld Colled a Dementia. Cynhaliwyd tair sesiwn rhwng Chwefror a Mawrth (cyfanswm o 25 o fynychwyr) gyda 3 sesiwn arall wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill.

### Maeth a Hydradu (Gofal Dementia)



Mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill i gefnogi gwelliant mewn maeth a hydradiad sy'n cynnwys gofal Dementia. Mae'r defnydd o'r "Hambwrdd Coch" i rybuddio staff am gleifion sydd angen cymorth o gwmpas amser bwyd wedi'i ailgyflwyno i'r ward. Roedd hyfforddiant yn cynnwys codi ymwybyddiaeth staff o fanteision byrbrydau a bwydydd bys a bawd i gefnogi pobl sy'n hoffi bwyta ychydig ac yn aml, yn aml wrth gerdded, yn gyfyngedig.

Mae'r Grŵp Maeth a Hydradiad bellach yn archwilio'r agwedd hon ar ofal, yn ogystal â chefnogi hyfforddiant ar faeth a hydradu i staff a Gwirfoddolwyr y Robin Goch.

### Porth Adborth Dinasyddion (CIVICA)

Mae nifer o Arolygon Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMS) wedi'u cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddull strwythuredig o'u casglu, eu gweithredu na'u hadrodd ac mae'n dibynnu ar bresenoldeb corfforol staff i ofyn cwestiynau'r arolwg. Mae achos busnes ar y gweill i ofyn i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu System Adborth Cleifion Unwaith

i Gymru, Civica, a fydd yn caniatáu adborth amser real gan gleifion ar draws holl adrannau'r Bwrdd Iechyd. Bydd y feddalwedd yn galluogi cleifion i gael adborth a chynhyrchu adroddiadau ar unwaith.

## **Addysg Cleifion Opsiynau, Cyngor a Gwybodaeth (OAK)**

Mae angen gwybodaeth ddibynadwy ar bobl er mwyn gallu rheoli eu cyflyrau neu fod yn rhan o wneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheoli'r sesiynau Opsiynau, Cyngor a Gwybodaeth (OAK) ar gyfer Osteoarthritis y Pen-glin a'r Menopos.

Mae OAK Pen-glin wedi symud o sesiynau wyneb yn wyneb cyn y pandemig i sesiynau o bell (Teams) ac mae bellach yn rhedeg ddwywaith y mis. Mae 61 o gleifion wedi mynychu sesiwn Pen-glin OAK eleni (Ebrill 2021 i Fawrth 2022). Datblygwyd OAK Menopos yn 2021 fel sesiwn o bell, gan ddechrau ym mis Hydref. Mae hyn hefyd yn rhedeg ddwywaith y mis ac mae 97 o bobl wedi mynychu sesiwn Menopos OAK. Mae'r ddwy sesiwn wedi'u harfarnu'n dda.

## **Casglu**

Gêm gardiau yw Casglu, wedi'i chreu a'i dylunio gan y Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn cydweithrediad â'r Uned Iaith Gymraeg. Daeth dyluniad y lluniau a'r brawddegau gan blant mewn addysg Gymraeg yn Nhorfaen a Chasnewydd gyda chefnogaeth ein partneriaid Menter Iaith. Darparwyd cyllid ar gyfer datblygu a chynhyrchu gan yr RCN Foundation ac Uned yr Iaith Gymraeg.

Datblygwyd y gêm i:

- Gefnogi dysgwyr gan gynnwys staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr. Bydd y gêm yn gymorth i ddysgu'r iaith a hefyd i'w rhoi ar waith
- Bod yn adnodd i Wirfoddolwyr yn BIPAB i gefnogi cleifion gyda gweithgareddau ystyrlon
- Bod yn rhan o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gweithgaredd Rhwng Cenedlaethau mewn Cartrefi Gofal a Wardiau Cymunedol.
- Darparu Adnodd Cymraeg ar wardiau Plant yn Ysbytai BIPAB

Edrychwn ymlaen at weld y gêm yn cael ei chwarae ar draws ein cymunedau a chenedlaethau, gan ddod ag ychydig o lawenydd a hybu a chyfoethogi'r defnydd o'r Gymraeg.

## **Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhyddid**

Rydym wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â gweithwyr proffesiynol, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, gofalmwyr cyflogedig a theuluoedd mewn perthynas â gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid sydd ar ddod, a chod ymarfer diwygiedig y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Gan weithio gyda'n partneriaid Awdurdod Lleol, rydym wedi trefnu a chynnal cyfres o gynadleddau rhithwir i gefnogi cyfranogiad yn yr ymgynghoriad hirddisgwyliedig ar god ymarfer a rheoliadau newydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer gweithredu LPS, yn ogystal â darparu sesiynau briffio rhanbarthol sylweddol i staff a rhanddeiliaid.

Yn ogystal â rhaglen o sesiynau briffio rhanbarthol mae BIPAB wedi recordio 2 bodlediad mewn perthynas â gweithredu LPS ac wedi datblygu nifer o ffilmiau hyfforddi Deddf Galluedd Meddyliol.

Yn dilyn lansiad swyddogol yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r cod ymarfer ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol ddiwygiedig a'r Trefniadau Diogelu Rhyddid, byddwn yn parhau â'n gwaith yn ymgynghori ar weithredu LPS.

## **Gweithio i Wella**

Mae profiad cleifion a gwranddo ar adborth a dysgu ohono yn elfen allweddol o werthuso gwasanaethau a chanlyniadau ac yn fesur o effaith sut rydym yn perfformio. Un ffordd o werthuso profiad cleifion yw trwy ddata cwynion ffurfiol.

Drwy gydol 2021–2022, cydymffurfiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ynghylch y broses Gweithio i Wella.

Cawsom 3,295 o gwynion yn 2021-22 (gan gynnwys, yn achos cyrff GIG Cymru, pryderon a adroddwyd o dan Ran 7 o'r Rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau trawsffiniol). Mae hyn yn gynnydd o 48% o gymharu â 2020/21, pan dderbyniwyd 2,224 o gwynion.

- 1,937 o unigolion wedi eu dosbarthu fel CONCCO (cwynion ffurfiol)
- 1,351 wedi cael Datrysiad Cynnar
- 7 CONCLA (Iawn)

*Y tair thema uchaf a godwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd:*

1. Amseroedd aros/oedi/canslo
2. Cyfathrebu/Gwybodaeth
3. Triniaeth/asesiad clinigol

## **Amseroedd aros/oedi/canslo**

Codwyd pryderon am amseroedd aros ysbytai, oedi a chansladau mewn ymateb i ganllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd a chyfyngiadau a weithredwyd. Arhosodd y rhain yn gyson trwy gydol y cyfnod adrodd wrth i ddarlun Covid-19 symud ac esblygu.

Sefydlwyd y rhaglen Brechu Torfol mewn ymateb i gwynion a dderbyniwyd ynghylch mynediad cleifion sy'n gaeth i'r tŷ i frechlynnau Covid yn ystod y cyfnod cyflwyno brechlynnau cychwynnol. Arweiniodd hyn at addasiadau i gynllunio a chyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu wedi hynny.

## Cyfathrebu/Gwybodaeth

Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd llinell gymorth teleffoni beilot i ddechrau lliniaru'r pwysau a roddwyd ar dimau clinigol gan y pandemig Covid-19.

Nododd adolygiad pellach o bryderon a reolwyd trwy 'ddatrysiad cynnar' fod materion cyfathrebu yn parhau. Mae hyn wedi arwain at bryder cynyddol i berthnasau nad ydynt yn gallu ymweld â'u hanwyliaid. Yn ystod trafodaethau gydag arweinwyr Switsfwrdd, fe nodwyd cynnydd sylweddol mewn galwadau gan berthnasau, yn enwedig ar adegau pan fyddai teuluoedd wedi bod yn ymweld.

Roeddem yn cydnabod yr angen am gymorth ychwanegol ar y wardiau ac aethom ati i recriwtio clercod ward a chynorthwyr ward.

Mae Gweithio i Wella hefyd wedi'i nodi fel safle peilot ar gyfer Sign Live. Mae hwn yn wasanaeth cyfnewid fideo gyda gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain pwrpasol sydd ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'n wasanaeth 'ar alw' a fyddai'n ein galluogi i gysylltu â chyfieithydd ar y pryd cymwys a phrofiadol mewn llai na munud. Byddai gallu treialu yn ein galluogi i brofi'r cysyniad bod hygyrchedd i bobl Fyddar yn cael ei wella a'i fod yn system gost-effeithiol sy'n seiliedig ar werth.

Fodd bynnag, mae problemau parhaus gyda'r cynllun peilot Sign Live a oedd i fod i ddechrau ym mis Chwefror 2022. Rydym yn parhau i archwilio atebion i alluogi'r peilot hwn i ddigwydd.

## Triniaeth/Asesiad Clinigol

Mae amseroedd aros yn parhau i fod yn bryder allweddol i gleifion am ofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei gynllunio. Mae effaith y pandemig ar restrau aros yn bryder allweddol i'r rhai sy'n aros, ynghyd â'r heriau o ran cael mynediad at ofal brys am resymau Covid a di-Covid.

Bydd sefydlu Rhaglen oruchwylio adferiad Gofal wedi'i Gynllunio ffurfiol yn canolbwyntio ar adferiad Gofal wedi'i Gynllunio a chefnogaeth i gleifion tra'n aros am lawdriniaeth gan gynnwys gwneud y gorau o'u hiechyd cyn llawdriniaeth. Mae'r Bwrdd Gofal Brys yn parhau i ganolbwyntio ar asesiadau cleifion ac amseroedd aros ambiwlansys. Bydd optimeiddio adferiad Gofal wedi'i Gynllunio trwy fannau eLGH gwyrdd / gwarchoddedig yn cael ei arwain gan y Bwrdd Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio sydd newydd ei ffurfio.

## Gwneud Iawn

Yn ystod 2021/22, gwrandawodd y Panel Gwneud Iawn am 36 o achosion, saith ohonynt yn hanesyddol eu natur.

Datryswyd cyfanswm o 3085 o gwynion yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 1,804 yn ffurfiol a 1281 yn cael eu datrys yn gynnar. Ni fydd nifer y cwynion sy'n cael eu datrys yn cyfateb i'r nifer a dderbyniwyd, oherwydd efallai na fydd rhai yn cael eu datrys yn ystod y cyfnod adrodd.

## **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd hysbysiad am 121 o gwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2021/22. O'r rhain, roedd 33 yn ddiennw (Mae pob achos diennw wedi'i gau ar ôl ei dderbyn).

O'r 88 o gwynion adnabyddadwy, roedd 52 yn ymwneud â chwynion a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2020/2021 a 6 o 2020/21. Mae hyn oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i bryderon gael eu cyfeirio at OGCC gan achwynydd ac yna hysbysiad a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd gan OGCC. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 28 o achosion yn parhau i fod ar agor ar system adrodd Datix y Bwrdd Iechyd.

## **Gwella Diogelwch – Dysgu o Ddigwyddiadau Difrifol**

O 14 Mehefin 2021, disodlodd y Fframwaith Adrodd Cenedlaethol feini prawf adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol Llywodraeth Cymru. Yn hanesyddol, ffocws adrodd ar ddigwyddiadau ar lefel genedlaethol fu archwilio'n fanwl Ddigwyddiadau Difrifol penodol fel y nodir yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (y Rheoliadau), yn bennaf drwy ddefnyddio Dadansoddiad o Wraidd y Broblem. Nod y Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion (Mai 2021) yw cyflwyno nifer o newidiadau allweddol i adrodd ar ddigwyddiadau cenedlaethol.

Yn 2021/22, roedd 25 o ddigwyddiadau adroddadwy. Rheolwyd 21 o ddigwyddiadau trwy'r Broses Digwyddiad Difrifol fel ymchwiliadau Coch 1 (dan arweiniad Corfforaethol), tra rheolwyd y pedwar arall fel ymchwiliadau Coch 2 (a arweinir gan yr Is-adran). Cafodd 241 o ddigwyddiadau ychwanegol a fyddai wedi bodloni meini prawf adrodd yn y gorffennol eu hadolygu a'u hymchwilio'n drylwyr fel petaent wedi cael eu hadrodd.

Cynhelir proses ymchwilio fewnol gadarn, mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol, ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod camau gweithredu ac, yn bwysicach fyth, yn parhau i ddysgu.

## **Dysgu**

Er gwaethaf y Pandemig, mae digwyddiadau dysgu a dadansoddiad thematig o bryderon wedi'u cryfhau.

Mae rhaglen waith wedi'i datblygu ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn 2021/22. Ym mis Gorffennaf 2022, bydd Adroddiad Blynyddol PTR yn cael ei gyhoeddi.

## Cyflawni mewn Partneriaeth

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae Gwasanaeth Profi, Olrhain ac Amddiffyn Gwent a Rhaglen Brechu Torfol Covid-19 BIPAB wedi'u darparu mewn dull integredig, cydweithredol gyda phartneriaid a chyda chyfranogiad cymunedau lleol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd i atal trosglwyddo heintiau a salwch difrifol a galluogi adferiad hirdymor.

Mae ffurfio un **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (PSB)** wedi dod â'r Bwrdd Iechyd, y pum awdurdod lleol yng Ngwent a phartneriaid ehangach ynghyd i weithio mewn partneriaeth i wella llesiant. Drwy ddod â'r hyn a oedd gynt yn PSBs pum awdurdod lleol llai at ei gilydd yn un PSB rhanbarthol, mae gwaith PSB Gwent wedi dangos **integreiddio** a **chydweithio** drwy gyflymu trefniadau partneriaeth i ddatblygu ymagweddau integredig at les yn rhanbarth Gwent. Mae **cyfranogiad** wedi'i ddangos yn 2021/22 drwy ddatblygu adroddiad a chanfyddiadau Asesiad Llesiant Gwent ac ymgynghoriad cyhoeddus arnynt.

Mae copi o Asesiad Llesiant terfynol PSB Gwent ar gael yn:

<https://www.gwentpsb.org/cy/well-being-plan/well-being-assessment/>.

Mae'r Asesiad yn darparu dadansoddiad o les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Ngwent. Mae'n cydnabod nodweddion cadarnhaol yn y rhanbarth, megis economi amrywiol a diwylliant cyfoethog Gwent, ond hefyd rhai o'r heriau o ran anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol a'r pwysau ar adnoddau naturiol.

Er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant, mae PSB Gwent yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Llesiant. Wrth gynhyrchu'r cynllun, cytunwyd y bydd ffocws ar dair thema: anghydraddoldebau iechyd (gan gynnwys tai), yr amgylchedd, a chydlyniant cymunedol.

Mae meddwl **hirdymor** ac **atal** yn cael eu datblygu drwy benderfyniad PSB Gwent i ddod yn 'Ranbarth Marmot' a chyflymu taith i fynd ymhellach ac yn gyflymach i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd sef 'achosion' iechyd gwael.

Mae'r dadansoddiad o'r ymateb i anghydraddoldebau iechyd yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd BIPAB, gyda'r dadansoddiad yn cael ei wneud gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Gwent. Mae'n cael ei ddrafftio i gyd-fynd â phenderfyniad PSB Gwent i ddod yn Rhanbarth Marmot. Mae hyn yn golygu y bydd y camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cael eu hystyried drwy fodel penderfynyddion cymdeithasol iechyd fel y'i mynegir drwy wyth egwyddor Marmot. Yr egwyddorion hyn yw:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn;
- Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y mwyaf o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau;
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb;
- Sicrhau safon byw iach i bawb;

- Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy;
- Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd;
- Ymateb i newid hinsawdd;
- Mynd i'r afael â hiliaeth strwythurol.

Mae Gwent yn bwriadu bod yr ardal gyntaf yng Nghymru i ddod yn Rhanbarth Marmot, gan ddilyn ymlaen o ddinasoedd a rhanbarthau eraill, gan gynnwys Manceinion, Coventry, a Swydd Gaer a Glannau Merswy. Drwy ddod yn PSB Rhanbarth Marmot mae PSB Gwent yn ymrwmo i ymdrech benderfynol ac ar y cyd i weithio mewn partneriaeth go iawn ar draws nifer o feysydd i wella bywydau pawb, ond mewn ffordd sy'n gymesur â lefel yr angen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ariannu cam cychwynnol y cynnig drwy bartneriaeth â Sefydliad Tegwch Iechyd Coleg Prifysgol Llundain.

Yn ystod 2022/23, bydd rhaglen waith yn cael ei sefydlu o dan PSB Gwent i archwilio pob un o'r wyth egwyddor a chytuno lle mae angen gweithredu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol sylfaenol mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yng Ngwent. Mae'r gwaith hwn yn cael ei hwyluso a'i gefnogi gan Sefydliad Tegwch Iechyd UCL gyda chyfranogiad gan yr Athro Syr Michael Marmot. Bydd papur diweddarau ar waith Rhanbarth Marmot yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf PSB Gwent ar 30 Mehefin 2022.

Mae **Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (RPB) Gwent**, a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn uno BIPAB, pump awdurdod lleol Gwent â chynrychiolaeth trydydd sector rhanbarthol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am wella llesiant y boblogaeth, a'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal eu darparu.

Mae ein hymateb cydweithredol parhaus hefyd wedi arwain at fecanweithiau ychwanegol sy'n pontio swyddogaethau partneriaeth statudol y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Darparodd yr Is-grŵp Gofal Cymunedol gyfrwng ar gyfer cyd-aroelygu pwysau gweithredol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, a mecanwaith allweddol ar gyfer llywodraethu Cynllun Gaeaf Rhanbarthol Gwent.

### **Cynllun Gaeaf Rhanbarthol Gwent**

Datblygwyd cynllun gaeaf y Bwrdd Iechyd yn unol â Chynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan 2021-22, yn dilyn y blaenoriaethau a sefydlwyd. Cafodd hyn ei integreiddio wedyn gyda'r ymateb gofal cymdeithasol i'r cynllun hwnnw, i ddatblygu Cynllun Gaeaf Rhanbarthol Gwent o dan lywodraethiant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Er bod y cynllun wedi'i amlinellu yn erbyn y blaenoriaethau cenedlaethol isod, yn thematig roedd tair cydran allweddol i'r cynllun:

1. Adnoddau dynol ychwanegol o fewn ein system
2. Capasiti gwelyau ychwanegol (ysbyty/cymuned)

### 3. Contractau trydydd sector ychwanegol

Roedd **blaenoriaeth 1** o fewn y cynllun yn canolbwyntio ar y rhaglen atgyfnerthu brechlynnau ac imiwneiddio, a'r dull diwygiedig o brofi, olrhain a diogelu gwasanaethau. Roedd cyfraddau derbyn brechlyn COVID-19 gan staff gofal yn cael eu hadolygu bob wythnos gan yr Is-grŵp Gofal Cymunedol i sicrhau cydweithrediad iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y gweithlu gofal yn manteisio'n fawr arno.

Roedd **blaenoriaeth 2 a 7** yn canolbwyntio ar atal a chadw pobl yn iach. Ymgwymerwyd â chyfathrebiadau yn hyn o beth drwy BIPAB a thrwy Grŵp Rhybudd a Hysbysu Gwent o dan Grŵp Cydgysylltu Strategol Gwent a oedd yn sefyll am y rhan fwyaf o gyfnod y gaeaf. Fel elfen allweddol o aildddechrau ac adferiad y Bwrdd Iechyd, ac i gefnogi llwybrau anadlol fel rhan o wydnwch y gaeaf, sefydlwyd canolfan sbirometreg yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2021 i ddarparu mynediad uniongyrchol trwy atgyfeiriadau gan feddygon teulu.

Darparodd gweithgarwch i gefnogi **Blaenoriaeth 3** – cynnal gwasanaethau iechyd diogel – gapasiti ychwanegol ar draws y system, sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael yn ein hadran achosion brys yn YAG ac ymestyn oriau gwaith i ddarparu Cyswllt Seiciatrig Oedolion Hŷn ychwanegol. I gydnabod y pwysau ar y system a'r cyfyngiadau ar y gweithlu o fewn y system, roedd pwyslais o fewn Blaenoriaeth 3 ar greu capasiti ychwanegol i gefnogi llif o fewn y system. Cafodd y gallu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ei effeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau capasiti a wynebir gan ofal cymdeithasol.

Sefydlwyd llwybr Cam yn Nes at y Cartref i ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael mewn cartrefi gofal i ddarparu gofal cam i lawr i gleifion nad oeddent yn gallu dychwelyd adref heb gymorth. Datblygwyd llwybr gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gyfer cleifion sy'n addas ar gyfer y llwybr. Ar gyfartaledd mae 12 o gleifion wedi cael eu cefnogi drwy'r llwybr hwn bob mis. Y bwriad oedd y byddai cleifion yn cael eu rhoi ar y llwybr hwn am tua 6 wythnos, yn unol â'r defnydd presennol o ofal cam-i-lawr, ond arweiniodd y cyfyngiadau ar gapasiti gofal cymdeithasol yn y gymuned at arhosiad cyfartalog o 12 wythnos i gleifion.

Sefydlwyd y llwybr hwn i gyd-fynd â'r Uned Camu'n Nes at Adref a'r Llwybrau Mynediad Uniongyrchol a ddatblygwyd ac a brofwyd gan y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol dros gyfnod y gaeaf. At hynny, roedd recriwtio cynorthwyr ailalluogi cymunedol yn galluogi rhai cleifion i gael eu rhyddhau adref i gael asesiad pellach, ynghyd â thîm gofal cymhleth y Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth gyda chomisiynu pecynnau gofal cymunedol i gefnogi rhyddhau cleifion ymhellach.

Mae adolygiad o'r llwybr Cam yn Nes at Adref ar y gweill ar hyn o bryd gan gydweithwyr o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddiffinio'r model gorau posibl sy'n cyd-fynd â'r capasiti camu i fyny/i lawr ehangach ar draws y rhanbarth. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn cael ei adrodd i Grŵp

Arwain y System Iechyd yn gynnar ym mis Gorffennaf, ac yna Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent.

**Blaenoriaeth 4** – rhoddodd Cynllun Gaeaf Rhanbarthol Gwent bwyslais sylweddol ar wella gwydnwch y sector gofal cartref i gefnogi'r flaenoriaeth 'Cynnal ein Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol' yng Nghynllun Gaeaf Cymru Gyfan. Adolygwyd y pecynnau gofal presennol i ryddhau capasiti lle bo modd, ynghyd â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn darparu dros £1miliwn i gefnogi cyflog uwch i staff gofal cymunedol. Bwriad y taliad ychwanegol hwn oedd lliniaru rhagor o golli capasiti'r gweithlu dros gyfnod manwerthu'r Nadolig, pan fo cyfraddau cyflog y sector manwerthu yn sylweddol uwch na rhai'r sector gofal. Mewn partneriaeth, profwyd nifer o ddulliau amgen, megis cynllun peilot micro-fenter yn un o'n hardaloedd, a chymorth ar gyfer offer arbenigol ychwanegol drwy ein gwasanaeth rhanbarthol GWICES.


**Blaenoriaeth 5** – Mae cefnogi lles ein Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn ystyriaeth allweddol o'r cynllun ac yn cael ei drafod yn rheolaidd o fewn yr Is-Grŵp Gofal Cymunedol. Mae BIPAB wedi rhoi cymorth lles ychwanegol ar waith ar gyfer ei weithlu.

**Blaenoriaeth 6** – Roedd cefnogi gofalwyr di-dâl yn elfen allweddol o'r rhaglenni ailgychwyn ac adferiad gofal cymdeithasol, ac mae'n adlewyrchu gwaith ac ymrwymadau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Sicrhawyd bod grantiau ychwanegol ar gael i ofalwyr di-dâl, a chynigiwyd atebion seibiant amgen lle bo hynny'n ymarferol.

**Blaenoriaeth 8** – Gweithio mewn partneriaeth – Adolygodd yr Is-grŵp Gofal Cymunedol ffigurau wythnosol ynghylch sefyllfa'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol, a cheisiodd wneud y defnydd mwyaf posibl o'r Llwybr Cam yn Nes at y Cartref i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd 2021-22 yn nodi cyfnod pontio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru, gyda'r model cyllid partneriaeth presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2022, a fydd yn cael ei ddisodli gan un ffynhonnell gydlynol o gyllid refeniw i gefnogi trawsnewid ac integreiddio. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent wedi trafod ac ystyried ei flaenoriaethau i gefnogi cynllunio tymor hwy yn ystod y cyfnod pontio hwn. Mae'r blaenoriaethau newydd hyn yn rhoi pwyslais sylweddol ar ofal yn nes at y cartref ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth ar gyfer integreiddio, a galluogi seilwaith o fewn ein partneriaeth sy'n cefnogi haenau cyflawni dirprwyedig, a ddangosir yn ffigwr 1 isod.

Ffigwr 1. Blaenoriaethau Strategol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol [Gorffennaf 2021]



Er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio hwn, ac i gefnogi ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â'r heriau o fewn ein system, cymeradwyodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent gynllun pontio rhaglen ar gyfer 2021-22 i gefnogi gwaith cynllunio ariannol partneriaeth a sefydliadol, ac ystyried portffolio sefydledig o weithgarwch a ariennir.

Nododd y gwaith hwn dros £19miliwn o wasanaethau y mae angen eu cynnal ar draws y system Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gydnabod bod angen gwaith i wella'r llwybrau gofal ar y cyd a di-dor ar draws y system i gyflawni canlyniadau gwell a pherfformiad system gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad 5 mlynedd o gyllid refeniw ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r cyllid refeniw hwn, a elwir bellach yn Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), yn dod â ffrydiau ariannu blaenorol a ddarparwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghyd yn un ffynhonnell o gronfeydd refeniw strategol, gan ddarparu £26.8m ar gyfer Gwent bob blwyddyn, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027. Mae'r model ariannu'n cynnwys pedair elfen allweddol yn cyflwyno dull graddol yn ystod y rhaglen 5 mlynedd, gyda'r bwriad o hybu cynaliadwyedd.

Y neges allweddol a nodwyd yng nghanllawiau RIF Llywodraeth Cymru yw'r gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio cyllid i gyflawni rhaglen o newid dros y 5 mlynedd nesaf. Mae pwyslais ar ddysgu o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Drawsnewid, a'r awydd i greu newid system gynaliadwy drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Disgrifir y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel ysgogiad allweddol i ysgogi newid a thrawsnewid o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael y dasg o ystyried sut y maent yn defnyddio eu hadnoddau cyfunol, gan gynnwys cyllid partneriaeth ac adnoddau craidd ehangach i gyflawni eu hamcanion.

Nodir nodweddion a gwerthoedd allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel a ganlyn:

- C. Pwyslais cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar
- D. Datblygu a gwreiddio modelau cenedlaethol o ofal integredig (cyfeirir atynt hefyd fel modelau gofal yn y canllawiau)
- E. Rhannu dysgu ledled Cymru yn weithredol drwy gymunedau o arfer
- F. Adnoddau hirdymor cynaliadwy i sefydlu a phrif ffrydio modelau gofal newydd
- G. Creu trefniadau cronfa gyfun hirdymor
- H. Buddsoddiad cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth

Mae'r modelau gofal y cyfeirir atynt yn y canllawiau wedi'u datblygu gyda'r bwriad o sicrhau bod dinasyddion yn cael profiad effeithiol a gwasanaeth di-dor, gyda'r bwriad o fodolau gofal sydd wedi'u gwreiddio'n genedlaethol fel allbwn o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r modelau gofal wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Gofal yn y gymuned – atal a chydgyssylltu yn y gymuned
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref
- Hybu iechyd a llesiant emosiynol da
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd wedi bod mewn gofal
- Gwasanaethau adref o'r ysbyty
- Datrysiadau seiliedig ar lety

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r portffolio a ariennir presennol (o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid) a heriau system ehangach a byddant yn dwyn ffrwyth 18 o raglenni rhanbarthol strategol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r modelau gofal a sefydlwyd o fewn Canllawiau RIF.

O ystyried y gwaith datblygu eang sydd ei angen ar draws y bartneriaeth i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni newydd o drawsnewid, mae RPB Gwent wedi cytuno i ddefnyddio'r amser hyd at fis Rhagfyr 2022 fel cyfnod datblygu i alluogi cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws yr

holl raglenni, er mwyn darparu buddion clir cynlluniau gwireddu a chynlluniau cynaliadwyedd ariannol.

## Rheoli'r Gweithlu a Llesiant

### Sicrhau lefelau staffio diogel

Roedd lefelau staffio diogel ar draws yr holl broffesiynau yn parhau i fod yn flaenoriaeth er bod hyn wedi bod yn heriol ar adegau oherwydd effaith barhaus y pandemig Covid-19. Mae data'r gweithlu yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 157 yn dangos lefelau uwch o absenoldebau staff a staff y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu o ganlyniad i gontractio Covid-19 neu y cysylltir â hwy gan y trac ac olrhain fel cyswllt agos.

Mae lefelau staffio'n cael eu monitro'n ddyddiol gan dimau proffesiynol i sicrhau bod y gymhareb staff i gleifion mor ddiogel â phosibl bob amser. Mae swyddi gwag hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u recriwtio cyn gynted â phosibl, yn aml gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau recriwtio sy'n berthnasol i wahanol rolau a phroffesiynau. Ym mis Mawrth 2022, roedd 195 o swyddi Nyrsio Cofrestredig WTE a 154 o swyddi Meddygol gwag (mae hyn yn cynnwys pob gradd feddygol). Mae hyn yn gynydd bach ar y swyddi gwag ar gyfer y flwyddyn flaenorol oherwydd cynnydd yn y galw am staff a throsiant, er bod agoriad Ysbyty Athrofaol y Grange yn 2020 wedi cynyddu nifer y staff o 373 yn gyffredinol.

Yn flynyddol, rydym yn rhagweld swyddi gweigion yn y dyfodol ac yn cynllunio gofynion y gweithlu yn y dyfodol trwy gyflwyniad comisiynu addysgol i AaGIC. Mae hyn yn gofyn am ystyriaeth ofalus o drosiant tebygol a chyfraddau ymddeol i sicrhau bod y gweithlu clinigol (e.e., nyrsys, therapyddion a gwyddonwyr) yn parhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn dasg gymhleth sydd hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau mewn modelau gweithlu o ganlyniad i fwy o waith Tîm Amlddisgyblaethol (MDT), cymysgedd sgiliau a newidiadau eraill i wasanaethau.

Ym mis Medi 2021, cymeradwyodd y Tîm Gweithredol yr adolygiad o rotâu meddygol iau gan ystyried egwyddorion staffio mwy diogel a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr (RCP) i gyrraedd y trothwy isaf ar gyfer staffio meddygol mwy diogel. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys effaith gwelyau ychwanegol (cleifion mewnol) a chleifion mewnol sydd angen lefelau uwch o ofal. Cymeradwywyd buddsoddiad i recriwtio 21 o feddygon ychwanegol a hyd yma, mae 15 o feddygon wedi'u recriwtio'n llwyddiannus drwy ddulliau recriwtio mewnol a thrwy weithio gyda phartneriaid recriwtio fel Gweithwyr Proffesiynol y GIG. Bydd y meddygon sydd newydd eu recriwtio yn cefnogi lefelau diogel o ofal ar draws yr ysbytai, yn enwedig yn ystod y nos ac ar benwythnosau.

Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn Nyrsys Cofrestredig ychwanegol a staff cymorth ar gyfer yr Adran Achosion Brys yn YAG yn ogystal â Chynorthwywyr Ailalluogi i ddarparu gofal i gleifion mewn lleoliadau cymunedol.

Mae sefydliadau staffio nyrsio wedi'u hadolygu yn erbyn yr ehangu neu'r estyniad a ragwelir i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Eleni mae'r sefydliadau staffio nyrsio pediatrig wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer o adolygiadau yn parhau i gael eu cynnal i gefnogi gwella gwasanaethau a maint cywir y gweithlu trwy lefelau staffio diogel. Mae'r rhain yn cynnwys therapiau a gwasanaethau fferyllol.

## **Nodi a hyfforddi staff i ymgymryd â rolau newydd**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi'r holl staff i gyflawni eu dyheadau gyrfa ac i fod yn gyflogwr o ddewis ar gyfer staff newydd a phresennol.

Rhodddwyd cynllun prentisiaeth newydd cyffrous ar waith yn ystod hydref/gaeaf 2021 gyda'r garfan gyntaf o Brentisiaid Aneurin Bevan wedi'u recriwtio. Bellach mae 28 o brentisiaid yn cefnogi timau clinigol ac anghlinigol ar draws y Bwrdd Iechyd mewn ysbytai a lleoliadau gofal sylfaenol. Mae'r prentisiaid yn astudio cymhwyster NVQ tra'n 'hyfforddi yn y swydd' fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW), Gweinyddwr Prentis neu Brentis Cyfleusterau. Yr uchelgais yw i brentisiaid dyfu eu gyrfa gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a dod yn gofrestryddion clinigol a/neu reolwyr y dyfodol. Yn ogystal â'r prentisiaid HCSW, rydym wedi cefnogi dros 100 o weithwyr cymorth i gwblhau, neu weithio tuag at radd nyrsio i ddod yn nyrs gofrestredig a datblygu eu gyrfa, mewn rhai achosion mae'r staff hyn wedi symud ymlaen i rôl rheolwr ward.

Yn ogystal â phrentisiaid, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chynlluniau cyflogadwyedd megis Kickstart ac Ailgychwyn, gyda'r bwriad o sicrhau cyflogaeth hirdymor i'r rhai sy'n byw yn y gymuned leol ac yn chwilio am waith. Mae Kickstart yn gweithio gyda'r rhai dan 25 oed a hyd yn hyn, rydym wedi cefnogi 12 lleoliad kickstart mewn amrywiaeth o adrannau. Yn ogystal, mae nifer fach o staff ychwanegol wedi'u recriwtio drwy'r cynllun Ailgychwyn a byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn drwy gydol 2022/23.

Rydym wedi cyflwyno nifer o rolau newydd gan gynnwys Ymarferwyr Lles Seicolegol mewn Gofal Sylfaenol, sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl â phryderon iechyd ysgafn i gymedrol. Rydym hefyd wedi ehangu cwmpas ymarfer mewn nifer o feysydd megis nyrsys arbenigol mewn endometritis ac uwch ymarferwyr ym maes radioleg i gefnogi gwell gweithdrefnau adrodd ar radioleg a gweithdrefnau ymyrryd/sgrinio. Mae rôl y Cydymaith Meddygol (PA) hefyd wedi'i ehangu ar draws ystod o arbenigeddau sydd wedi bod yn amhrisiadwy trwy gydol y pandemig. Mae Cynorthwywyr Fferylliaeth hefyd wedi'u cyflwyno i gefnogi'r gwaith o reoli meddygaeth ar draws wardiau ac yn ddiweddar mae Pediatreg wedi ymgorffori Ymarferwyr Cynorthwyol i gefnogi timau clinigol.

Drwy gydol y cyfnod, atgyfnerthwyd timau ward gan y 'Tîm Gofal Craidd' a oedd yn cynnwys rolau newydd fel Crewyr Rhestrau, Cynorthwywyr Ward

ac Ymarferwyr Cynorthwyol. Roedd hyn yn cefnogi lefelau staffio diogel a hefyd yn darparu bod cyfathrebu critigol rhwng y claf, y clinigwr a'r teulu, a oedd yn arbennig o bwysig pan gafodd ymweliadau ysbyty eu gohirio.

Cwblhaodd staff a gefnogodd weinyddu'r brechlyn Covid-19 hyfforddiant ychwanegol ar-lein a chyflawni asesiad ymarferol yn seiliedig ar gymhwysedd. Roedd hyn yn cynnwys staff clinigol a hyfforddwyd i roi brechlynnau (e.e., brechlyn fflw) gan fod angen dealltwriaeth drylwyr o'r brechlyn Covid-19 arnynt. Cyflwynwyd y llwybr hyfforddi mewn partneriaeth rhwng y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a'r arweinydd imiwneiddio clinigol.

Mae cynllunio talent ac olyniaeth yn chwarae rhan bwysig wrth nodi a chefnogi arweinwyr i ddatblygu eu gallu i arwain yn effeithiol yn eu rolau ac ar draws cymhlethdodau'r sefydliad. Fe wnaethom barhau i weithio'n agos gydag AaGIC i ddatblygu proffiliau rôl i'n galluogi i gefnogi gwaith cynllunio talent ac olyniaeth effeithiol gan gynnwys bod y Bwrdd Iechyd cyntaf i ddefnyddio offeryn digidol talent Gwella. Mae Fframwaith Arwain a Rheoli'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi'i adolygu ac mae wedi'i gynllunio i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer talent a chynllunio olyniaeth ar draws yr holl rolau arwain a rheoli, gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol a meddygol. Mae'r Fframwaith ar gael i bob aelod o staff drwy dudalennau mewnwyd y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal â rhaglenni mynediad agored, datblygwyd Academi a Chynfyfyrwyr ar gyfer Uwch Nyrsys a Bydwagedd. Ategir hyn gan fframwaith cymhwysedd, a rhaglen ddatblygu 7 mis a rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr. Bwriedir cynnal y garfan gyntaf ym mis Ebrill 2022.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau rheoli perfformiad i gefnogi staff. Mae'r ddogfen PADR (Adolygiad Datblygu Arfarnu Personol) gyfredol yn cefnogi unigolion sy'n cynllunio newid rôl a chynhelir fforymau PADR strategol bob chwarter, gydag Arweinwyr PADR enwebedig ar draws y Bwrdd Iechyd. Nod y fforwm yw gwella ansawdd a gwelliant parhaus PADR.

### **Hyfforddi a defnyddio staff wedi ymddeol**

Mae Deddf Coronafeirws 2022 wedi cefnogi staff sy'n dychwelyd i ymarfer clinigol drwy ymuno â chofrestr dros dro i gefnogi gofal cleifion drwy gydol y pandemig. Mae cyfle hefyd i'r staff hynny ail-ymuno â chofrestr barhaol i barhau i weithio mewn swyddogaeth glinigol os dymunant.

Cafodd rheoliadau Cynllun Pensiwn y GIG eu hystyngi i ganiatáu i staff gael mynediad at eu pensiwn a dychwelyd i'r gwaith ar unwaith (tra'n derbyn eu buddion pensiwn llawn) a bydd hyn yn parhau yn ei le tan 31 Hydref 2022. Mae hyn wedi galluogi staff i dychwelyd i'r gwaith yn syth ar ôl ymddeol a pharhau â'u hymrwymadau gwaith presennol, neu eu cynyddu, tra'n dal i dderbyn eu buddion pensiwn llawn.


Yn ystod y cyfnod hwn, ymddeolodd 123 o staff a chawsant gymorth i dychwelyd i'r gwaith gyda'r hyfforddiant a chofrestriad perthnasol.

## Mentrau lles ar gyfer staff

Mae Iechyd a Lles Staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni er mwyn sicrhau bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn iach, yn ymgysylltu, ac yn falch o weithio i ni a'u bod ar flaen a chanol ein strategaeth datblygu'r gweithlu a'r sefydliad ar gyfer 2022-2025, ein Cynllun Pobl. Mae'r gwasanaeth Llesiant Staff wedi'i ategu gan y data a gasglwyd yn yr Arolwg Lles Chwarterol sydd wedi'i ddefnyddio 5 gwaith gyda'r nesaf yn cael ei ddefnyddio ar ddiwedd mis Ebrill 2022. Mae'r setiau data presennol yn cwmpasu ~15,000 o ymatebion hyd yma.

Mae nifer o arolygon staff allweddol wedi'u cynnal a arweiniodd at ostyngiad yn sgorau llesiant staff a noddodd y Bwrdd y gwaith o ddyfunio a lansio'r prosiect #CynnalCynefin. Mae'r prosiect hwn wedi'i gynllunio i gefnogi staff i ailgysylltu ac ailgysylltu â'u gwaith a chydweithwyr i wneud y gorau o'u profiad yn y gwaith. Ar hyn o bryd mae'r prosiect wedi hwyluso 25 o sesiynau ymgysylltu lle mae'r Tîm Gweithredol, aelodau o'r tîm Llesiant a Datblygu Sefydliadol wedi cyfarfod â dros 200 o staff gyda 140 o faterion yn cael eu gweithredu.

Rydym wedi parhau i gefnogi staff ar ddechrau, yn ystod a thuag at ddiwedd y pandemig, gyda 2021/22 yn arwain at nifer o fentrau newydd sy'n rhoi profiad a llesiant staff ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn. Nid ydym yn diystyru'r effaith y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i chael ar staff o safbwynt personol a gwaith. Rydym yn benderfynol o sicrhau y bydd y mecanweithiau cymorth sydd ar waith yn parhau yn y flwyddyn nesaf wrth i'r pandemig ddod yn endemig mewn cymdeithas. Mae'r galw am wasanaethau llesiant wedi cynyddu mewn modd llinol ers 2017 (312 o atgyfeiriadau) hyd at eleni (575 o atgyfeiriadau) fel y dangosir yn y graff isod.



Rydym wedi buddsoddi yn y tîm llesiant gweithwyr i ddarparu cymorth seicolegol ychwanegol ac mae wedi'i gyfuno â gwefan newydd sy'n hygyrch i'r holl staff, sy'n darparu deunyddiau cyfeirio dwyieithog sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Darperir cymorth wedi'i dargedu hefyd i unigolion, timau ac Is-

adrannau ar gyfer y staff hynny sy'n delio â llwyth gwaith gormodol. Mae'r llwybrau cymorth yn cynnwys:

- Seico-addysg
- Cynghori
- Ymyrraeth Seicoleg Glinigol
- Seicoleg Glinigol a Chwrsela

Yn ogystal, mae'r tîm wedi lansio gwasanaeth Trawma Seicolegol yn ddiweddar, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. O ran cyd-destun, o fewn y Bwrdd Iechyd mae 59 aelod o staff sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y gwasanaeth hwn, y mae 40% ohonynt yn gysylltiedig â Covid-19, a 93% yn gwella (fel cymhariaeth, data tebyg at ei debyg yn Lloegr yw 50% i 60%).

Fel estyniad pellach i gymorth i staff, rydym wedi symud yn nes at ddatblygu model Canolfan Ragoriaeth Lles gyda gwaith ar y gweill i adnewyddu a chreu'r Ganolfan, a disgwylir ei chwblhau yn hydref 2022. Bydd y 'Ganolfan' hon yn arwain y ffordd o fewn GIG Cymru ac mae'n cefnogi'r flaenoriaeth a roddir i ymgysylltu â gweithwyr a Llesiant o fewn 'Cymru Iachach'. Y bwriad yw:

- Cynnig gofal seicolegol o'r ansawdd gorau yn seiliedig ar dystiolaeth yn y GIG i staff BIPAB.
- Canolbwyntio ar brofiad gweithwyr, ffynnu ac atal.
- Datblygu arbenigedd cenedlaethol mewn cefnogi timau/systemau i wella ar ôl y pandemig.
- Cefnogi arloesedd ac ymchwil mewn cydweithrediad â Phrifysgolion lleol.
- Gweithio'n agos gyda Datblygu Sefydliadol, ABCi ac Arweinwyr BIPAB.
- Cynnig arbenigedd i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Tîm Iechyd Galwedigaethol hefyd yn rhoi cymorth i staff a gwirfoddolwyr yn ogystal â darparu cyngor ar gyflyrau hirdymor, gan gynnwys Covid hir i gefnogi staff i aros a dychwelyd i'r gwaith. Mae ffocws penodol wedi'i roi ar gefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith ar ddyletswyddau wedi'u haddasu a/neu fesul cam yn ogystal â chwilio am rolau eraill ar gyfer y staff hynny lle tybiwyd y gallai'r tebygolrwydd o ailafael yn eu rôl barhaol eu rhoi mewn perygl o niwed.

Mae "Ymlacio yn y Capel" wedi parhau eleni, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Caplaniaeth sy'n darparu gofal bugeiliol, ysbrydol a chrefyddol i'r holl staff, ac yn cynnig clust i wrando'n gyfrinachol mewn nifer o'n safleoedd allweddol. Mae hyn yn cynnwys gofal ysbrydol a/neu grefyddol i bawb, arwain addoliad ac offrymu gweddi.

Rydym yn cydnabod y gall lles gael ei ysgogi gan, neu'n gysylltiedig â, gwahanol fathau o dlodi ac allgau ac mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'n rhaglen cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'n Cynllun Pobl 2022-

2025 sydd â'r nod o sicrhau bod y gweithlu'n adlewyrchu'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu yn well ac agor y GIG fel cyflogwr i gymunedau nad ydynt wedi nodi'r GIG yn hanesyddol fel man cyflogaeth posibl. Fel rhan o'n Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol mae hyn yn cefnogi cymunedau o ddiddordeb a'r rhai lle mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gyffredin.

Fel rhan o'n gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau gyda'n staff sy'n cynnwys ymarferion gwrando a sicrhau bod eu profiadau a'u safbwyntiau'n cael eu hystyried. Mae'r dull hwn hefyd yn cynnwys darparu manau diogel i staff godi unrhyw bryderon am nodweddion gwarchoddedig trwy rwydweithiau staff a chaffis Menopos. Rydym wedi rhedeg cyfres o rwydweithiau amrywiaeth yn llwyddiannus, gan ymgysylltu â staff ar bynciau a datblygu cylchlythyr bob pythefnos ynghyd â chefnogi dealltwriaeth o faterion cynhwysiant trwy ymwybyddiaeth, sesiynau hyfforddi ac adnoddau fideo. Cefnogir hyn ymhellach gan yr adolygiad o ystod o dystiolaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol ac rydym yn falch o fod wedi addo ymrwymo i Bolisi Dim Hiliaeth Cymru.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi ennill Gwobr Platinwm ac Aur y Safon Iechyd Corfforaethol yn ddiweddar. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi dal y Wobr Blatinwm ers 2015 a'r Wobr Aur ers 2011. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn daith barhaus o arfer da a gwelliant. Roedd yr asesiad Platinwm diweddaraf ym mis Medi 2021 yn cydnabod y cynnydd rhagorol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud yn ei agenda cynaliadwyedd a'r weledigaeth i'r Bwrdd Iechyd gyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

### **Asesiadau risg a staff yn cysgodi**

Yn ystod y tonnau pandemig Covid-19 cyntaf a'r ail, darparwyd canllawiau ar gysgodi gan Lywodraeth Cymru. Cafodd hyn effaith ar ein staff, yn ogystal â'n cymunedau lleol a gwirfoddolwyr h.y. ni ddylai'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol fynychu'r gweithle mwyach. Er i gysgodi ddod i ben yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2021, rydym wedi parhau i gefnogi'r staff hynny a oedd wedi bod yn cysgodi eu hunain yn flaenrol i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel ac mewn rhai achosion i rôl wahanol i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â dal y feirws.

Roedd yr Asesiad Risg Covid-19 yn arf pwysig i asesu'r risg unigol a berir gan Covid a chwblhaodd dros 80% o'r staff yr asesiad a arweiniodd at amrywiaeth o addasiadau gan gynnwys gweithio mewn ardaloedd Covid ddiogel (lle roedd y risg o Covid yn isel). Diogelwch ein staff yw ein prif bryder o hyd ac rydym yn parhau i weithio gyda thimau Is-adrannol, cynrychiolwyr ochr y staff a gweithwyr banc ac asiantaeth i gefnogi cwblhau asesiad risg gweithlu Covid-19.

## **Adolygiad o farwolaethau staff Covid-19**

Yn anffodus, bu tair marwolaeth staff oherwydd Covid-19. Mae adolygiad wedi'i gynnal a gadarnhaodd fod dau o'r staff yn debygol o fod wedi dal Covid yn y gymuned ac yn seiliedig ar y cyfraddau positifrwydd uchel ar y pryd, ni allai'r adolygiad benderfynu a gafodd y trydydd aelod o staff y firws o ganlyniad i amlygiad yn y gweithle neu o fewn lleoliad cymunedol/cymdeithasol. Roedd teuluoedd y staff yn cael eu cefnogi gan y Bwrdd Iechyd a chydymffurfiwyd â'r polisïau perthnasol, a datblygwyd mesurau dysgu ar unwaith.

## **Hyfforddi Staff i gefnogi COVID-19**

Cydnabyddir yn ystod y flwyddyn flaenorol ac mewn ymateb i don 1 a thon 2 y pandemig i wasanaethau addasu ffyrdd o weithio a chysylltu â chleifion. Arweiniodd hyn at yr angen am hyfforddi a lleoli staff yn unol â'r sgil a'r angen mwyaf. Roedd hyn yn gofyn am raglenni dwys o hyfforddiant sgiliau clinigol ar gyfer staff newydd a phresennol ac rydym wedi parhau i'w hatgyfnerthu dros y cyfnod hwn.

Yn ystod y flwyddyn hon mae gwasanaethau wedi canolbwyntio ar gynlluniau adfer gyda staff yn dychwelyd i'r gwaith yn eu rolau parhaol lle bu hyn yn bosibl. Mae hwn wedi bod yn ddull cynyddrannol ac nid yw wedi colli golwg ar y datblygiadau a wnaed o ran gwahanol fodolau gweithio sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig megis rhith-apwyntiadau ac ymgynghoriadau i gleifion.

Yn ogystal, mae staff wedi parhau i weithio mewn ffordd ystwyth, gan weithio gartref neu mewn lleoliadau amrywiol tra'n gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i gefnogi darparu gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno pecyn meddalwedd Microsoft 365 sydd wedi'i gefnogi gan hyfforddiant staff a thiwtorialau.

Mae cyflwyno rhaglen atgyfnerthu brechlyn COVID wedi parhau i ofyn am staff ychwanegol i weithio mewn canolfannau brechu torfol. Cyflawnwyd hyn trwy gyfuniad o oramser, oriau ychwanegol ac ymarfer adleoli sylweddol i gefnogi'r gofyniad i "ymchwyddo" y ddarpariaeth atgyfnerthu ym mis Rhagfyr 2021.

Roedd hyn yn golygu bod bron i 600 o staff wedi'u hadleoli, ac roedd angen hyfforddiant brys ar lawer ohonynt i sicrhau cymhwysedd wrth roi'r brechlyn. Trefnwyd hyfforddiant staff 7 diwrnod yr wythnos gyda modiwlau ar-lein ac ymarferol yn cael eu darparu.

Cydnabuwyd y byddai gofyn i'n staff weithio'n wahanol ac y byddai cael eu hadleoli unwaith yn rhagor yn anodd i rai. Mae cefnogi lles staff yn ystod eu hadleoli wedi bod yn nodwedd graidd o'n hegwyddorion a'n prosesau adleoli.

## **Ymgysylltu â Staff a Phartneriaid**

Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o fforymau a phrosesau i gefnogi ymgysylltiad staff a phartneriaid, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae'r Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur (TUPF) yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng ein staff a'r Bwrdd Iechyd, gan gofleidio egwyddorion partneriaeth Cyngres yr Undebau Llafur. Mae dull partneriaeth cryfach gyda TUPF a'r Pwyllgor Negodi Lleol (LNC) a sefydlwyd yn gynnar yn y pandemig ac sy'n parhau hyd yma wedi golygu bod newidiadau a phenderfyniadau brys yn cael eu trafod a'u cytuno'n gyflym.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Yn 2021/22, rydym wedi cryfhau ein gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda'n staff, y cyhoedd a wasanaethwn, a'n partneriaid. Mae hyn wedi bod o fudd gwirioneddol yn ystod y Pandemig COVID-19, ac rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu ac arloesi yn ystod y cyfnod hwn. Disgrifir ein gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i arwain y ffordd ar y defnydd o Ymgysylltu a Chyfathrebu Digidol, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol o rannu negeseuon pwysig.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar:

- Helpu trigolion lleol i ddeall y newidiadau diweddar i'n system gofal iechyd;
- Darparu 'llais y gellir ymddiried ynddo' i gyfleu gwybodaeth amserol a chywir;
- Cynyddu ymgysylltiad wyneb yn wyneb a digidol â phobl leol;
- Cyrraedd mwy o bobl gyda negeseuon cyhoeddus pwysig;
- Gwella ein hymgylltiad â chymunedau amrywiol ac anodd eu cyrraedd;
- Ymateb i sylwadau a phryderon, helpu a rhoi sicrwydd i bobl drwy gydol pandemig Covid-19; a
- Sicrhau bod ein staff yn cael eu hysbysu a'u cefnogi'n dda yn eu rolau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld niferoedd ein dilynwyr Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube yn parhau i dyfu, gyda mwy a mwy o bobl yn cyfathrebu â ni trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi lansio cyfrif TikTok i gyrraedd gwahanol gynulleidfaedd.



Rydym wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd proffil uchel ar y Cyfryngau Cymdeithasol trwy ein Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ond hefyd mewn partneriaeth â chyrrff eraill y GIG yng Nghymru a Phartneriaid Cymunedol ehangach, megis Awdurdodau Lleol a chyrrff Trydydd Sector. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws arbennig eleni ar gael mynediad at y gwasanaethau gofal iechyd cywir, rhaglen ymateb a brechu Pandemig COVID-19, recriwtio, a dathlu ein staff. Fe wnaethom hefyd barhau a datblygu ein hymgyrch Dyfodol Clinigol i

hysbysu ac ymgysylltu â phobl ar y newidiadau i wasanaethau iechyd y GIG yn ardal y Bwrdd Iechyd. Ym mis Mawrth 2022, anfonwyd llyfryn gwybodaeth wedi'i ddiweddarau i bob cartref yn y rhanbarth. I weld y llyfryn hwn mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, ewch i'n gwefan: <https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol>



Mae ein hymagwedd 'Digidol yn Gyntaf' wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n weithredol â'n cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol. Gwneir hyn mewn amser real, drwy gwestiynau cleifion a'r cyhoedd ar wasanaethau, eu profiad presennol o'n gwasanaethau, ac ansawdd eu gofal. Mae'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi buddsoddi amser sylweddol mewn cydlynu ac ymateb i dulliau cleifion a'r cyhoedd o ddydd i ddydd.




Eleni rydym wedi ehangu ymhellach ein defnydd o graffeg, clipiau fideo, straeon cleifion a staff, a sesiynau Holi ac Ateb byw i gefnogi ein dulliau mwy traddodiadol o Gyfathrebu ac Ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Cynhyrchwyd fideo animeiddiedig newydd i esbonio sut orau i gael mynediad at ein gwasanaethau. Yn ogystal â chael ei rannu ar-lein ac ar sgriniau ystafelloedd aros, defnyddiwyd y fideo fel rhaghysbyseb mewn sinemâu yn ardal y Bwrdd Iechyd.



Fodd bynnag, gwyddom nad yw pob preswlydd lleol am dderbyn gwybodaeth drwy lwyfannau digidol, felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar ffyrdd mwy traddodiadol o gyfathrebu, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd pobl. Rydym wedi cynhyrchu baneri hysbysebu, posterï a chynnwys sgrin deledu ar gyfer meddygfeydd teulu a manau aros ysbytai. Mae ein posterï hefyd wedi cael eu harddangos mewn



fferyllfeydd lleol ac ar fysiau. Cynhaliom hefyd ymgyrch bosterï lwyddiannus yn targedu pobl drwy dafarndai, tacsï a siopau cludfwyd a oedd yn helpu cyfeirio pobl sâl neu anafedig at wasanaethau iechyd priodol. Rydym hefyd wedi defnyddio ein faniau dosbarthu Bwrdd Iechyd fel 'byrddau hysbysebu symudol' drwy gynhyrchu

hysbysebion trawiadol i'w harddangos arnynt wrth iddynt yrru o amgylch Gwent yn ddyddiol.

Fe wnaethom hefyd ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau lleol fel tîm rygbi'r Dreigiau, a rannodd ein negeseuon ar hysbysebion caeau yn ystod gemau darlledu byw.

Yn ystod 2021, lansiodd y Bwrdd Iechyd Sioe Deithiol Ymgysylltu a Recriwtio 'Gweithio Gyda Ni' i sicrhau ymgysylltiad daearyddol teg â chymunedau i wella dealltwriaeth o fynediad at wasanaethau gofal iechyd, gyda ffocws allweddol ar ddefnyddio'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Grange ac Unedau Mân Anafiadau. Roedd y sioe deithiol hefyd yn gyfle i hyrwyddo amrywiaeth o rolau swyddi o fewn y Bwrdd Iechyd a derbyn datganiadau o ddiddordeb ar gyfer amrywiaeth o swyddi gwag.

Gan gydnabod y cymunedau amrywiol sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd, mae llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod pob cymuned yn cael ei ymgysylltu a'i gyfathrebu yn y ffordd fwyaf priodol. Datblygwyd Fforwm Iechyd Cymunedau Amrywiol yn gynnar yn 2021 i gryfhau perthnasoedd â sefydliadau partner sy'n cefnogi ac eisoes yn gweithio gyda chymunedau amrywiol ac i ddatblygu mentrau i ymgysylltu â'n holl gymunedau.

Crëwyd tudalen we bwrpasol a chynllun cyfryngau cymdeithasol, arddangoswyd cyfathrebu â rhanddeiliaid a dosbarthiad posterï mewn lleoliadau cyn mynychu. Yn ystod yr 88 o leoliadau yr ymwelwyd â hwy gan ein bws deulawr neu gasebo naid a gomisiynwyd yn arbennig, cynhaliwyd 2,000 o sgysiau wyneb yn wyneb ag ymwelwyr a chafwyd 360 o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer rolau swyddi o fewn y Bwrdd Iechyd.




Roedd gwasgariad daearyddol digwyddiadau yn gytbwys gyda ffocws i fanteisio ar ddigwyddiadau arferol, sefydledig (diwrnodau marchnad), presenoldeb mewn lleoliadau naturiol â llawer o ymwelwyr (archfarchnadoedd a lleoliadau canol tref) a phresenoldeb mewn digwyddiadau proffil uchel. Mynychodd y tîm bedwar campws Coleg Gwent hefyd. Cefnogwyd y sioeau teithiol gan bartneriaid o awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector.

Mae'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu hefyd wedi gallu cynorthwyo ymgyrch y Bwrdd Iechyd i recriwtio staff newydd i rolau hanfodol trwy Farchnata Digidol, Hysbysebu a'r Sioeau Teithiol 'Gweithio Gyda Ni'. Mae'r dull hwn yn rhoi cyrhaeddiad i'r Bwrdd Iechyd na allem ei gyflawni drwy ddulliau a chyfryngau traddodiadol.

Mae ein sioe deithiol a digwyddiadau ymgysylltu eraill o amgylch Gwent yn ein galluogi i siarad yn uniongyrchol â thrigolion a cheisio eu barn. Mae unrhyw adborth a roddir yn cael ei gofnodi gan ein Tîm Ymgysylltu a'i fwydo'n ôl yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd drwy system adrodd. Cyhoeddir manylion ein digwyddiadau ymgysylltu a'u rhannu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod pobl leol ym mhob ardal yn cael y cyfle i ddod draw i siarad â ni wyneb yn wyneb. Mae hyn yn helpu meithrin cyd-ddealltwriaeth a pherthnasoedd gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ganddo saith nod llesiant ac mae'n dweud wrth sefydliadau sut i gydweithio'n fwy cynaliadwy i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf drwy ddilyn pum ffordd o weithio.



Yn ystod 2021/22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio mewn partneriaeth a mabwysiadu'r pum ffordd o weithio i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) ('y Ddeddf')

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae Gwasanaeth Profi, Orlhain ac Amddiffyn Gwent a Rhaglen Brechu Torfol Covid-19 BIPAB wedi'u darparu mewn dull integredig, cydweithredol gyda phartneriaid a chyda chyfranogiad cymunedau lleol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd i atal trosglwyddo heintiau a salwch difrifol a galluogi adferiad hirdymor. Mae ffyrdd newydd a mwy cynaliadwy o ymgysylltu â chleifion a'u trin wedi parhau, megis rhith-apwyntiadau/ymgyngoriadau ar gyfer Meddygon Teulu ac Ymgynghorwyr a galluogi staff i weithio mewn ffordd fwy hyblyg ac ystwyth, gan gynnwys defnyddio llwyfannau cyfarfod electronig.

Mae ffurfio un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (PSB) yn 2021/22 wedi dod â'r Bwrdd Iechyd, y pum awdurdod lleol yng Ngwent a phartneriaid ehangach ynghyd i weithio mewn partneriaeth i wella llesiant. Drwy ddod â'r hyn a oedd gynt yn PSBs pum awdurdod lleol llai at ei gilydd yn un PSB rhanbarthol, mae gwaith PSB Gwent wedi dangos **integreiddio** a **chydweithio** drwy gyflymu trefniadau partneriaeth i ddatblygu ymagweddau integredig at les yn rhanbarth Gwent. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2021, amlinellodd PSB Gwent ei [raglen waith](#) ar gyfer y dyfodol i'w gynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau a'i flaenoriaethau.

Mae **cyfranogiad** wedi'i ddangos yn 2021/22 drwy ddatblygu adroddiad a chanfyddiadau [Asesiad Llesiant Gwent](#) ac ymgynghoriad cyhoeddus arnynt. Mae meddwl **hirdymor** ac **atal** yn cael eu datblygu drwy benderfyniad PSB Gwent ym Mawrth 2022 i ddod yn 'Ranbarth Marmot' a chyflymu taith i fynd ymhellach ac yn gyflymach i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd sef 'achosion' iechyd gwael.

Mae'r adolygiad o Amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd a'r dull adrodd a monitro yn dal i esblygu – proses sydd wedi bod yn ddealladwy yr effeithir arnynt yn 2021/22 gan y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ddeg amcan Llesiant presennol. Mae cynnydd hunanasesu'r Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddeg Amcan Llesiant ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 i'w weld yn y tabl isod.

<b>Ein Hamcanion Llesiant</b>	<b>Ble rydyn ni nawr</b>
1 – Cefnogi pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi cymorth i bob plentyn yng Ngwent i sicrhau'r dechrau bywyd gorau	<b>Bod yn Fwy Anturus</b>
2 – Cefnogi oedolion a phlant yng Ngwent i fyw'n iach ac i heneiddio'n iach fel eu bod yn gallu byw'n annibynnol a mwynhau ansawdd bywyd da yn ystod eu henaint	<b>Gwneud Newidiadau Syml</b>
3 – Hybu Llesiant Meddwl fel Sylfaen i iechyd, creu cymuned bersonol a chymunedol	<b>Bod yn Fwy Anturus</b>
4 – Annog cyfranogiad pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi mewn penderfyniadau ar y cyd am eu hiechyd eu hunain a'u cynlluniau gofal ac mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaeth ehangach fel ein bod ni, gyda'n partneriaid, yn cyflenwi'r deilliannau sydd o'r pwys mwyaf i bobl	<b>Gwneud Newidiadau Syml</b>
5 - Sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd effeithlon gorau o adnoddau GIG wrth gyflawni deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau a chleifion drwy systemau cyfathrebu monitro ac olrhain rhagorol ym mhob maes clinigol	<b>Perchnogi ein Huchelgais</b>
6 - Hyrwyddo Gweithlu amrywiol sy'n gallu arddangos eu traddodiad diwylliannol gyda chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	<b>Gwneud Newidiadau Syml</b>
7 - Datblygu ein staff i fod y gorau y gallan nhw fod gyda lefelau uchel o lesiant cyfogai ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, hyrwyddo gyrfaedd GIG a darparu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith	<b>Bod yn Fwy Anturus</b>
8 - Lleihau ein heffaith amgylcheddol negyddol drwy raglen creu cyfalaf cyfrifol a dull cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau adeiladu gan gynnwys rheoli carbon a gwastraff, cynnal caffael ar sail cost cylch bywyd cyfan a chefnogi caffael yn lleol, hybu teithio cynaliadwy ac actif a hyrwyddo gwelliannau mewn iechyd amgylcheddol	<b>Gwneud Newidiadau Syml</b>
9 – Cynllunio a sicrhau gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy a hygyrch yn ymestyn o atal hyd at adsefydlu ac adfer sy'n cyflawni anghenion y presennol a'r dyfodol ac yn delio ag anghyfartaleddau iechyd a lefelau gwahanol angen ar draws ein cymunedau.	<b>Perchnogi ein Huchelgais</b>
10 – Parhau i integreiddio ein camau gyda phartneriaid ehangach y sectorau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau llyfn system gyflawn ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r rhai y maen nhw'n eu cefnogi.	<b>Perchnogi ein Huchelgais</b>

Parhaodd 2021/22 yn flwyddyn heriol oherwydd y pandemig. Serch hynny, parhaodd y Bwrdd Iechyd ar ei daith i ymgorffori'r Ddeddf yn ei benderfyniadau. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd agwedd ragweithiol at ymgorffori egwyddorion y Ddeddf yn y modd y mae'n cynllunio, yn dylunio ac yn darparu ei wasanaethau, mae'n cydnabod bod llawer mwy i'w wneud o hyd.

Mae'r Ddeddf yn parhau i fod yn flaenoriaeth arweinyddiaeth i'r Bwrdd Iechyd, a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae nifer o gamau a fydd yn ei alluogi ymhellach i barhau i gyflawni yn erbyn dyheadau'r Ddeddf, gan ymgorffori'r pum ffordd o weithio ar draws ei swyddogaethau, a dangos cynnydd yn erbyn ei Amcanion Llesiant.

## Y Gymraeg

Yn unol â Safon y Gymraeg 120, cyhoeddwyd [Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2020/21](https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/welsh-language-standards-report-2020-2021-welsh1-pdf/) <<https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/welsh-language-standards-report-2020-2021-welsh1-pdf/>> ym mis Medi 2021, sy'n mynd i'r afael â dyletswydd statudol y Bwrdd Iechyd i ddarparu cyfrif blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd yr adroddiad dderbyniad da gan Swyddfa'r Comisiynydd a rhanddeiliaid.


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd nodedig o ran datblygu arferion gwaith a systemau i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth gyda hwyluso a monitro gweithrediad Safonau'r Gymraeg ac arfer dwyieithog da.

Mae prosesau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi amlygu'r anghysondebau hynny sy'n parhau ar draws amrywiol feysydd gwasanaeth. Mae cynlluniau gweithredu meysydd gwasanaeth wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn.

## Sgiliau Iaith Gymraeg y Gweithlu


Mae'n ofynnol i staff hunanardystio eu gallu yn y Gymraeg drwy'r Gofrestr Staff Electronig (ESR). Mae'n bleser gennym adrodd ar gynnydd o 10% mewn cydymffurfiaeth sefydliadol yn ystod 2021/22, gyda chynnydd cyffredinol o 27.92% ers gweithredu'r Safonau (gweler y set ddata isod). Rydym yn cydnabod y bydd cynnydd yn gynyddrannol a byddwn yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cwblhau trwy ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu ac archwiliadau adrannol.

Mae cydymffurfiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn 61.08%.



## Sgiliau Iaith y Gweithlu Presennol

Defnyddir data a gesglir o'r system ESR i ddadansoddi sgiliau ieithyddol y gweithlu a dylid ei ddefnyddio i lywio cynllunio'r gweithlu.



## Cwynion


Gellir darllen arddangosiad ffurfiol y Bwrdd Iechyd o ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y [Weithdrefn Cwynion Iaith Gymraeg](#).

Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau allanol yn ystod y cyfnod adrodd.

Cawsom un ar ddeg o gwynion yn uniongyrchol ac fe'u datryswyd gyda chydweithrediad yr arweinwyr gwasanaeth cysylltiedig ac yn unol â'r Rheoliadau *Gweithio i Wella*. Roedd wyth o'r cwynion yn ymwneud â pherfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg ar gyfer darparu gwasanaethau, dwy mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn Safonau gweithredol y Gymraeg ac un mewn perthynas â Gofal Sylfaenol.

## Cynllunio Gweithlu Dwyieithog: Recriwtio i Swyddi Newydd a Gwag

Yn unol ag amcanion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, rydym wedi dangos cynnydd cyson yn nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebir gyda'r meini prawf: Cymraeg yn Hanfodol, Dymunol ac angen dysgu Cymraeg (gweler y set ddata isod).



Mae hwn yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau y gall ein gweithlu fodloni ein gofynion cyfreithiol a chynyddu capasiti, gan ddatblygu gweithlu gwirioneddol ddwyieithog.

## Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth

Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd Seiliedig ar Werth at wasanaethau iechyd a gofal, gan fesur a gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

Mae'r rhaglen Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yn darparu'r gallu i sicrhau ffyrdd arloesol a thrawsnewidiol o drefnu a darparu gofal o amgylch y claf, teuluoedd a gofawyr. Bydd modelau wedi'u hail-ddylunio yn cael eu llywio gan ddata a thystiolaeth, gyda ffocws clir ar ganlyniadau cleifion.

Rydym yn canolbwyntio ar yr arbenigeddau canlynol i ddarparu canlyniadau a phrofiadau gwell i gleifion tra'n galluogi gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon.

- Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf
- Gwybodeg Iechyd a Dadansoddi Data
- Rheoli Prosiect
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Ymchwil ac Arloesi
- Partneriaethau Diwydiant Strategol

## Gwasanaeth Methiant y Galon: Gwella canlyniadau i gleifion â Methiant y Galon â Ffraciwn Alldaflid Llai (HFREF)

Yn ystod 2021/22, mae arbenigwyr nyrsio Methiant y Galon yn datblygu dull seiliedig ar Werth, gwella lles cleifion, gwella canlyniadau a lleihau derbyniadau i'r ysbyty, achub bywydau. Roedd y gwasanaeth yn derbyn cynnydd yn nifer y cleifion a oedd yn cyflwyno HFrEF, nid oeddent yn gallu bodloni canllawiau NICE ynghylch mynediad, optimeiddio meddyginiaeth ac apwyntiadau dilynol amserol.



Drwy weithio gydag amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r Tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, maent yn datblygu llwybr claf newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion a ryddhawyd o gardioleg aciwt gyda diagnosis yn ystod y 12 mis diwethaf. Gweithredwyd system e-atgyfeirio, blaenoriaethwyd apwyntiadau yn seiliedig ar y data canlyniadau, a throsglwyddwyd achosion cymhleth a brys i gardiolegwyr ar gyfer gofal arbenigol. Mae'r dull newydd Seiliedig ar Werth wedi symleiddio'r broses gyfan, gan dorri i lawr ar amseroedd aros a rhyddhau capasiti, sydd yn y pen draw yn gwella profiad a chanlyniadau i gleifion a'u teuluoedd.

Roedd y canlyniadau allweddol yn cynnwys:

- Gostyngiad yn yr amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiad 1<sup>af</sup> o 8 wythnos i 2 wythnos
- Gostyngiad yn yr amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiad 1<sup>af</sup> ac 2<sup>il</sup> o 75 diwrnod i 35 diwrnod
- Gostyngodd optimeiddio meddyginiaeth o 384 diwrnod i 143 diwrnod (cyfartaledd)
- Ni chafodd 97% o gleifion yn ystod y cyfnod hwnnw eu haillderbyn â diagnosis sylfaenol o Fethiant y Galon

## Cynllunio Parhad Busnes a Brys

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (CCA) 2004 a mesurau anneddfwriaethol cysylltiedig, yn darparu fframwaith statudol o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn sifil ar lefel leol.

Mae Cynllun Digwyddiad Mawr y Bwrdd Iechyd yn darparu'r Fframwaith a ddefnyddir gan y sefydliad, fel Ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (CCA) 2004, i ymateb i Ddigwyddiad Mawr neu Argyfwng (fel y'i diffinnir yn y CCA). Mae'r CCA yn diffinio argyfwng fel "digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lle yn y DU, amgylchedd lle yn y DU, neu ryfel neu derfysgaeth sy'n bygwth niwed difrifol i ddiogelwch y DU".

Mae Polisi Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd yn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a phrosesau i ymateb i ddigwyddiad andwyol ac fe'i hategir gan gynlluniau corfforaethol ac is-adrannol i gynnal gwasanaethau hanfodol yn ddiogel nes bod 'busnes fel arfer' wedi'i adfer.

Drwy gydol y pandemig sefydlwyd strwythur gorchymyn a rheoli o fewn y Bwrdd Iechyd ac yn cydgysylltu â sefydliadau partner yng Ngwent a ledled Cymru. Darparodd y strwythur hwn fframwaith llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymateb ar lefel strategol, tactegol a gweithredol, a gweithio gyda phartneriaid i weithio ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

## Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol

Mae Cyfrifon Blynyddol 2021/22, yn Adran 3 o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22, Tudalen 187, yn nodi'r cyfrifon manwl ar gyfer y flwyddyn lawn hyd at 31 Mawrth 2022 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Paratwir y cyfrifon hyn o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddwy ddyletswydd ariannol statudol:

- Mantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd; a
- Chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i sicrhau cydymffurfiaeth ag adennill costau dros dair blynedd.

O dan y ddyletswydd dreigl 3 blynedd, a gyflwynwyd gyda Deddf y GIG (Cymru) 2014, cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol statudol gyntaf ar ddiwedd 2016/17 pan gafodd ei chyflawni. Mae'r targed wedi'i gyflawni eto, yn amodol ar archwiliad, yn 2021/22.

Mewn perthynas â'r ail ddyletswydd, sicrhodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth LIC i'r IMTP ar 27 Mawrth 2019. Mae'r nodyn yn y cyfrifon yn dangos bod y ddyletswydd hon wedi'i chyflawni. (*Nodyn 2.3 o'r Cyfrifon Blynyddol 2021/22*).

## Perfformiad Adnoddau Refeniw

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei Derfyn Adnoddau Refeniw am y flwyddyn a chyflawnodd warged o £249k. Yn erbyn y doll adennill costau dros gyfnod treigl o flwyddyn, mae Cyfrifon Blynyddol 2021/22 yn nodi gwarged o £526k fel y dangosir yn y tabl isod:

Treth adennill costau refeniw 3 blynedd	2019/20 £000	2020/21 £000	2021/22 £000	Cyfanswm £000
Tanwariant yn erbyn dyraniad	32	245	249	526

## Perfformiad Adnoddau Cyfalaf

Yn ogystal â therfyn adnoddau refeniw mae gan y Bwrdd Iechyd derfyn adnoddau cyfalaf (CRL) sy'n gosod y targed ar gyfer gwariant cyfalaf. Cyrhaeddwyd y targed o £48.9m yn 2021/22 gyda thanwariant bychan o £50k. Mesurir y targed dros gyfnod o 3 blynedd fel y dangosir yn y tabl isod:

Treth adennill costau cyfalaf 3 blynedd	2019/20 £000	2020/21 £000	2021/22 £000	Cyfanswm £000
Tanwariant yn erbyn dyraniad	28	13	50	91

## Targedau Eraill Cysylltiedig

- **Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus**

Mae'r targed hwn ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â thalu 95% o'i gredydwy'r masnach o fewn 30 diwrnod. Yn 2021/22, cyflawnwyd y targed gyda ffigwr blwyddyn lawn o 95.0%.

- **Balans Arian Parod**

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targed tybiannol i Fyrddau Iechyd yng Nghymru gael balansau arian parod diwedd cyfnod heb fod yn fwy na £6m. Ar gyfer 2021/22, daeth blwyddyn y Bwrdd Iechyd i ben gyda balans arian parod gwir o £1.7m ac felly roedd o fewn y targed.

## Casgliad a Rhagolwg

Bu cryn ddysgu ar draws y Bwrdd Iechyd dros y deuddeg mis diwethaf a fydd yn llywio sut rydym yn ymateb ac yn gwneud cynnydd yn ystod 2022/23. Nid yw hyn yn fater o ddim ond ystyried sut y gwnaethom ymateb i heriau uniongyrchol yr amrywiadau o bryder a'r tonnau olynol o Covid-19, nac effaith ehangach y ddwy flynedd ddiwethaf ar ein poblogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir. Rydym hefyd wedi dysgu sut y gall argyfwng alluogi trawsnewid i ffynnu ar draws y system.

Fel sefydliad, ein cenhadaeth yw gwella iechyd y boblogaeth, a, thrwy wneud hyn, lleihau'r anghydraddoldeb iechyd sy'n bodoli ar draws ein cymunedau. Mae'r bwlch presennol o 18 mlynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng ein cymunedau cyfoethocaf a thlotaf yn sylweddol. Canlyniadau anghydraddoldeb sy'n golygu bod angen ein gwasanaethau ar nifer fwy o ddinasyddion. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi gwaethygu'r bwlch, felly, wrth inni edrych i'r dyfodol, rhaid inni ganolbwyntio'n ddiflino ar leihau anghydraddoldeb iechyd fel rhan o wella iechyd cyffredinol y boblogaeth.

Cymeradwywyd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2022/25 gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 ac mae'n ddilyniant naturiol o'n Cynllun Blynyddol 2021/22. Mae'n adeiladu ar y dull cwrs bywyd, tra'n cydnabod y

galw gweithredol presennol ac yna'n canolbwyntio ar adferiad realistig, cynaliadwy.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar asesiad realistig o gyflawni dros y tair blynedd nesaf; mae'n optimistaidd yn ei hagwedd, gan gydnabod yr angen i adeiladu ar y newidiadau i wasanaethau a gyflawnwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'n canolbwyntio ar wneud y newidiadau hynny'n gynaliadwy, i ddiwallu anghenion hirdymor ein cymunedau.

Nid yw ond yn iawn i orffen drwy ailadrodd y sylwadau a wnaed ar ddechrau'r adroddiad hwn a diolch i'n staff am y ffordd y maent wedi ymateb i heriau parhaus y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos gwytnwch, dewrder, egni, dyfeisgarwch a medrusrwydd gwych.

Glyn Jones  
**Glyn Jones**  
**Prif Weithredwr Dros Dro**  
**2022**

**Dyddiad: 14 Mehefin**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**  
**Adran 2: Adroddiad Atebolrwydd**  
**1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022**

**CYFLWYNIAD I'R ADRODDIAD ATEBOLRWYDD**

Mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyhoeddi, fel rhan o'n hadroddiad blynyddol, Adroddiad Atebolrwydd. Diben yr adran Adroddiad Atebolrwydd yn yr Adroddiad Blynyddol yw dangos y ffyrdd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd â'i ofynion atebolrwydd ac adrodd allweddol.

Mae gan yr Adroddiad Atebolrwydd dair rhan:

**1. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**

Mae hyn yn egluro cyfansoddiad y Bwrdd Iechyd, ei strwythurau a'i drefniadau llywodraethu a sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cyflawni ei amcanion a'i gyfrifoldebau i ddiwallu anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

- I. Adroddiad y Cyfarwyddwyr
- J. Datganiad y Prif Weithredwr fel y Swyddog Atebol a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon
- K. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**2. Adroddiad Cyflogau a Staff**

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am staff y sefydliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar dâl ei Fwrdd a'i uwch reolwyr, cymarebau tâl teg a gwybodaeth arall am staff, megis cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch.

**3. Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol**

Mae'r adran hon yn cynnwys amrywiaeth o ddatgeliadau ar reoleidd-dra gwariant, ffioedd, taliadau, cydymffurfiaeth â dyrannu costau, rhwymedigaethau materol wrth gefn o bell, tueddiadau gwariant hirdymor a gofynion codi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 2021/22**

## **ADRAN A: ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR**

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan yn gorff statudol a sefydlwyd ar 1 Mehefin 2009 ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Hydref 2009 o dan *Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778)*, "y Gorchymyn Sefydlu".

Mae *Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (OS 2009/779)* ("Rheoliadau'r Cyfansoddiad") yn nodi cyfansoddiad a threfniadau aelodaeth Byrddau Iechyd Lleol, penodiadau a gofynion cymhwysra aelodau, y tymor swydd aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt. Yn unol â'r Rheoliadau hyn mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnwys:

- cadeirydd;
- is-gadeirydd;
- aelodau sy'n swyddogion; ac
- aelodau nad ydynt yn swyddogion.

Gelwir aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd yn "y Bwrdd" neu "aelodau'r Bwrdd"; cyfeirir at yr aelodau sy'n swyddogion ac aelodau nad ydynt yn swyddogion (sy'n cynnwys y Cadeirydd) fel Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn y drefn honno. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio llawn.

Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at dri aelod cyswllt. Nid oes gan aelodau cyswllt unrhyw hawliau pleidleisio.

Cyn y caniateir i unigolyn gael ei benodi'n aelod neu'n aelod cyswllt rhaid iddo fodloni'r gofynion cymhwysra perthnasol, a nodir yn *Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (OS 2009/779)* ("Rheoliadau'r Cyfansoddiad"), a pharhau i gyflawni'r gofynion perthnasol drwy gydol yr amser y maent yn dal swydd. Gellir gweld y Rheoliadau ar wefan ddeddfwriaeth y Llywodraeth:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents/made>

Mae rhagor o fanylion am aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd yn ystod 2021/22 ar gael yn Adran C: Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### **Buddiannau Aelodau'r Bwrdd**

Mae manylion swyddi cyfarwyddwyr cwmni a buddiannau arwyddocaol eraill sydd gan aelodau'r Bwrdd a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn cael eu cadw a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r ddogfen, y gellir ei gweld yn y ddolen isod, yn dangos manylion swyddi cyfarwyddwyr sefydliadau eraill neu fuddiannau eraill sydd wedi'u datgan gan aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a staff ar draws y sefydliad, yn unol â'r Safonau Polisi Ymddygiad Busnes, ar 31 Mawrth

2022. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd a gellir ei chyrchu trwy ddilyn y [ddolen](#) hon.

## **Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol**

Ceir manylion gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol a adroddir yn ffurfiol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" sy'n ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd ar dudalen 31 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn Adran C.

## **Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol**

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r effaith bosibl y mae gweithrediad y Bwrdd Iechyd yn ei chael ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i, lle bynnag y bo modd:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwyddbau Llywodraeth Cymru;
- Gweithio mewn modd sy'n gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod materion amgylcheddol tymor hir a thymor byr yn cael eu hystyried; ac
- Atal llygredd a lleihau'r effaith amgylcheddol bosibl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ceisio gwella cydnerthedd a bioamrywiaeth ar draws ystâd y Bwrdd Iechyd.

Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2021/22 a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 (cymeradwywyd Mawrth 2022) yn nodi blaenoriaethau strategol y Bwrdd sydd wedi'u gosod o fewn y cyd-destun (materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol) y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo.

Mae'r Adroddiad Perfformiad (Rhan A) o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 yn rhoi mwy o fanylion mewn perthynas â chyflawniad y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni Cynllun Blynyddol 2021/22.

## **Pandemig COVID-19**

Cyhoeddwyd COVID-19 yn bandemig gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020. Arweiniodd hyn wedyn at angen i sefydliadau'r GIG, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ganolbwyntio ar baratodau a chynlluniau ar gyfer ymateb i'r pandemig. Drwy gydol 2020/21 a 2021/22, roedd natur a graddfa'r ymateb yn newid yn barhaus ac yn gofyn am ymateb ystwyth.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni newidiodd rôl a phwrpas sylfaenol y Bwrdd. Roedd y Bwrdd yn parhau i ofyn am, a chael, sicrwydd parhaus, nid yn unig

ar barodrwydd y gwasanaeth ac ymateb ond hefyd ar arweinyddiaeth glinigol, ymgysylltu a pherchnogaeth cynlluniau datblygu mewn perthynas ag iechyd a lles staff; ar gyfathrebu rhagweithiol, ystyrlon ac effeithiol gyda staff a'r cyhoedd ar bob lefel; ac ar barodrwydd systemau iechyd a gofal.

Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwn wedi'u nodi ymhellach yn Adran C: Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### **Datganiad o Ddeiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**

Fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac yn unol â'r gofynion datgelu a nodir gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM, cadarnhaf fod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a bennwyd yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

## **ADRAN B: DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN**

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan. Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol.

Fel Swyddog Atebol, rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylid fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel Swyddog Atebol, cadarnhaf fod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a bod y dyfarniadau sydd eu hangen ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Fel Swyddog Atebol, fi sy'n gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cânt eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Glyn Jones

---

**Enw:** Glyn Jones, Prif Weithredwr Dros Dro  
Mehefin 2022

**Dyddiad:** 14

## **DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON AR GYFER 2021/22**

Dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd Lleol ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd Lleol am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan a ddilynydd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau sylweddol a ddatgelir ac a eglurir yn y cyfrif.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd a grybwyllwyd uchod gan Weinidogion Cymru.

### **Trwy Orchymyn y Bwrdd**

#### **Llofnodwyd:**

Ann Lloyd  
Ann Lloyd Cadeirydd  
Dyddiad: 14 Mehefin 2022

Glyn Jones  
Glyn Jones, Prif Weithredwr Dros Dro  
Dyddiad: 14 Mehefin 2022

Robert Holcombe  
Robert Holcombe, Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a VBHC Dros Dro  
Dyddiad: 14 Mehefin 2022

## **ADRAN C: DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL, 2021/ 22**

### **CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad ar yr un pryd yn bersonol gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.


Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a chyda phartneriaid mewn ymateb i'r pwysau digynsail wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i roi. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu, fodd bynnag y bwriad fu lleihau dyblygu lle bo modd. Felly mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu (DLI) hwn.

### **EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A SICRWYDD**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y sefydliad. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn y Rheoliadau BILL (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac ynghyd â mabwysiadu cynllun materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, cynllun o dirprwyo i swyddogion ac eraill a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac ystod o bolisiau corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd a threfniadau'r sefydliad.

Mae'r diagram trosodd yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu a sicrwydd sydd ar waith yn ystod 2021/22:

## Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd 2021-2022



\* RATS – Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

## Aelodaeth y Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau

Mae **Atodiad 1** yn nodi aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2021/22 a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer y cyfnod hwn.

Bu newid sylweddol i aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2021/22, fel yr amlinellir yn Nhabl 1 isod:

TABL 1		
Enw	Dynodiad	Dyddiadau (os yn llai na blwyddyn lawn)
<b>Cyfarwyddwyr Gweithredol</b>		
Judith Paget	Prif Weithredwr	Tan 31 Hydref 2021
Glyn Jones	Prif Weithredwr Dros Dro	O 1 Tachwedd 2021
Glyn Jones	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad/Dirprwy Weithredwr	Tan 31 Hydref 2021
Rob Holcombe	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, Caffael a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth	O 1 Tachwedd 2021
Dr James Calvert	Cyfarwyddwyr Meddygol	Blwyddyn Lawn
Geraint Evans	Cyfarwyddwr Gweithlu ac OD	Tan 31 Awst 2021
Sarah Simmonds	Cyfarwyddwr Gweithlu ac OD	O 22 Gorffennaf 2021
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG	Tan 31 Hydref 2021
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG/	O 1 Tachwedd 2021

	Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro	
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Nyrsio	Blwyddyn Lawn
Nick Wood	Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl	Tan 5 Rhagfyr 2021
Peter Carr	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Blwyddyn Lawn
Dr Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol	Blwyddyn Lawn
Dr Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl (yn ogystal â rôl barhaol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol)	O 6 Rhagfyr 2021 hyd 28 Chwefror 2022
Dr Chris O'Connor	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl	O 28 Chwefror 2022
<b>Aelodau Annibynnol</b>		
Ann Lloyd	Cadeirydd	Blwyddyn Lawn
Emrys Elias	Dirprwy Gadeirydd	Tan 30 Medi 2021
Pippa Britton*	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Tan 17 Hydref 2021
Pippa Britton	Dirprwy Gadeirydd Dros Dro	O 18 Hydref 2021
Katija Dew	Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)	Blwyddyn Lawn
Shelley Bosson	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Blwyddyn Lawn
Louise Wright	Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)	Blwyddyn Lawn
Richard G Clarke	Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol)	Blwyddyn Lawn
Yr Athro Helen Sweetland	Aelod Annibynnol (Prifysgol)	Blwyddyn Lawn
Paul Deneen	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Blwyddyn Lawn
Gwag	Aelod Annibynnol (Cyllid)	Blwyddyn Lawn
Gwag	Aelod Annibynnol (Digidol)	Blwyddyn Lawn
Gwag (Swydd barhaol Pippa Britton)	Aelod Annibynnol (Cymuned)	O 18 Hydref 2021
<b>Cyfarwyddwyr Presennol**</b>		
Claire Birchall	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Tan 2 Mai 2021
Leanne Watkins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro	O 12 Ebrill 2021 hyd 16 Mawrth 2021
Leanne Watkins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	O 17 Mawrth 2022

<b>Cynghorwyr Arbenigol i'r Bwrdd***</b>			
Chris Koehli	Cynghorydd Bwrdd	Arbenigol i'r	Tan 17 Gorffennaf 2021
Phil Robson	Cynghorydd Bwrdd	Arbenigol i'r	Blwyddyn Lawn
<b>Aelodau Cyswllt****</b>			
Keith Sutcliffe	Cadeirydd, Rhanddeiliaid	Grŵp Cyfeirio	Blwyddyn Lawn
Gwag	Cadeirydd, Iechyd Proffesiynol	Fforwm Gweithwyr	Blwyddyn Lawn
Gwag	Cyfarwyddwr Cymdeithasol	Gwasanaethau	Blwyddyn Lawn
<b>Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol*****</b>			
Richard Howells	Ysgrifennydd y Bwrdd		Tan 30 Tachwedd 2021
Rani Mallison	Ysgrifennydd Bwrdd/Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	y	O 28 Tachwedd 2021

*\* Ym mis Hydref 2021, dechreuodd Emrys Elias, Is-Gadeirydd, rôl dros dro fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Er bod trefniadau interim wedi'u rhoi ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r Bwrdd Iechyd i beidio â phenodi rhywun yn ei le yn barhaol am 18 mis. Felly mae Pippa Britton wedi'i phenodi'n Is-Gadeirydd Dros Dro, gan adael ei rôl barhaol fel Aelod Annibynnol (Cymuned) yn wag dros dro.*

*\*\*Nid yw'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn Swydd Gweithredol. Felly nid yw'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn Aelod o'r Bwrdd ac mae'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd heb hawliau pleidleisio.*

*\*\*\*Mae gan y Bwrdd ddisgresiwn i benodi Ymgynghorwyr Arbennig i'w gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau. Nid yw Ymgynghorwyr Arbennig yn Aelodau Bwrdd ac felly maent yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd heb hawliau pleidleisio.*

*\*\*\*\*Mae Aelodau Cyswllt yn Aelodau o'r Bwrdd ond nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.*

*\*\*\*\*\* Yn annibynnol ar y Bwrdd, mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel gwarcheidwad llywodraethu da o fewn y BIL. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd cyfan ac i aelodau unigol y Bwrdd ar bob agwedd ar lywodraethu. Ar 14 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth newid teitl gweithredu ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd i fod yn Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.*

Yn dilyn ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus Gweinidogol, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cadarnhau penodiad Iwan Jones yn Aelod Annibynnol (Cyllid) ym mis Ebrill 2022; a phenodi Dafydd Vaughan, Aelod Annibynnol (Digidol), ym mis Mai 2022.

Er bod rolau ar y Bwrdd yn wag, roedd aelodau eraill o'r Bwrdd yn cwmpasu cyfrifoldebau i sicrhau parhad busnes a threfniadau llywodraethu effeithiol. Mynychodd Aelodau Annibynnol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd lle'r oedd angen i sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd o hyd ac y gellid cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd.

Oherwydd nifer y swyddi interim o fewn y Bwrdd, mae'r Cadeirydd gyda'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn gweithio i sefydlogi newidiadau o

fewn y Tîm Gweithredol a sicrhau proses sefydlu, datblygu a chynllunio olyniaeth gadarn ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

## Rôl y Bwrdd

Mae'r Bwrdd, dan gadeiryddiaeth Ann Lloyd CBE, wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau, gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys unigolion o ystod o gefndiroedd, disgyblaethau a meysydd arbenigedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a naw Aelod Annibynnol arall a'r Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae yna hefyd Aelodau Annibynnol Cyswllt, Ymgynghorwyr Arbennig ac uwch reolwyr eraill sy'n mynychu Cyfarfodydd Bwrdd yn rheolaidd. Amlinellir aelodaeth llawn y Bwrdd a'u rolau arweiniol a'u cyfrifoldebau pwyllgor yn **Atodiad 1**.

Mae'r Bwrdd yn eistedd ar frig systemau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. Ei brif rôl yw arfer arweinyddiaeth effeithiol, darparu cyfeiriad strategol a rheolaeth. Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol yn y sefydliad a minnau, fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol, sy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol.

I grynhoi, mae'r Bwrdd:

- Yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad o fewn polisiau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru;
- Sefydlu a chynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol;
- Sicrhau bod nodau ac amcanion y sefydliad yn cael eu cyflawni trwy herio perfformiad yn effeithiol a chraffu arno ar draws pob maes cyfrifoldeb;
- Yn monitro cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol a blynyddol; ac
- Yn sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol drwy weinyddiaeth effeithiol a defnydd economaidd o adnoddau.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes sydd wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau BILI (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gadwyd yn ôl i'r Bwrdd; cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio – ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae Adran 3 o Reolau Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nodi "*Caiff y Bwrdd, a lle y cyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru, rhaid iddo, benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i gyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd wrth arfer ei swyddogaethau*". Yn unol â'r gofynion hyn, roedd gan y Bwrdd Iechyd Strwythur Pwyllgorau ar waith ar gyfer 2021/22.

Ym mis Rhagfyr 2020, cydnabu'r Bwrdd bwysigrwydd dysgu o'r diwylliant darbodus, ystwyth, trawsnewidiol a ddatblygwyd gan y GIG a phartneriaid yn ystod y pandemig a chymeradwyodd Strwythur Pwyllgorau diwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021. Roedd y trefniadau diwygiedig hyn yn hyrwyddo strwythur mwy cyfyng, tra'n cynnal proses graffu a sicrwydd effeithiol ynghylch penderfyniadau strategol y Bwrdd Iechyd, ei atebolrwydd ariannol a'i ganlyniadau i gleifion.

Yn ystod 2021/22, roedd y Pwyllgorau canlynol yn eu lle:

- Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Pwyllgor Diogelwch Cleifion, Ansawdd a Chanlyniadau
- Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae'r Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu, agendâu cyfarfodydd a phapurau ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau hyn ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd.

Cadeiriwyd y Pwyllgorau hyn gan Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgor. Mae hyn yn cyfrannu at asesiad y bwrdd o risg, lefel y sicrwydd a chraffu yn erbyn cyflawni amcanion. Yn ogystal, ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i bob pwyllgor lunio adroddiad blynyddol.

Yn ogystal, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Strategaeth, Cynllunio, Partneriaethau a Lles. Roedd gan hwn fodel aelodaeth gwahanol, sy'n cynnwys holl Aelodau Annibynnol ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd. Mae hyn yn cydnabod bod y Grŵp wedi'i gyfansoddi i ganolbwyntio ar ddatblygu strategol a materion cynllunio tymor canolig a hwy, yn hytrach na gweithredu fel grŵp sicrwydd at ddibenion craffu.

Drwy gydol y pandemig COVID-19, mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol tra'n ddigon ystyryth i fodloni'r gofynion a roddir ar y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol sydd wedi'i roi ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, o ganlyniad uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r pandemig, a'r heriau parhaus sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu wrth ymateb i'r rhain. Mae'n hanfodol felly bod busnes y Bwrdd, a busnes ei bwyllgorau, yn parhau i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau allweddol a'i risgiau strategol, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng strategaeth, darpariaeth a pherfformiad, a diwylliant.

I gydnabod blaenoriaethau strategol y Bwrdd ar gyfer 2022/23 a'r risgiau strategol sydd ganddo ar hyn o bryd, cafodd strwythur pwyllgorau diwygiedig ar gyfer 2022/23 ei ystyried a'i gytuno gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022. Bydd y strwythur diwygiedig hwn yn galluogi cydbwysedd priodol rhwng strategaeth, cyflawni a pherfformiad, a diwylliant ac yn ystyried adborth gan Aelodau'r Bwrdd ac Archwilio Cymru o ran effeithiolrwydd. Ceir rhagor o fanylion am y Strwythur Pwyllgorau ar gyfer 2022/23 ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd.

## **Cynnal Busnes gyda Didwylledd a Thryloywder**

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mae'n ofynnol i'r sefydliad gyfarfod yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r pandemig bu cyfyngiadau ar gynulladau cyhoeddus, ac felly ni fu'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein bwrdd a'n pwyllgorau drwy gydol 2021/22. Mae hyn felly wedi golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog yn hyn o beth.

Er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau a ganlyn:

- Mae holl becynnau agenda cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau wedi'u cyhoeddi ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd cyn cyfarfodydd;
- Cafodd cyfarfodydd y Bwrdd eu ffrydio'n fyw rhwng Mehefin 2020 a Medi 2021. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu aildddechrau ffrydio'n fyw o gyfarfodydd y Bwrdd erbyn Hydref 2022;
- Ers mis Medi 2021, mae cyfarfodydd y Bwrdd wedi'u recordio a'u cyhoeddi i Sianel YouTube y Bwrdd Iechyd o fewn 24 awr.

Mae'r Bwrdd yn cyflymu cynlluniau i alluogi ei gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor i gael eu cynnal yn gyhoeddus a bod ar gael i'r cyhoedd trwy ffrydio byw, lle bynnag y bo modd. Yn y cyfamser, bydd agendâu cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi gyda datganiad yn hysbysu'r cyhoedd y dylent gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd cyn y cyfarfod os ydynt yn dymuno arsylwi rhith-gyfarfod o'r bwrdd neu bwyllgor, er mwyn iddynt allu ystyried y cais yn unigol. Bydd y datganiad hwn hefyd ar gael i aelodau'r cyhoedd ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgorau wedi ceisio cynnal isafswm o'i fusnes mewn sesiynau preifat a sicrhau bod busnes, lle bynnag y bo modd, yn cael ei gyhoeddi i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgorau nad ydynt yn cyhoeddi gwybodaeth yn gyhoeddus naill ai oherwydd natur gyfrinachol eu busnes, megis y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (RATS), neu maent yn gyfarfodydd datblygiadol anffurfiol fel y Grŵp Strategaeth, Cynllunio, Partneriaethau a Llesiant yn trafod cynlluniau a syniadau yn aml yn eu cyfnodau ffurfiannol.

Caiff cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau eu cofnodi'n ffurfiol a chaiff cofnodion eu hystyried i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael, yn y drefn honno. Yn ogystal, mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw Logiau Penderfyniadau ar gyfer pob penderfyniad a wneir gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

## Eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2021-22

Yn ystod 2021-22, cynhaliodd y Bwrdd 8 cyfarfod:

- 6 cyfarfod deufisol a drefnwyd yn rheolaidd
- 1 cyfarfod ychwanegol ym mis Mehefin 2021 i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020/21 yn ffurfiol, yn dilyn ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg y Bwrdd Iechyd.
- 1 cyfarfod arbennig ym mis Hydref 2021 i ystyried a chymeradwyo'r cynigion buddsoddi ar gyfer Achos Busnes Rhwydwaith Fasgwlaidd De-ddwyrain Cymru

Yn ogystal, cynhaliodd y Bwrdd ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 28 Gorffennaf 2021. Cynhaliwyd hwn trwy Microsoft Teams a'i ffrydio ar Sianel YouTube y Bwrdd Iechyd.

Mae Aelodau'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd, megis sesiynau Datblygu'r Bwrdd, sesiynau Briffio Bwrdd COVID-19, mynychu cyfarfodydd partneriaeth, cysgodi ac amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allanol eraill

Yn ystod 2021/22, parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu prosesau a chyfathrebiadau ynghylch olrhain asedau gwybodaeth, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a diogelu data. Adolygwyd y deunydd hyfforddi e-

ddysgu llywodraethu gwybodaeth a sicrhawyd ei fod ar gael i staff ar y fewnrwyd. Mae hysbysiadau preifatrwydd yn cael eu hadolygu ar lefel genedlaethol a lleol wedi'u cynnal ac yn cael eu defnyddio. Mae polisïau llywodraethu gwybodaeth yn parhau i gael eu hadolygu ar sail Cymru gyfan fel rhan o'r gwaith cydweithredol sydd ei angen yng ngoleuni'r GDPR i sicrhau cysondeb o ran cynnwys a chyd-destun polisi ar draws sefydliadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio fframwaith cymorth rheoli Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru i sicrhau cysondeb o ran polisi, safonau a dehongliad o'r gyfraith a rheoleiddio ar draws sefydliadau GIG Cymru.

Yn ystod 2021-22, derbyniodd y Bwrdd Iechyd ychydig dros 5,000 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth (SAR) dan y Ddeddf Diogelu Data; mae hyn yn gynydd o 10% ers 2020-2021. Mae'r gyfran fwyaf o geisiadau a dderbynnir yn parhau i gael eu gwneud gan gyfreithwyr a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r gyfradd gydymffurfio â Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth wedi amrywio dros y flwyddyn, gydag uchafswm cydymffurfiaeth o 95% wedi'i gyflawni a chyfradd gydymffurfio o 92% ar gyfer mis Mawrth 2022.

Mae fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) wedi'i ymgorffori yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu gwybodaeth berthnasol â'i sefydliadau partner. Roedd hyn yn bwysig wrth rannu gwybodaeth bersonol rhwng partneriaid fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

Mae digwyddiad data personol yn dor diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad at ddata personol yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon. Yn unol â gofynion GDPR, rhaid adolygu pob digwyddiad data personol yn ddyddiol, a rhaid rhoi gwybod yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau a ystyrir yn arwyddocaol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) o fewn 72 awr. Yn ystod 2021/22, ni adroddwyd yn ffurfiol ar unrhyw ddigwyddiadau data personol i'r ICO. Yn ystod 2021/22, nid oedd unrhyw ddiffygion sylweddol o ran diogelwch data, ac eithrio rhai dibwys.

Yn ystod 2021/22, gwnaed chwe chwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) gan achwynwyr, ac ni chadarnhawyd yr un. Darparodd y Bwrdd Iechyd dystiolaeth gefnogol i'r ICO ym mhob achos i ddangos ei fod yn gweithredu o fewn y gyfraith a'i fod wedi darparu gwasanaeth effeithiol o ran eu gwybodaeth i'r achwynwyr. O ganlyniad, ni chymerwyd unrhyw gamau gan yr ICO yn erbyn y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2021/22, cofnodwyd 722 o ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth gan staff ar System Adrodd am Ddigwyddiadau DATIX y Bwrdd Iechyd: cynnydd o 62 ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r digwyddiadau hyn yn peri gwahanol lefelau o bryder, megis tudalennau coll mewn cofnod papur, diffyg argaeledd systemau TGCh am gyfnodau, ond ni adroddwyd am yr un ohonynt fel digwyddiadau mawr.

## Y Cod Llywodraethu Corfforaethol

Y Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i gyrff y GIG yw 'Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod ymarfer da' (cyhoeddwyd 21 Ebrill 2017). Nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, fel sefydliadau eraill GIG Cymru, gydymffurfio â holl elfennau'r Cod, ond mae prif egwyddorion y Cod yn sefyll fel y maent yn berthnasol i bob corff sector cyhoeddus. Adlewyrchir y cod Llywodraethu Corfforaethol o fewn polisiau a gweithdrefnau allweddol. Hefyd, o fewn ein system rheolaeth fewnol, mae ystod o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i fonitro ein cydymffurfiad â'r Cod. Mae'r rhain yn cynnwys Hunanasesu; Archwilio Mewnol ac Allanol; ac Adolygiadau Annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn glir ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod, ac nad oedd unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod fel y mae'n berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru. Darperir copi o'r hunanasesiad cyfredol yn erbyn y cod fel Atodiad Tri.

## TREFNIADAU CYNLLUNIO

Mae Deddf Cyllid GIG Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. Ym mis Ebrill 2020, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth i oedi'r broses IMTP yn ffurfiol yn sgil pandemig Covid-19. Yn dilyn hynny, ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru ar gyfer 2021 i 2022](#). Cadarnhaodd hwn fod y broses IMTP lawn yn dal i gael ei seibio a'i bod yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gyflwyno Cynlluniau Blynyddol Drafft a gymeradwywyd gan y Bwrdd i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn asesu'r cynlluniau a gyflwynwyd yn ffurfiol. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Blynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 31 Mawrth 2021.

Ym mis Rhagfyr 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r broses IMTP ffurfiol yn aildechrau yn dilyn y penderfyniad yn 2020 i oedi'r gofyniad hwn yng ngoleuni'r pandemig COVID-19. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2022 i 2025](#).

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd ei IMTP ar gyfer 2022-25 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Disgwylir cadarnhad o gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 y Bwrdd Iechyd yn ddilyniant naturiol o Gynllun Blynyddol 2021/22, gan adeiladu ar y dull cwrs bywyd, tra'n cydnabod bod y cyd-destun y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo nawr yn wahanol i'r un a gydnabuwyd yn 2020/21. Mae hyn yn ffocws o'r newydd ar adferiad cynaliadwy, a nodweddir gan newid sylfaenol sy'n cwmpasu rôl ehangach Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, cyflawni'r economi sylfaenol, a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gydag uchelgais Sero Net 2030.

## DATGANIADAU DATGELU GORFODOL

### Cynllun Pensiynau

Gallaf gadarnhau, fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, fod mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwyr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau. Mae rhagor o fanylion am hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn darpariaethau yn Natganiadau Ariannol 2021/22 (Nodyn 20).

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Bwrdd ei Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2020/21, a oedd yn nodi'r gwaith a wnaed rhwng 01 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 o fewn y Bwrdd Iechyd i gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd a gafodd eu nodi a'u cytuno o fewn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys data Monitro Cydraddoldeb yn seiliedig ar giplun ar 31 Mawrth 2021.

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd a'r ystod o wybodaeth y gall y sefydliad ei defnyddio fwyfwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod, oherwydd natur hirsefydlog rhai anghydraddoldebau, fod yn rhaid parhau i wneud cynnydd cryfach ac mae'r rhain wedi'u cario ymlaen drwy'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 – 2024, wedi'u hintegreiddio i IMTP y Bwrdd Iechyd ac ymateb i Aseiad Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2022-2027.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau presennol ymhellach ac wedi ehangu eraill. Mae pobl hŷn, pobl o leiafrifoedd ethnig a rhai pobl anabl, yn enwedig y rhai mewn cartrefi gofal, wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 i sicrhau, wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg, y bydd y cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21 y Bwrdd Iechyd ar gael ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd.

## Cynlluniau Cynladwyedd a Lleihau Carbon


Mae asesiadau risg yn eu lle yn unol â pharodrwydd ar gyfer argyfwng a gofynion argyfyngau sifil fel sy'n seiliedig ar ragamcanion tywydd UKCIP 2009 i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaeth y sefydliad o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion Adrodd Ymaddasu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gysoni ei weithgareddau i ategu a gwneud cynnydd tuag at yr amcanion a'r targedau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Mae'r Cynllun yn ymateb i'r datganiad o'r argyfwng hinsawdd yn 2019 a'r uchelgais Gweinidogion Cymru i sector cyhoeddus Cymru fod yn sero net erbyn 2030. Yn 2022/23, bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu ei Fframwaith Datgarboneiddio mewn ymateb i'r cynllun cenedlaethol.

Yn ystod y degawd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon o'i ystâd.

Ers y llinell sylfaen wreiddiol yn **2009/10** mae'r Bwrdd Iechyd wedi torri allyriadau carbon o **18,663 tunnell o CO<sub>2</sub>**, sy'n cyfateb i ostyngiad o **49%**. Ar gyfer 2021/22 mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bod allyriadau carbon o'i

adeiladau yn **19,400 tunnell** (ac eithrio Ysbyty Athrofaol y Grange).



Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau o brosesu gwastraff a gynhrychir o weithgareddau gofal iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at weithredu dull dim i dirlenwi mewn cydweithrediad â chontractwyr allanol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Reoli Amgylcheddol (EMS) ardystiedig trydydd parti i safon ryngwladol ISO 14001:2015. Mae'r EMS wedi'i ddatblygu i ddod yn ganolbwynt ar gyfer gyrru gwelliant amgylcheddol parhaus yn ei flaen. Mae'n darparu dull cydgysylltiedig ar gyfer rheoli mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a mentrau teithio cynaliadwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi pwys mawr ar ardystiad parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd a'n rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ceisio gwella gwydnwch a bioamrywiaeth ar draws yr ystâd. I'r perwyl hwn mae nifer o fentrau lleol ar waith gan gynnwys plannu blodau gwyllt ar y cyd â gosodiadau celf allanol yn Ysbyty Athrofaol y Grange, llwyddiant parhaus a datblygiad yr Ardd Furiog yn Llanfrechfa Grange gan y sefydliad elusennol 'Friends of Llanfrechfa Grange Walled Garden' a phrosiect Pharma-Bees Prifysgol Caerdydd yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Cafodd Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio'r Bwrdd [gyflwyniad](#) ar Gynlluniau Datgarboneiddio'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022. Bydd y Bwrdd yn derbyn ei Adroddiad Cynaliadwyedd Blyneddol ym mis Medi 2022, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Ansawdd Data

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a cadernid ei ddata ac mae ganddo wiriadau rheolaidd ar waith i sicrhau cywirdeb y wybodaeth y dibynnir arni. Fodd bynnag, cydnabyddir bod lluosogrwydd systemau a mewnbynnau data ar draws y sefydliad yn golygu bod potensial

bob amser am amrywiadau mewn ansawdd, ac felly bob amser lle i wella. Mae gennym ddull gwella ansawdd data parhaus sy'n asesu ansawdd ein data ar draws systemau clinigol allweddol yn rheolaidd. Mae data clinigol o ansawdd da yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio yn sail i lawer o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir i gefnogi cynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, asesiadau o effeithiolrwydd triniaethau a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer llawer o archwiliadau clinigol.

Mae'r Bwrdd yn dibynnu ar sicrwydd annibynnol a gwrthrychol, megis y rhai a ddarperir gan archwilwyr ac arolygwyr, i roi sylwadau ar effeithiolrwydd system sicrwydd y Bwrdd. Mae'r system sicrwydd hon yn cynnwys adrodd ar berfformiad ariannol, perfformiad gweithredol ac ansawdd y canlyniadau cysylltiedig.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi Offerynnau Anstatudol ac wedi ailgyflwyno Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHC) yn 2014/15. Mae manylion y rhain a chofnod o unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogol a roddwyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae manylion llawn y Cylchlythyrau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2021/22 a chatau ymateb y Bwrdd Iechyd wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol yn 2021/22. Cyhoeddwyd un Cyfarwyddyd Gweinidogol ym mis Rhagfyr 2019, i fynd i'r afael â'r heriau gweithredol sy'n codi o ganlyniad i drefniadau treth benswn. Mae rhagor o fanylion yn hyn o beth wedi'u cynnwys mewn darpariaethau yn Natganiadau Ariannol 2021/22 (Nodyn 20).

## ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o reoli risg, lle caiff risgiau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli, ac os yw'n briodol, eu dwysáu neu eu dad-ddwysáu drwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad.

Yn ystod 2021/22, mae Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg a Phwyllgor Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Chanlyniadau'r Bwrdd wedi chwarae rhan allweddol wrth fonitro effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a'r broses ar gyfer rheoli risg. Bydd gwaith yn parhau yn 2022/23 i gryfhau adrodd ar risgiau i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau. Byddwn yn sicrhau bod gwaith pob rheolydd, arolygydd a chorff sicrwydd yn cael ei fapio a bod tystiolaeth ohono yn ein fframwaith sicrwydd fel bod y Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r gweithgaredd

hwn a lefel y sicrwydd y mae'n ei ddarparu. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion sy'n deillio o waith archwilwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cronfa Risg Cymru ac arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill i lywio'r dulliau llywodraethu a sicrwydd a sefydlwyd gan y sefydliad. Mae mecanwaith olrhain ar gyfer yr argymhellion hyn hefyd yn ei le ac mae'r cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion hyn yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion trwy ddiweddariadau mewn perthynas ag Arolygiadau.

## ARCHWILIAD MEWNOL


Mae archwilio mewnol yn rhoi llif o sicrwydd ar y system rheolaeth fewnol i mi fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar y rhaglen gyda rhai archwiliadau'n cael eu gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn darparu Barn Flynyddol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau sydd heb eu cwblhau'n llawn.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad ar gyfer 2021/22 wedi'i nodi isod:

<b>Sicrwydd rhesymol</b>		Gall y Bwrdd gymryd <b>Sicrwydd Rhesymol</b> bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion yn gofyn am sylw rheolwyr wrth ddylunio rheolaeth neu gydymffurfio ag effaith isel i gymedrol ar amlygiad risg gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys.
--------------------------	---	--

Oherwydd effaith barhaus COVID-19 ar y sefydliad, roedd angen i'r cynllun archwilio mewnol yn ystod 2021/22 fod yn hyblyg ac yn ymatebol i sicrhau bod risgiau allweddol sy'n datblygu yn cael eu cynnwys. O ganlyniad i'r dull hwn, a chyda chefnogaeth swyddogion ac aelodau annibynnol ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r cynllun wedi'i gyflawni'n sylweddol yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Mae'r newidiadau gofynnol yn ystod y flwyddyn wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Yn ogystal, mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Er bod newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, mae Archwilio Mewnol wedi cadarnhau bod digon o waith archwilio wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn 2021/22 i'r Pwyllgor i ddechrau ym mis Mawrth 2021. Roedd cwrdd yr archwiliad yn y cynllun yn canolbwyntio'n fwriadol ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol; mae'n bosibl felly bod canlyniad yr adolygiadau archwilio hyn wedi amlygu gwendidau rheoli sy'n effeithio ar y farn sicrwydd gyffredinol.

Yn gyffredinol, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol yn y meysydd a nodir yn y tabl isod.

Mae Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau, lle mae Sicrwydd Cyfyngedig wedi'i roi, bod y rheolwyr yn ymwybodol o'r materion penodol a nodwyd ac wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu i wella rheolaeth yn y meysydd hyn. Yn ogystal, ac yn rhannol yn adlewyrchu effaith COVID-19, cynhaliodd Archwilio Mewnol hefyd nifer o adolygiadau cynghorol a di-farn i gefnogi'r farn gyffredinol. Ceir crynodeb o'r archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a cheir crynodeb o'r canlyniadau yn y tabl trosodd.

Sicrwydd Sylweddol	Sicrwydd Rhesymol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau Esgeulustod Clinigol</li> <li>• Cronfeydd Elusennol</li> <li>• Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• YAG: Sicrwydd Ariannol (Dilyniant)</li> <li>• YAG: Sicrwydd Technegol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynaliadwyedd Ariannol</li> <li>• Rhoddion, Lletygarwch a Datganiadau Buddiannau</li> <li>• Gweithio i Wella</li> <li>• Cynllun Gweithredol ar gyfer Ailddechrau Gwasanaethau</li> <li>• Patholeg</li> <li>• Rheoli Meddyginiaethau</li> <li>• Rheoli Cwmpiaidau</li> <li>• Cyfleusterau – Gofal ar ôl Marwolaeth</li> <li>• Llywodraethu Corfforaethol</li> <li>• Deddf Galluedd Meddyliol</li> <li>• Imiwneiddio rhag Ffliw</li> <li>• Canolfan Llif</li> <li>• Rheoli Risg</li> <li>• Rheolaethau System TG</li> <li>• Canolfan Iechyd a Lles Tredegar</li> <li>• YAG: Dilyniant</li> <li>• YAG: Ansawdd</li> <li>• Rheoli Gwastraff</li> <li>• Cyfarwydddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS)</li> </ul>
Sicrwydd Cyfyngedig	Cynghorol a Di-Farn
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofal Iechyd Parhaus</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datix (Cefnogi Rheoli Digwyddiad)</li> <li>• Dilyniant Argymhellion Blaenoriaeth Uchel</li> <li>• Offer a Dyfeisiau Meddygol</li> </ul>
Dim Sicrwydd	
Amh	

## Adolygiadau Sicrwydd Cyfyngedig

### Gofal iechyd parhaus

Diben yr adolygiad hwn oedd rhoi sicrwydd bod trefniadau comisiynu cadarn ar waith yn yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (yr Is-adran), gan ganolbwyntio ar ansawdd a diogelwch.

Wrth bennu lefel gyfyngedig o sicrwydd, nododd Archwilio Mewnol nifer o faterion yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt, gan gynnwys:

- sicrhau bod gwelliannau cynaliadwy o ran atebolrwydd a chraffu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu cyflawni;
- sicrhau bod sylw a throsolwg ehangach gan yr Is-adrannau ar waith ar gyfer gweithgarwch comisiynu CIC/S117;
- bod yr angen i asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr ar Fframwaith Cymru Gyfan (AWF) wedi'i gwblhau; a
- sicrhau parodrwydd Is-adrannol ar gyfer gweithredu'r polisi a'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer CIC (sydd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2022), i gynnwys ymagwedd gadarn at hyfforddiant.

Wrth gynnal yr adolygiad, cydnabu'r Archwilwyr Mewnol fod yr Is-adran eisoes wedi nodi'r angen am waith yn y meysydd hyn ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, bu cynnydd pellach yn effaith y Pandemig.

Bu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystyried cynllun gweithredu'r rheolwyr yn ei gyfarfod ar [7 Ebrill 2022](#) i ymateb i'r gwendidau a nodwyd a bydd yn monitro cynnydd yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt drwy'r Traciwr Argymhellion Archwilio. Roedd y broses hefyd wedi'i nodi mewn papur i'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg ar 7 Ebrill 2022.

## **ARCHWILIAD ALLANOL: ASESIAID STRWYTHUREDIG ARCHWILIO CYMRU**

Archwiliodd Adroddiad Aseiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2021 y trefniadau sydd ar waith gan y Bwrdd Iechyd i gefnogi llywodraethu da ar draws meysydd allweddol o fusnes y Bwrdd Iechyd ac defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Daeth yr Adroddiad i ben gyda'r aseiad a ganlyn:

*Yn gyffredinol, canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal trefniadau Bwrdd a Phwyllgorau digonol a'i fod yn sefydlu ei strwythur llywodraethu newydd ochr yn ochr â'i fecanweithiau sicrwydd, ond mae cyfleoedd i asesu effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd trwy gyfnod o drosiant uchel ymhlith ei uwch arweinwyr ar lefel Bwrdd tra hefyd wedi dal nifer o swyddi gwag i Aelodau Annibynnol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli ariannol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae ei ddiffyg sylfaenol yn peri risg i gynaliadwyedd ariannol wrth symud ymlaen. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu a chyflwyno'r Cynllun Blynyddol yn effeithiol. Er bod y Cynllun Blynyddol yn egluro amcanion strategol ac wedi llywio busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau, cyfyngedig fu'r oruchwyliaeth a'r craffu ar gyflawniad cyffredinol y Cynllun Blynyddol ar lefel y Bwrdd.*

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gymryd nifer o gamau gwella yn ystod 2022 i ymateb i'r aseiad hwn. Bydd y cynnydd yn erbyn y camau hyn yn cael ei fonitro gan y Tîm Gweithredol a Phwyllgorau'r Bwrdd Iechyd, a bydd ymateb cyffredinol y sefydliad i'r camau hyn yn cael ei adolygu'n barhaus trwy fecanweithiau adrodd ac olrhain y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Mae [Aseiad Strwythuredig 2021](#), ynghyd ag [ymateb](#) y Bwrdd Iechyd, ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## **CASGLIAD**

Fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn seiliedig ar y broses sicrwydd a amlinellwyd uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w hatebolrwydd mewn

perthynas â rheolaeth fewnol ac mae'r Bwrdd wedi sefydlu system yn ystod y flwyddyn o ddarparu sicrwydd sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol i gynorthwyo gydag adnabod a rheoli risg. Mae'n bleser gennyf nodi, o ganlyniad i'n trefniadau rheolaeth fewnol, fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn parhau i fod ar fonitro 'arferol' fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru.

Yn ystod 2021-22, nododd y Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol feysydd yr oedd angen eu gwella a gofynnodd i Archwilio Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2022/23 i sicrhau bod argymhellion sy'n deillio o adolygiadau archwilio yn cael eu rhoi ar waith, yn enwedig pan fydd sgôr sicrwydd cyfyngedig yn cael ei gymhwyso. Bydd gwaith hefyd yn parhau yn 2022/23 i ymgorffori rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd ar lefel gorfforaethol. Bydd gweithredu Blaenoriaethau Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd, a nodir yn yr IMTP 2022-25, yn arwain at gryfhau ymhellach effeithiolrwydd y Bwrdd a'r system rheolaeth fewnol yn 2022/23.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cadarnhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi parhau i aeddfedu fel sefydliad ac, er bod meysydd i'w cryfhau, nid oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol neu lywodraethu sylweddol wedi'u nodi. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol wedi sefydlu system gadarn ac effeithiol o reolaeth fewnol sy'n rhoi sicrwydd rheolaidd sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad. Ar y cyd â'r Bwrdd, byddaf yn parhau i ysgogi gwelliannau a byddaf yn ceisio rhoi sicrwydd i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid bod y gwasanaethau a ddarparwn yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol, ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cleifion.

Fel y nodwyd drwy'r datganiad hwn, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 a'i oblygiadau tymor hwy wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ychwanegol at y risgiau. Bydd yr angen i ymateb ac ymadfer o'r pandemig gyda'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach drwy gydol 2021/22, 2022/23 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

### **Llofnodwyd:**

Glyn Jones  
Glyn Jones, Prif Weithredwr Dros Dro  
Dyddiad: 14 Mehefin 2022

## **DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 – TRYLOYWDER MEWN CADWYNI CYFLENWI**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n llwyr i God Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae hwn wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Mae'r cod ymarfer yn nodi nifer o ymrwymadau ac mae Gwasanaethau Caffael, ar ran y Bwrdd Iechyd, wedi dechrau paratoi cynllun gweithredu fel y gall fonitro cynnydd yn erbyn y rhain. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys y gofyniad i bob cyflenwr fodloni'r Ddeddf yn ein Telerau ac Amodau contract safonol y GIG.

Hefyd, yn dilyn yr ymgynghoriad Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (2019), mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymestyn adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr sydd â chyllideb o £36m neu fwy. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynhyrchu datganiadau blynyddol erbyn 30 Medi bob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi manylion y camau a gymerwyd i atal caethwasiaeth fodern yn eu gweithrediadau a'u cadwyn gyflenwi. Mae datganiad drafft yn cael ei lunio gan y Gwasanaeth Caffael a Chyfreithiol/Risg yn barod ar gyfer y terfyn amser o 30 Medi, yn adlewyrchu'r gwaith hyd yma, unrhyw risgiau pellach sy'n dod i'r amlwg a mesurau lliniaru priodol.

Mae'r swyddogaeth gaffael yn faes allweddol ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae hwn yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) sy'n cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Felindre). Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith a wneir ar ran y Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ar [wefan](#) y Bartneriaeth.

## Atodiad Un

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau ac atebolrwydd a nodir yn nhelerau ac amodau'r penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni rolau Hyrwyddwyr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb	Rôl Hyrwyddo
<b>Aelodau Annibynnol</b>					
Ann Lloyd	Cadeirydd		Cadeirydd y Bwrdd	6 allan o 7	
			Cadeirydd, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	3 allan o 3	
			Cadeirydd, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	5 allan o 5	
Emrys Elias	Dirprwy Gadeirydd	Tan 30 Medi 2021	Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd	4 allan o 4	Iechyd Meddwl (tan 30/09/21)
			Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg (tan 30/9/21)	4 allan o 4	
			Cadeirydd, Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl (tan 30/9/21)	1 allan o 2	
			Cadeirydd, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion (tan 30/09/21)	3 allan o 3	
			Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (tan 30/09/21)	1 allan o 1	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 2	
Pippa Britton	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Tan 17 Hydref 2021	Dirprwy Gadeirydd Dros Dro y Bwrdd (o 18/10/21 – cyn hynny yn Aelod Annibynnol (Cymuned) o'r Bwrdd	6 allan o 7	Iechyd Meddwl (o 18/10/21)

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
	Dirprwy Gadeirydd Dros Dro	O 18 Hydref 2021	Cadeirydd, Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl (o 28/10/21)	2 allan o 2	Gweithio i Wella
			Cadeirydd, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion (o 28/10/21) (yn flaenorol yn Ddirprwy Gadeirydd)	4 allan o 6	
			Cadeirydd, Pwyllgor Pobl a Diwylliant (tan 8/10/21)	3 allan o 3	
			Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	3 allan o 3	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	4 allan o 5	
Katija Dew	Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)		Aelod o'r Bwrdd	7 allan o 7	Pobl Hŷn
			Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg	7 allan o 7	
			Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl	4 allan o 4	
			Cadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	4 allan o 4	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	5 allan o 5	
Shelley Bosson	Aelod Annibynnol (Cymuned)		Aelod o'r Bwrdd	7 allan o 7	Atal a Rheoli Heintiau
			Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg	7 allan o 7	
			Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau	5 allan o 6	
			Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	3 allan o 3	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	5 allan o 5	
Louise Wright	Aelod Annibynnol (Undeb Llafur)		Aelod o'r Bwrdd	5 allan o 7	Plant a Phobl Ifanc
			Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion (o 28/10/21)	3 allan o 3	
			Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	4 allan o 4	
			Cadeirydd, Pwyllgor Pobl a Diwylliant (o 28/10/21), yn flaenorol yn Ddirprwy Gadeirydd	3 allan o 3	
			Aelod, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (o 08/10/21)	2 allan o 2	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	5 allan o 5	
Richard G Clarke	Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol)		Aelod o'r Bwrdd	6 allan o 7	
			Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg	6 allan o 7	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	3 allan o 5	
Yr Athro Helen Sweetland	Aelod Annibynnol (Prifysgol)		Aelod o'r Bwrdd	6 allan o 7	
			Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau	6 allan o 6	
			Aelod, Pwyllgor Pobl a Diwylliant	2 allan o 2	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	4 allan o 5	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
Paul Deneen	Aelod Annibynnol (Cymuned)		Aelod o'r Bwrdd	7 allan o 7	Cydraddoldeb
			Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg (o 08/10/21)	3 allan o 3	
			Aelod, Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl	3 allan o 4	
			Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau	6 allan o 6	
			Aelod, Pwyllgor Pobl a Diwylliant (o 28/10/21)	0 allan o 1	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	5 allan o 5	
Keith Sutcliffe	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid		Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	3 allan o 7	Y Lluoedd Arfog a Chyn Filwyr
			Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	1 allan o 4	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	1 allan o 5	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
<b>Cyfarwyddwyr Gweithredol</b>					
Judith Paget	Prif Weithredwr		Aelod o'r Bwrdd	4 allan o 4	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
		Tan 1 Tachwedd 2021	Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (tan 1/11/21)	0 allan o 1	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 3	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Glyn Jones	Prif Weithredwr Dros Dro	O 1 Tachwedd 2021	Aelod o'r Bwrdd	3 allan o 3	
			Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	1 allan o 2	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 2	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Glyn Jones	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad/Dirprwy Brif Weithredwr	Tan 1 Tachwedd 2021	Aelod o'r Bwrdd	4 allan o 4	
			Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	1 allan o 2	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio, Partneriaethau a Llesiant	1 allan o 3	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Rob Holcombe	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, Caffael a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth	O 1 Tachwedd 2021	Aelod o'r Bwrdd	3 allan o 3	
			Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	3 allan o 3	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	1 allan o 2	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
			Mynychwr Gofynnol: Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg		
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Dr James Calvert	Cyfarwyddwyr Meddygol		Aelod o'r Bwrdd	7 allan o 7	Caldicott
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 5	
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau		
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Geraint Evans	Cyfarwyddwr Gweithlu ac OD	Tan 31 Awst 2021	Aelod o'r Bwrdd	1 allan o 1	Mynegi Pryderon Y Gymraeg
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 2	
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Sarah Simmonds		O 22 Gorffennaf 2021	Aelod o'r Bwrdd	6 allan o 6	

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
	Cyfarwyddwr Gweithlu ac OD		Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 3	Mynegi Pryderon Y Gymraeg
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Pobl a Diwylliant		
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG	Tan 1 Tachwedd 2021	Aelod o'r Bwrdd	3 allan o 4	Cynllunio Brys
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	3 allan o 3	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Nicola Prygodzicz	Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad, Digidol a TG / Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro	O 1 Tachwedd 2021	Aelod o'r Bwrdd	3 allan o 3	Cynllunio Brys
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	2 allan o 2	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Rhiannon Jones	Cyfarwyddwr Nyrsio		Aelod o'r Bwrdd	7 allan o 7	Plant a Phobl Ifanc Atal a Rheoli Heintiau Gweithio i Wella
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	1 allan o 5	
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau		

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd			
Nick Wood	Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl	Tan 5 Rhagfyr 2021	Aelod o'r Bwrdd	4 allan o 5		
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	4 allan o 4		
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl			
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd			
Peter Carr	Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd		Aelod o'r Bwrdd	5 allan o 7	Diogelwch Tân Trais ac Ymddygiad Ymosodol	
			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant	3 allan o 5		
			Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau			
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd			
Dr Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol	O 6 Rhagfyr 2021 hyd 28 Chwefror 2022	Aelod o'r Bwrdd	6 allan o 7		
	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol /			Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant		3 allan o 5
				Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl (6/12/21-28/2/22)		
				Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		

<b>Enw</b>	<b>Swydd a Maes Arbenigedd</b>	<b>Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)</b>	<b>Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd</b>	<b>Presenoldeb</b>	<b>Rôl Hyrwyddo</b>
	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl				
Dr Chris O'Connor	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl	O 28 Chwefror 2022	Aelod o'r Bwrdd Aelod, Grŵp Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant Mynychwr gofynnol: Pwyllgor Monitro Deddf Iechyd Meddwl Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd	0 allan o 1	
<b>Cyfarwyddwyr Presennol</b>					
Claire Birchall	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Tan 2 Mai 2021	Presennol yn y Bwrdd Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd	0 allan o 0	
Leanne Watkins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro	O 12 Ebrill 2021 hyd 16 Mawrth 2022	Presennol yn y Bwrdd	4 allan o 6	
	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	O 17 Mawrth 2022	Presennol yn y Bwrdd Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd	1 allan o 1	
<b>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol</b>					
Richard Howells	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro	Tan 30 Tachwedd 2021	Presennol yn y Bwrdd	5 allan o 5	

Enw	Swydd a Maes Arbenigedd	Dyddiadau (os nad yn flwyddyn lawn)	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd	Presenoldeb	Rôl Hyrwyddo
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		
Rani Mallison	Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	O 28 Tachwedd 2021	Presennol yn y Bwrdd	2 allan o 2	
			Presenoldeb ar gais yn holl Bwyllgorau'r Bwrdd		

Yn dilyn ymadawriad yr Is-Gadeirydd ym mis Medi 2021, gwnaed newidiadau i aelodaeth y pwyllgor i alluogi cworwm.

### Statws Cworwm Cyfarfodydd

Bwrdd/Pwyllgor	Dyddiad						
<b>Bwrdd</b>	26 Mai 2021	28 Gorffennaf 2021	22 Medi 2021	13 Hydref 2021	24 Tachwedd 2021	26 Ionawr 2022	23 Mawrth 2022
<b>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau</b>	13 Ebrill 2021	15 Mehefin 2021	1 Medi 2021	19 Hydref 2021	7 Rhagfyr 2021	8 Chwefror 2022	
<b>Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid</b>	8 Ebrill 2021	18 Mai 2021	8 Mehefin 2021	12 Awst 2021	7 Hydref 2021	2 Rhagfyr 2021	3 Chwefror 2022
<b>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</b>	10 Mehefin 2021	9 Tachwedd 2021	11 Ionawr 2022	3 Mawrth 2022			
<b>Grŵp Strategaeth, Cynllunio,</b>	21 Ebrill 2021	29 Mehefin 2021	21 Hydref 2021	10 Tachwedd 2021	4 Ionawr 2022		

<b>Partneriaeth a Llesiant</b>							
<b>Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</b>	9 Medi 2021	10 Mawrth 2022					

**Â Chworwm** **Dim Cworwm**

## Atodiad Dau

<b>Cylchlythyr Iechyd Cymru/Dyddiad Cydymffurfio</b>	<b>Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu</b>	<b>Camau i ddangos gweithrediad/ymateb</b>
<a href="#">WHC 2021/005</a> Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar ofal iechyd trawsffiniol ac ad-dalu costau triniaeth yn yr UE	8 Ebrill 2021	Mae'r gyfarwydddeb newydd wedi'i hadolygu a'i rhoi ar waith, a'r canllawiau/gweithdrefn flaenorol diweddarau a dilyn yn unol â hynny.
<a href="#">WHC 2021/008</a> Diwygio'r Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol	27 Mai 2021	Dosbarthwyd llythyr eglurhaol WHC i'r adran uwchradd ac adrannau gofal sylfaenol gan gynnwys fferyllwyr annibynnol a phractisau meddygon teulu. Mae'r system Scriptswitch ym maes gofal sylfaenol yn diweddarau'r ddwy system TG Gofal Sylfaenol i sicrhau bod rhybuddion yn cael eu rhoi ar gychwyn y broses o ragnodi steroid ac ar y mater o ail-bresgripsiynau. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau mewn perthynas â steroidau geneuol a chwistrellu ond mae'n parhau mewn perthynas â steroidau argroenol a steroidau a fewnanadlir. Yn ogystal, mae fferyllwyr cymunedol yn dosbarthu cardiau steroid ar ddechrau rhagnodi ac yn ysbeidiol wedi hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datgan cydymffurfiaeth â <i>PSN057 - Cardiau Therapi Steroid Brys</i> .
<a href="#">WHC 2021/10</a> Adolygiad o reolau sefydlog, cadw a dirprwyo pwerau	16 Medi 2021	Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo wedi'u diwygio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd.
<a href="#">WHC 2021/11</a> Canllawiau monitro ariannol byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd 2021 i 2022	23 Ebrill 2021	Gweithredir yn fisol drwy ffurflenni monitro ffurflenni wedi'u llofnodi i Lywodraeth Cymru a'r Unedau Datblygu Unedol.
<a href="#">WHC 2021/12</a> Protocol ar gyfer delio gyda thrais ac ymosodiadau tuag at staff y GIG	22 Ebrill 2021	WHC wedi ei gyhoeddi a gweithredu
<a href="#">WHC 2021/19</a> Y rhaglen genedlaethol i frechu rhag y fflw 2021 hyd 2022	4 Awst 2021	WHC wedi ei gyhoeddi a gweithredu: Ar 15/03/22 roedd y nifer a gafodd y brechiad fflw yn BIPAB ymhlith y rhai 65 oed a hŷn ac mewn grwpiau risg clinigol rhwng 6 mis a 64 oed yr uchaf yng Nghymru. Roedd nifer y plant 2 a 3 oed a staff y Bwrdd Iechyd yn cydfynd yn fras â chyfartaledd Cymru Gyfan. Ffocws ymgyrch 2022/23 fydd

Cylchlythyr Iechyd Cymru/Dyddiad Cydymffurfio	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Camau i ddangos gweithrediad/ymateb
<a href="#">WHC 2021/021</a> Cyflwyno Shingrix® ar gyfer unigolion ag imiwnedd gwan o fis Medi 2021	1 Medi 2021	plant 2 a 3 oed, carfannau risg clinigol penodol o dan 65 a staff cartrefi gofal. Anfonwyd WHC at bob rheolwr practis a nyrs practis gyda gwybodaeth benodol a dolenni i setiau sleidiau perthnasol yr Eryr ar gyfer hyfforddiant.
<a href="#">WHC 2021/022</a> Cyhoeddi'r fframwaith ansawdd a diogelwch	17 Medi 2021	Cyflwynwyd Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cymru mewn cyfarfod QPSOG diweddar a fynychwyd gan bob Is-adran, gyda ffocws penodol ar y Ddyletswydd Ansawdd a gweithredu dull System Rheoli Ansawdd.  Mae'r Bwrdd Iechyd wedi caffael llwyfan digidol yn ddiweddar i gefnogi system rheoli ansawdd ar gyfer archwilio a gwella clinigol. Mae'r gwaith o adolygu'r strategaeth archwilio clinigol i gefnogi rhaglen o archwiliadau lleol adrannol a gynlluniwyd i fodloni blaenoriaethau ansawdd a diogelwch yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.  Mae tîm QPS ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau i recriwtio arweinydd gwybodeg QPS a fydd yn cefnogi gwell defnydd o ddata yn unol â'r fframwaith gyda ffocws penodol ar gefnogi Is-adrannau.  Mae unigolion allweddol o'r Bwrdd Iechyd wedi'u nodi i gefnogi pob un o'r 5 ffrwd gwaith ar gyfer y ddeddf ansawdd ac ymgysylltu. Mae gweithredu cam un y fframwaith adrodd cenedlaethol bellach wedi'i gwblhau.
<a href="#">WHC 2021/023</a> Penderfyniadau gofal ar gyfer dyddiau olaf	23 Medi 2021	Mae Bwrdd Gofal Diwedd Oes newydd wedi'i sefydlu lle bydd y CDG yn cael ei fonitro. Dosbarthwyd WHC ar draws y Bwrdd Iechyd ac i bartneriaid gyda chais i'w weithredu ar unwaith.
<a href="#">WHC 2021/024</a>	8 Medi 2021	WHC wedi ei gyhoeddi a gweithredu

<b>Cylchlythyr Iechyd Cymru/Dyddiad Cydymffurfio</b>	<b>Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu</b>	<b>Camau i ddangos gweithrediad/ymateb</b>
Cyfraniad GIG Cymru tuag at sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030		
<a href="#">WHC 2021/025</a> Llwybr Syndrom Twnnel y Carpws Cymru Gyfan	15 Medi 2021	WHC wedi ei gyhoeddi a gweithredu
Geraint Evans and Sarah Aitken have not contributed to the NHS Pension Scheme during 2021-22

CETV not shown for employees over retirement age

As Non-Executive members do not receive pensionable remuneration, there will be no entries in respect of pensions for Non-Executive members.

## **Lwfans blynyddol treth pensiynau – Trefniadau Cynllun yn Talu 2019/20**

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle mae rheolau treth pensiynau yn effeithio ar staff clinigol sydd am weithio oriau ychwanegol, ac sydd wedi penderfynu y gall staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu tâl treth ar dwf eu buddion pensiwn GIG, ddewis i'r tâl hwn gael ei dalu gan Gynllun Pensiwn y GIG, gyda'u pensiwn yn cael ei leihau wrth ymddeol.

Bydd Llywodraeth Cymru, ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn talu swm cyfatebol ar eu hymddeoliad i'r aelodau sy'n dewis ad-dalu eu pensiwn, gan sicrhau eu bod yn cael eu digolledu'n llawn am effaith y didyniad.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i Is-adran Bensiwn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, y gweinyddwyr ar ran hawlwyr Cymru.

Mae gan staff clinigol hyd at 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a'r gallu i wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys darpariaeth Cynllun Tâl o £756,155 (fel yr hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru) yng Nghyfrifon Blynyddol 2021/22.

### **Perthynas Tâl**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr/gweithiwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad. Blwyddyn ariannol 2021-22 yw'r datgeliadau blwyddyn gyntaf mewn perthynas â'r gymhareb dâl 25ain canradd a'r gymhareb tâl 75ain canradd sy'n ofynnol.

Yn 2021-22, cafodd 7 (2020-21, 3) o weithwyr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Roedd tâl yr holl staff yn amrywio o £19k i £338k (2020-21, £18k i £228k).

Mae'r ystod holl staff yn cynnwys cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn yr holl weithwyr.

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol yn gyson â'r polisïau cyflog, gwobrwyo a dilyniant ar gyfer gweithwyr yr endid yn eu cyfanrwydd.

	2021-22	2021-22	2021-22	2020-21	2020-21	2020-21
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Chief Executive	Employee	Ratio	Chief Executive	Employee	Ratio
<b>Total pay and benefits</b>						
25th percentile pay ratio	200 - 205	25	8.1	205 - 210	24	8.8
Median pay	200 - 205	32	6.3	205 - 210	31	6.8
75th percentile pay ratio	200 - 205	42	4.8	205 - 210	40	5.2
<b>Salary component of total pay and benefits</b>						
25th percentile pay ratio	200 - 205	25	8.1	205 - 210	24	8.8
Median pay	200 - 205	32	6.3	205 - 210	31	6.8
75th percentile pay ratio	200 - 205	42	4.8	205 - 210	40	5.2
	Highest Paid Director	Employee	Ratio	Highest Paid Director	Employee	Ratio
<b>Total pay and benefits</b>						
25th percentile pay ratio	200 - 205	25	8.1	205 - 210	24	8.8
Median pay	200 - 205	32	6.3	205 - 210	31	6.8
75th percentile pay ratio	200 - 205	42	4.8	205 - 210	40	5.2
<b>Salary component of total pay and benefits</b>						
25th percentile pay ratio	200 - 205	25	8.1	205 - 210	24	8.8
Median pay	200 - 205	32	6.3	205 - 210	31	6.8
75th percentile pay ratio	200 - 205	42	4.8	205 - 210	40	5.2

## ADRODDIAD STAFF

### Proffil Staff

	Permanent Staff	Staff on Inward Secondment	Agency Staff	Specialist Trainee (SLE)	Collaborative Bank Staff	Other	Total
	Number	Number	Number	Number	Number	Number	Number
Administrative, clerical and board members	2,506	20	56	0	0	0	2,582
Medical and dental	886	5	87	240	0	16	1,234
Nursing, midwifery registered	3,793	1	257	0	0	0	4,051
Professional, Scientific, and technical staff	432	1	3	0	0	0	436
Additional Clinical Services	2,647	0	145	0	0	0	2,792
Allied Health Professions	789	0	15	0	0	0	804
Healthcare Scientists	224	5	14	0	0	0	243
Estates and Ancillary	991	0	154	0	0	0	1,145
Students	4	0	0	0	0	0	4
<b>Total</b>	<b>12,272</b>	<b>32</b>	<b>731</b>	<b>240</b>	<b>0</b>	<b>16</b>	<b>13,291</b>

Newid o'r ffigurau drafft

### Cyfansoddiad Staff

Mae'r tabl uchod yn rhoi dadansoddiad o niferoedd staff fesul disgyblaeth a grŵp proffesiynol o fewn y Bwrdd Iechyd.

Darperir y dadansoddiad rhyw ar gyfer yr holl grwpiau staff isod:

2021-22				2020-21		
	Cyfarwyddwyr	WTE	%	Cyfarwyddwyr	WTE	%
Benywaidd	4.78	9722.10	79.23%	5.78	9762.84	79.29%
Gwrywaidd	6.00	2543.12	20.77%	5.00	2549.18	20.71%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10.78</b>	<b>12,276</b>		<b>10.78</b>	<b>12,312</b>	

Mae cyfanswm y staff fesul disgyblaeth yn wahanol i'r tabl niferoedd staff a ddangosir uchod oherwydd bod y ffigurau rhyw yn seiliedig ar bwynt mewn amser ar 31 Mawrth 2021. Mae niferoedd y staff yn cynrychioli'r cyfartaledd dros gyfnod o 52 wythnos o staff mewn swydd.

### Data Absenoldeb Salwch

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi monitro absenoldeb mewn categorïau amrywiol fel y nodir yn yr adran hon.

Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021/2022 yw 6.30%, gostyngiad ar gyfer absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch o 6.47% yn 2020/2021 wedi cynyddu o 6.15% yn 2019/2020. Dechreuodd absenoldeb oherwydd salwch gynyddu ym mis Awst 2021 gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Ionawr 2022 ar 7.44% (919 WTE) ond mae wedi gostwng ym mis Chwefror 2022 i 6.49%. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys absenoldeb salwch o ganlyniad i symptomau Covid-19 neu haint a gadarnhawyd, a oedd yn amrywio o 1.87% ym mis Ebrill 2020 i 0.83% ym mis Chwefror 2022.

Mae pandemig Covid-19 yn sicr wedi effeithio ar gyfraddau absenoldeb cyffredinol y Bwrdd Iechyd, ac wrth i gyfraddau pontio cymunedol leihau neu gynyddu, gwelwyd tystiolaeth y bydd hyn yn cael ei ailadrodd yn ein cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch. Mae absenoldeb salwch cyffredinol ar gyfer 2021/22 wedi bod yn uwch na salwch cyn y Pandemig 2019/20 ar 5.79% a 2018/19 ar 5.29% a oedd yn agosach at gyfradd absenoldeb targed y Bwrdd Iechyd o 5%.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul unigolyn wedi cynyddu ychydig o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2020/2021 y diwrnodau salwch a gollwyd ar gyfartaledd oedd 16 fesul gweithiwr unigol, a gynyddodd i 17.2 diwrnod yn 2021/22. Mae'r tabl isod yn rhoi'r data ar dueddiadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y Bwrdd Iechyd dros y saith mlynedd diwethaf.

Sickness Absence	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Days Lost (Short Term <28 days)	61261	53097	60406	54759	68229	60411	79761
Days Lost (Long Term >28 days)	144562	147711	153345	162684	194289	188778	203781
Total Days Lost	205823	200808	213751	217443	262518	249189	283542
Total Staff Years	902	880	937	954	1156	1093	1249
Average Working Days Lost	14.7	14.2	15.2	15.2	15.2	16	17.2
Total staff employed in period (headcount)	14020	14155	14012	14334	14835	15528	15863
Total staff employed with no absence (headcount)	4919	5803	4848	5016	5402	6055	5710
Percentage staff with no sick	40%	41%	37%	35%	36%	39%	36%

## Eithriad Meddygol

Term yw eithriad meddygol a ddefnyddir i gofnodi'r staff hynny sydd wedi gorfod hunanynysu am nifer o resymau, er enghraifft aelod o'r cartref â symptomau Covid-19, am fod y tîm Profi Olrhain a Diogelu wedi cysylltu â nhw, neu sy'n cael ei ddsbarthu fel eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac felly'n gorfod cysgodi am ddau gyfnod gwahanol o amser o ganlyniad i gyngor Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlygu sut yr effeithiodd y pandemig ar bresenoldeb yn gyffredinol, gyda 25,598 o ddiwrnodau pellach wedi'u colli oherwydd bod yn rhaid i staff gael eu heithrio'n feddygol, sy'n llawer is na 2020/21:

Medical Exclusion	2019/20	2020/21	2021/22
Days lost (Short term < 28 days)	6,779	36,331	18,389
Days lost (Long term >28 days)	2,439	57,707	7,208
Total days lost	9,218	94,038	25,597
Total staff years	40	412	90
Average working days lost	0.6	6	1.5
Total staff employed in period (headcount)	14,835	15,528	15,863
Total staff employed with no absence (headcount)	13,351	10,093	12,055
Percentage staff with no medical exclusion	90%	65%	76%
Percentage staff with no sick or medical exclusion	36%	33%	31%

Mae eithriad meddygol yn ychwanegu 1.5 diwrnod pellach ar gyfartaledd fesul gweithiwr unigol at absenoldeb cyffredinol. Lleihau'r diwrnodau absenoldeb cyfartalog cyffredinol a gollwyd fesul gweithiwr o 22 diwrnod yn 2020/21 i 18.8 diwrnod yn 2021/22, gan arwain at golli cyfanswm o 309,139 o ddiwrnodau gwaith oherwydd absenoldeb salwch a/neu eithriad

meddygol.

## Polisiau Staff

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan amrywiaeth o bolisiau staff ar waith, a ddatblygir mewn partneriaeth â staff a chydweithwyr undebau llafur. Gweithredir y polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy gydol y flwyddyn ariannol;

- ar gyfer roi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth a wneir gan bobl anabl, gan roi sylw i'w doniau a'u galluoedd penodol;
- ar gyfer parhau i gyflogi gweithwyr a threfnu hyfforddiant priodol i weithwyr sydd wedi dod yn bersonau anabl yn ystod y cyfnod pan gawsant eu cyflogi gan y cwmni;
- fel arall ar gyfer hyfforddi, datblygu gyrfa a dyrchafiad pobl anabl a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd.

Mae pob polisi staff yn cynnwys gofyniad i gynnal dadansoddiad o effaith y polisi ar gydraddoldeb. Ar y cyd â'r ymagwedd hon, defnyddiwyd y Polisi Absenoldeb Salwch a'r Polisi Recriwtio a Dethol i sicrhau bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i geisiadau am gyflogaeth a wneir gan berson anabl ac am gefnogi ei gyflogaeth barhaus.

## Materion Perthynas â Gweithwyr

Darperir manylion nifer yr achosion disgyblu rhwng 1 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022 isod:

Achosion Disgyblu	Diswyddo	Apeliadau	Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
109	10	10	5

## Taliadau i Gyn Gyfarwyddwyr

Ni wnaed unrhyw daliadau i unrhyw berson nad oedd yn gyfarwyddwr ar yr adeg y gwnaed y taliad, ond a oedd wedi bod yn gyfarwyddwr y Bwrdd Iechyd yn flaenorol.

## Gwariant ar Ymgynghoriaeth

Expenditure on Consultancy	2021-22	
Note 3.3 from the main Accounts		
Consultant	Details	£000
AKESO and Company Ltd	Health Courier Service Review	10
Andy Oswin	Brand Development Project	2
Deloitte LLP	Employment Tax	14
Ernst & Young LLP	VAT Compliance	19
Figure & Consultancy Services Ltd	Training Learning and Engagement work	60
GP Fire & security	Security infrastructure review	-4
In-Form Solutions Ltd	Commercial Advice	6
Keep on Walking Ltd	Management Support, Coaching and Wellbeing	35
Performance Matters (N.I.) LTD	Consultancy Fees Workforce and Organisation Development	4
Supportive Care UK Ltd	HR Board Rounds	23
Working Word Public Relations Ltd	Communication and Engagement Strategy	6
<b>TOTAL</b>		<b>175</b>

## Sicrwydd Treth ar gyfer Ymrwymadau Oddi ar y Gyflogres

**Table 1 : For all off-Payroll engagements as of 31 March 2022, for more than £245 per day**

No. of existing Engagements as of 31 March 2022		4
Of which, the number that have existed:		
for less than one year at time of reporting		1
for between one and two years at time of reporting		2
for between two and three years at time of reporting		
for between three and four years at time of reporting		
for four or more years at time of reporting		1

**Table 2 : For all new off-Payroll engagements between 1 April 2021 and 31 March 2022, for more than £245 per day**

	Number
Number of new engagements between 1 April 2021 and 31 March 2022	3
Of which...	
No. assessed as caught by IR35	
No. assessed as not caught by IR35	
No. engaged directly (via contracted to department) and are on the departmental payroll	
No. of engagements reassessed for consistency/assurance purposes during the year	
No. of engagements that saw a change to IR35 status following the consistency review	

**Table 3: For any off-payroll engagements of board members, and/or, senior officials with significant financial responsibility, between 1 April 2021 and 31 March 2022**

Number of off-payroll engagements of board members, and/or, senior officials with significant financial responsibility, during the financial year.	
Number of individuals that have been deemed "board members, and/or, senior officials with significant financial responsibility", during the financial year. This figure should include both off-payroll and on-payroll engagements.	12

## Pecynnau Ymadael a Thaliadau Terfynu

	2021-22	2021-22	2021-22	2021-22	2020-21
Exit packages cost band (including any special payment element)	Number of compulsory redundancies	Number of other departures	Total number of exit packages	Number of departures where special payments have been made	Total number of exit packages
	Whole numbers only	Whole numbers only	Whole numbers only	Whole numbers only	Whole numbers only
less than £10,000	0	0	0	0	0
£10,000 to £25,000	0	0	0	0	0
£25,000 to £50,000	0	2	2	0	0
£50,000 to £100,000	0	1	1	0	0
£100,000 to £150,000	0	0	0	0	0
£150,000 to £200,000	0	0	0	0	0
more than £200,000	0	0	0	0	0
<b>Total</b>	<b>0</b>	<b>3</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Exit packages cost band (including any special payment element)	Cost of compulsory redundancies	Cost of other departures	Total cost of exit packages	Cost of special element included in exit packages	Total cost of exit packages
	£	£	£	£	£
less than £10,000	0	0	0	0	0
£10,000 to £25,000	0	0	0	0	0
£25,000 to £50,000	0	85,839	85,839	0	0
£50,000 to £100,000	0	76,771	76,771	0	0
£100,000 to £150,000	0	0	0	0	0
£150,000 to £200,000	0	0	0	0	0
more than £200,000	0	0	0	0	0
<b>Total</b>	<b>0</b>	<b>162,610</b>	<b>162,610</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Exit costs paid in year of departure</b>			<b>Total paid in year</b>		<b>Total paid in year</b>
			<b>2021-22</b>		<b>2020-21</b>
			£		£
Exit costs paid in year			0		0
<b>Total</b>			<b>0</b>		<b>0</b>

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol y GIG (VERS). Lle mae'r BILI wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan y BILI ac nid gan Gynllun Pensiynau'r GIG. Telir costau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan Gynllun Pensiynau'r GIG ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo VERS yn 2021/22.

Gofyniad ychwanegol yn unol â FReM

Talwyd costau ymadael o £0 yn 2021-22, y flwyddyn ymadael (£0 - 2020-21).



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol 2021/22**

## Rheoleidd-dra Gwariant

Rheoleidd-dra Gwariant yw'r gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant a derbynebaw yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sicrhau bod y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru wedi'i wario at y dibenion a fwriadwyd gan Weinidogion Cymru a bod yr adnoddau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i'w defnyddio wedi'u defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd y defnydd ar eu cyfer.

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr:

- gadw at y cyfarwyddiadau cyrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a'u datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol oddi wrthynt; a'u
- paratoi ar sail busnes gweithredol ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu.

## Ffioedd a thaliadau

Pan fo'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael incwm i dalu ei gostau a fydd yn gwrthbwyso gwariant a adroddir o dan feysydd rhaglen. Mae Incwm Amrywiol i'w weld yn Nodyn 4 (tudalen 31) o'r Cyfrifon Blynnyddol 2021/22. Wrth godi tâl am y gweithgaredd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM.

Aeth y Bwrdd Iechyd i gostau gwerth £0.396m ar gyfer darparu archwiliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Rheoli arian cyhoeddus

Dyma'r Datganiad gofynnol ar gyfer Deiliaid Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus fel y cyfeirir ato yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Yn unol â chyrff eraill y GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu cyfarwyddiadau ariannol sefydlog sy'n gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau Trysorlys EM 'Rheoli Arian Cyhoeddus' sy'n nodi'r prif

egwyddorion ar gyfer ymdrin ag adnoddau yn y sector cyhoeddus yn y DU. O ganlyniad, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi cydymffurfio â gofynion dyrannu costau a chodi tâl y canllawiau hyn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle nad yw hyn wedi'i wneud.

### **Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol**

Cyflwynwyd y datgeliad hwn am y tro cyntaf yn 2015-16. Mae'n dangos y rhwymedigaethau digwyddiadol hynny y bernir eu bod yn hynod annhebygol ac nad ydynt wedi'u datgelu o'r blaen yn y nodyn rhwymedigaeth wrth gefn arferol yn y cyfrifon. Mae'n ymwneud â 2 achos o esgeulustod meddygol ac 1 achos anaf personol yn 2021/22 (2 achos o esgeulustod meddygol yn 2020/21) ac adroddir arno yn Nodyn 21.2 i'r prif gyfrifon.

Glyn Jones  
**Glyn Jones**  
**Prif Weithredwr Dros Dro**  
**2022**

**Dyddiad: 14 Mehefin**

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 31 Mawrth 2022 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

### Barn ar gysondeb

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn yr adran ar y **Sail ar gyfer Barn Gymwys ar Reoleidd-dra** fy adroddiad, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r mae trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail ar gyfer Barn Gymwys ar Reoleidd-dra

Rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, oherwydd mae'r datganiadau hynny'n cynnwys darpariaeth o £756,155 yn ymwneud ag atebolrwydd amcangyfrifedig yr Ymddiriedolaeth sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch glinigwyr. Yn fy marn i, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn faterol o ran ei natur.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalen 180.

### Sail fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10

'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Sector Cyhoeddus Endidau yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi ei chaffael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo am gyfnod o leiaf 12 mis o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd arnynt. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei gyflawni, byddaf yn casglu fod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y mater hwn.

### *Adroddiad ar ofynion eraill*

#### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r rhannau eraill o'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Perfformiad a rhannau eraill o'r Adroddiad Atebolrwydd heb eu harchwilio wedi'u paratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

### *Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad*

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a rhannau eraill o'r Adroddiad Atebolrwydd neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol na archwiliwyd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### *Cyfrifoldebau*

#### **Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg ac am rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifo oni bai y bernir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnwyd yn unol â'r ISAs (y DU) yn canfod camddatganiad materol bob tro os bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr, [pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir] a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a phostio cyfnodolion anarferol ac (ychwanegu fel y bo'n briodol at yr archwiliad).
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaid â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y [Pwyllgor Archwilio] a chynghorwyr cyfreithiol am gyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio a daliais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalen 180.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
17 Mehefin 2022

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

## **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD**

### *Cyflwyniad*

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, fi sy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Rwyf yn cyflwyno adroddiad ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 i dynnu sylw at un mater allweddol ar gyfer fy archwiliad. Dyma amod fy marn 'rheoleidd-dra' ynghylch gwariant a gydnabyddir o ganlyniad i'r cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau uwch glinigwyr. Nid wyf wedi amodi fy marn 'wir a theg' ar y mater hwn.

### *Cyfeiriad gweinidogol ar bensiynau uwch glinigwyr*

Nid yw cynllun pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn wedi'i ddatganoli i Gymru. Roedd newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys gostyngiad yn y terfyn Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad, mewn achosion lle mae cyfraniadau pensiwn unigolyn yn fwy na rhai terfynau lwfans cyfraniadau pensiwn blynyddol a/neu oes benodol, yna cânt eu trethu ar gyfradd uwch ar eu holl gyfraniadau, gan greu cynnydd sydyn mewn rhwymedigaeth treth.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff GIG Cymru yn: 'adrodd yn rheolaidd nad yw uwch staff clinigol yn fodlon ymgymryd â gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd y rhwymedigaeth dreth gosbol bosibl'. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn arwain at daliadau treth ychwanegol sy'n fwy nag unrhyw incwm ychwanegol a enillir.

Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog (yn adlewyrchu camau gweithredu cynharach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol i fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol i adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn. Pe bai clinigwyr y GIG yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Cynllun yn Talu' i setlo taliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o'u cynilion pensiwn GIG 2019-20 (h.y. setlo'r tâl ar ffurf pensiwn blynyddol llai, yn hytrach na thrwy wneud taliad untro ar unwaith), yna byddai eu cyflogwyr GIG yn cwrdd ag effaith y taliadau treth hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol.

Roedd angen y Cyfarwyddyd Gweinidogol oherwydd gallai Cyllid a Thollau EM ystyried bod yr ateb hwn yn gyfystyr â chynllunio treth ac o bosibl osgoi treth, gan olygu bod y gwariant yn afreolaidd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n cyfateb iddo yn Lloegr) yn

nodi'n benodol `na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gymryd rhan mewn...osgoi talu treth, osgoi treth na chynllunio treth'.

Nid yw Cyfarwyddyd Gweinidogol yn gwneud yr hyn a fyddai fel arall yn afreolaidd yn rheolaidd, ond mae'n symud yr atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath oddi wrth y Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog sy'n cyhoeddi'r cyfarwyddyd.

Mae'r ateb yn berthnasol i daliadau treth lwfans blynyddol yn unig sy'n deillio o gynnydd yn y buddion a gronnwyd yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2020. Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyon ar gyfer y lwfans blynyddol taprog ac, o ganlyniad, rhagwelir bod y risg i'r cyflenwad o staff clinigol wedi'i liniaru.

Mae'r BILL wedi derbyn digon o wybodaeth yn ystod y flwyddyn i gyfrifo a chydabod amcangyfrif o gostau posibl digolledu uwch staff clinigol am fuddion pensiwn y byddent wedi'u colli fel arall, trwy ddefnyddio'r trefniant `Cynllun yn Talu'. O ganlyniad, mae gwariant wedi'i gydnabod fel darpariaeth fel y dangosir yn Nodyn 20 y datganiadau ariannol. Bydd holl gyrff y GIG yn cael eu dal yn ddiniwed oherwydd effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol, fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r trafodion sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol y BILL i gydnabod y rhwymedigaeth hon yn afreolaidd ac yn berthnasol eu natur. Mae hyn oherwydd bod y taliadau'n groes i baragraff 5.6.1 Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn ffurfio math o gynllunio treth a fydd yn gadael y Trysorlys yn ei gyfanrwydd yn waeth ei byd. Nid yw cyfarwyddyd y Gweinidog yn unig yn rheoleiddio'r cynllun. At hynny, mae'r trefniadau yn newydd ac yn ddadleuol ac yn gosod cysail o bosibl. O ganlyniad, rwyf wedi amodi fy marn 'rheoleidd-dra' ar gyfer 2021-22.

**Adrian Crompton**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**17 Mehefin 2022**

**Geirfa**

<b>A</b>		
BIPAB – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	A&E Damweiniau ac Achosion Brys	ACV – Gwerth y Contract Blynyddol
AGP – Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol	AVLOS – Hyd Arhosiad Cyfartalog	CICAB – Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
AMD – Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oed		
<b>Y</b>		
CEO – Prif Swyddog Gweithredol	CIC – Cyngor Iechyd Cymuned	COSO – Pwyllgor Sefydliadau Noddi Comisiwn Treadway
CBE – Comander Urdd Ardderchog yr Ymerodraeth Brydeinig	CYP – Plant a Phobl Ifanc	CMO – Prif Swyddog Meddygol
COTE – Gofal yr Henoed	CONCCO – Pryder – Mynegiant Anfodlonrwydd Cleifion (Cod DATIX)	CAD – Gofal ar Ôl Marwolaeth
CRL – Terfyn Adnoddau Cyfalaf		
CCA – Deddf Argyfyngau Sifil		
<b>D</b>		
DATIX – system rheoli pryderon / digwyddiadau	DNA - Heb fynychu	DFL – Arweinydd Ffliw Rhanbarthol
<b>E</b>		
EASC – Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys	EMS – System Reoli Amgylcheddol	eLGH – Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell
EoLC - Cydymaith Diwedd Oes	ED – Adran Achosion Brys	EHEW – Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
ESR – Cofnod Staff Electronig	EOL – Diwedd Oes	
<b>F</b>		

FReM – Y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol		
<b>G</b>		
GMS – Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	GP – Meddyg Teulu	DLI – Datganiad Llywodraethu
YAG – Ysbyty Athrofaol y Grange	GDPR – Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data	GDP – Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol
GARTH – Celfyddydau mewn Iechyd Gwent	GAVO – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	GDAS – Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent
GURT – Siwt efelychu oedran	GWICES – Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Gwent Gyfan	
<b>H</b>		
HPF – Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol	HCSW – Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	EM – Ei Mawrhydi
HCS – Safonau Iechyd a Gofal	AaGIC – Addysg a Gwella Iechyd Cymru	HCC – Carsinoma Hepatogellol
AaGIC – Addysg a Gwella Iechyd Cymru	HCAI – Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd	HPV – Anwedd Hydrogen Perocsid
HFrEF – Methiant y Galon â Ffracsiwn â Alldafliaid Llai		
<b>I</b>		
TG – Technoleg Gwybodaeth	IMTP – Cynllun Tymor Canolig Integredig	ICF – Cronfa Gofal Integredig
ISO – Sefydliad Safoni Rhyngwladol	ICO – Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
IPBS – Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol Dwys	Iceberg – cynrychioliad gweledol o ddeall darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i blant	IPC – Atal a Rheoli Heintiau
IFRS – Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol		
<b>J</b>		

JCVI – Cydbwyllgor ar Frechiadau ac Imiwneiddio		
<b>M</b>		
LMC – Pwyllgor Meddygol Lleol	BILI – Bwrdd Iechyd Lleol	LNC – Pwyllgor Negodi Lleol
LES – Gwasanaethau Estynedig Lleol	LFD – Dyfais Llif Unffordd	LPS – Trefniadau Diogelu Rhyddid
<b>M</b>		
MpMRI – delweddu atseiniol magnetig aml-barametrig	MSK – Cyhyrysgerbydol	MDT – Tîm Amlddisgyblaethol
Myst – Fy Nhîm Cymorth	MIU– Uned Mân Anafiadau	MAU – Uned Asesu Meddygol
MHLD – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	MCA – Deddf Galluedd Meddyliol	MRSA – Staffylococws Awrëws sy'n Gwrthsefyll Methisilin
MELO – Gwefan Adnoddau Iechyd Meddwl		
<b>N</b>		
NCN – Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth	GIG – Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	NYTH – fframwaith strategol ar gyfer darparu gwasanaeth llesiant i blant – sy'n disgrifio'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i ffynnu a'r hyn sydd ei angen ar y systemau o amgylch plant hefyd. N - rhoi Nerth Y - Ymddiried T – Tyfu'n Ddiogel H – Hybu.
YNH – Ysbyty Neville Hall	PCGC – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	
<b>O</b>		
OD – Datblygiad Sefydliadol	OOH – Tu Allan i Oriau Swyddfa	OAK – Opsiynau, Cyngor a Gwybodaeth
ThG – Therapi Galwedigaethol		
<b>P</b>		

PSB – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	PQSOC – Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau	POCU – Uned Gofal Ôl-lawdriniaethol
PHW – Iechyd Cyhoeddus Cymru	PCR – Adwaith Cadwynol Polymerasau	POCT – Profion Pwynt Gofal
PIFU – Apwyntiadau Dilydol ar Gais y Claf	PROMS – Mesurau Canlyniad a Adroddwyd gan Gleifion	PPE – Cyfarpar Diogelu Personol
PWP – Ymarferwyr Lles Seicolegol	PCMHSS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol	PREMS – Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion
PoC – Prawf o Gysyniad	PLO – Swyddog Cyswllt Cleifion	PTR – Gweithio i Wella
OGCC – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	PA – Cydymaith Meddygol	PADR – Adolygiad Datblygu Arfarniad Personol
PTSD – Anhwylder Straen Wedi Trawma	PCC – Gofal sy’n Canolbwyntio ar y Claf	
<b>R</b>		
YBG – Ysbyty Brenhinol Gwent	RCS – Coleg Brenhinol y Llawfeddygon	RATS – Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
RTT – Atgyfeiriad am Driniaeth	RPB – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	RIIV – Ymchwil, Gwella, Arloesi a Gwerth
RITA – Cymorth Technoleg Ryngweithiol Atgofion	RCP – Coleg Brenhinol y Ffisigwyr	RIF – Cronfa Integreiddio Ranbarthol
<b>S</b>		
SIRO – Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth	SoS – Sylw yn ôl Symptomau	SRG – Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
SC2HU – Uned Camu’n Nes at Adref	SAR – Cais Gwrthrych am Wybodaeth	SPACE – datblygu un pwynt mynediad i blant ac oedolion ifanc
SI – Digwyddiad Difrifol		
<b>T</b>		
TUPF – Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur	TVA – Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	
<b>U</b>		
UPC – Gofal Sylfaenol Brys	UDA - Unedau Gweithgarwch Deintyddol	

<b>V</b>		
VERS – Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol	VBHC – Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth	
<b>W</b>		
WASPI – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru	LIC – Llywodraeth Cymru	WHC – Cylchlythyr Iechyd Cymru
PGIAC – Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	WPAS - System Gweinyddu Cleifion Cymru	WTE – Cyfwerth ag Amser Cyflawn
WHO – Sefydliad Iechyd y Byd		
<b>Y</b>		
YAB – Ysbyty Aneurin Bevan	YYF – Ysbyty Ystrad Fawr	